

CYPE(6)-02-22 - Papur 1

Papur gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Dyddiad: 20 Ionawr 2022

Amser: 9:30-11:00am

Teitl: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 - Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am gynigion Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg a amlinellwyd yng Nghyllideb ddrafft 2022-23, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2021. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Cyllideb ddrafft 2022-23 yw'r Gyllideb gyntaf a gyhoeddwyd ar gyfer y 6ed Senedd ac mae'n darparu cynllun tair blynedd ar gyfer referniw a buddsoddiad cyfalaf a baratowyd ar ôl i ganlyniad Adolygiad o Wariant aml-flwyddyn Llywodraeth y DU gael ei gyhoeddi ar 27 Hydref 2021.

1. Meysydd Trawsbynciol

1.1 Cyflwyniad ar Dryloywder y gyllideb

1.1.1 Yn y tabl isod rhoddir trosolwg o'r cynlluniau dangosol ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg a gyhoeddwyd yng Nghyllideb ddrafft 2022-23:

Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg – Crynodeb	£000oedd						
	Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2021-22	Newidiadau 2022-23	Cyllideb Ddrafft 2022-23	Newidiadau 2023-24	Cyllideb Ddrafft Ddangoso I 2023-24	Newidiadau 2024-25	Cyllideb Ddrafft Ddangoso I 2024-25
Adnodd	1,639,011	536,727	2,175,738	78,585	2,254,323	64,331	2,318,654
Cyfalaf	269,780	85,520	355,300	5,000	360,300	0	360,300
Cyfanswm yr Adnoddau a Chyfalaf	1,908,791	622,247	2,531,038	83,585	2,614,623	64,331	2,678,954
AME Adnoddau ¹	-148,386	2,082	-146,304	16,715	-129,589	-34,131	-163,720
AME Cyfalaf	968,961	82,405	1,051,366	110,045	1,161,411	115,891	1,277,302
Cyfanswm AME	820,575	84,487	905,062	126,760	1,031,822	81,760	1,113,582
Cyfanswm – Prif Grŵp Gwariant	2,729,366	536,727	3,436,100	78,585	3,646,445	64,331	3,792,536

¹ Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Addysg a'r Gymraeg ²								
---------------------------------	--	--	--	--	--	--	--	--

Adnodd

1.1.2 Ar gyfer adnodd, mae llinell sylfaen 2021-22 ar gyfer Cyllideb ddrafft 2022-23 yn adlewyrchu Cyllideb Derfynol 2021-22 gan ddileu cyllid fel yr amlinellir yn y tabl isod.

	£000
Cyllideb Adnoddau Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg – Cyllideb Derfynol 2021-22	1,647,040
Addasiadau i'r Llinell Sylfaen:	
Linell Wariant yn y Gyllideb Grant Gwella Ysgolion - dileu cyllid COVID-19 ar gyfer y Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS)	-12,029
Linell Wariant yn y Gyllideb Dysgu Troseddwyd - cynnydd i adlewyrchu trosglwyddiad rheolaidd cyllid o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i HMP Berwyn	4,000
Linell Sylfaen 2021-22 Adnoddau Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg – Cyllideb Ddrafft 2022-23	1,639,011

1.1.3 Mae cyllideb Adnoddau Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg wedi cynyddu £536.7m yn 2022-23 (cynnydd arian parod o 33%) o gymharu â llinell sylfaen 2021-22, gyda chynnydd pellach o £78.6m yn 2023-24 a £64.3m yn 2024-25. Crynhoir y newidiadau, a ddadansoddir yn ôl refeniw (cyllidol) a heb fod yn arian parod (anghyllidol) fesul blwyddyn, isod:

Addysg a'r Gymraeg: Cyllideb Adnoddau	£000oedd									
	Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2021-22	Newidiad au 2022-23	Cyllideb Ddrafft 2022-23	% newid Llinell Sylfaen 2021-22	Newidiad au 2023-24	Cyllideb Ddrafft 2023-24	% newid Llinell Sylfaen 2022-23	Newidiad au 2024-25	Cyllideb Ddrafft 2024-25	% newid Llinell Sylfaen 2023-24
Refeniw (Cyllidol)	1,527,843	188,000	1,715,843	12.30%	50,000	1,765,843	2.91%	38,000	1,803,843	2.15%
Heb Fod yn Arian Parod (Anghyllidol)	111,168	348,727	459,895	313.69%	28,585	488,480	6.22%	26,331	514,811	5.39%
Cyfanswm Adnoddau	1,639,011	536,727	2,175,738	32.75%	78,585	2,254,323	3.61%	64,331	2,318,654	2.85%

1.1.4 Crynhoir cyfanswm y dyraniadau adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y tablau isod:

Addysg a'r Gymraeg: Dyraniadau'r Gyllideb Adnoddau	Llinell Wariant yn y Gyllideb	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000
Prydau Ysgol am Ddim	Bwyd a Maeth mewn Ysgolion	40,000	70,000	90,000
Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Cymraeg mewn Addysg	1,500	4,500	8,000
Grant Datblygu Disgyblion (GDD)	Grant Datblygu Disgyblion	20,000	20,000	20,000
Adfer a Diwygio Addysg	Dadansoddiad yn y Tabl Isod	62,000	62,500	64,500

² Prif Grŵp Gwariant

Ysgolion yn yr Unfed Ganrif ar Hugain	Seilwaith Addysg	500	7,000	12,000
Iechyd meddwl Pobl Ifanc	Dadansoddiad yn y Tabl Isod	5,500	8,500	10,500
Rhaglen ILE	Rhaglen ILE	6,500	6,500	6,500
Cyfrifon Dysgu Personol (PLA)	Darpariaeth Ôl-16	500	500	1,000
Cyllid Ôl-16	Darpariaeth Ôl-16	51,500	58,500	63,500
Cyfanswm dyraniadau refeiwi o Gronfeydd wrth Gefn		188,000	238,000	276,000
Cynnydd o Flwyddyn i Flwyddyn - Refeniw		188,000	50,000	38,000
CCAUC - Heb Fod yn Arian Parod	Gwariant Rhaglen CCAUC	10	10	10
Benthyciadau Myfyrwyr - Heb Fod yn Arian Parod	Darpariaeth Gyllidebol Benthyciadau Myfyrwyr	348,713	377,298	403,629
Comisiynydd y Gymraeg - Heb Fod yn Arian Parod	Comisiynydd y Gymraeg	4	4	4
Cyfanswm dyraniadau Heb Fod yn Arian Parod o Gronfeydd wrth Gefn		348,727	377,312	403,643
Cynnydd o Flwyddyn i Flwyddyn - Heb Fod yn Arian Parod		348,727	28,585	26,331

Dadansoddiad o ddyraniad Adfer a Diwygio Addysg

Addysg a'r Gymraeg: Dyraniadau'r Gyllideb Adnoddau	Llinell Wariant yn y Gyllideb	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000
Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS)	Grant Gwella Ysgolion	37,500	32,000	23,000
Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Anghenion Dysgu Ychwanegol	7,000	7,000	7,000
Cwricwlwm i Gymru - Cefnogi llesiant a chynnydd dysgwyr	Diwygio'r Cwricwlwm	5,330	5,000	1,660
Cynigion Bwrdd Gwaith Ieuenctid	Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid	2,000	4,500	4,920
Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol (GCC)	Cwricwlwm ac Asesu	3,000	3,000	3,000
Rhoi cynllun 10 mlynedd ar waith i gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg	Datblygu a Chefnogi Athrawon	1,000	1,500	3,500
Estyn	Cefnogi Safonau Ysgolion	1,600	2,900	4,000
Yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol	Y Gymraeg	1,500	1,500	1,500
Diwrnod Ysgol ac Ysgolion Cymunedol	Ysgolion Cymunedol (newydd)	3,070	5,100	15,920
Cyfanswm y trosglwyddiadau o Gronfeydd wrth Gefn		62,000	62,500	64,500
Cynnydd o Flwyddyn i Flwyddyn		62,000	500	2,000

Dadansoddiad o ddyraniad Iechyd Meddwl

Addysg a'r Gymraeg: Dyraniadau'r Gyllideb Adnoddau	Llinell Wariant yn y Gyllideb	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000
Cytundeb Cydweithio Plaid	Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant	1,000	2,000	3,000
Cwmsela ychwanegol	Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant	2,000	3,000	4,000
Cyflwyno gwasanaeth CAMHS mewngymorth mewn ysgolion	Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant	200	400	600

R&R: Cyllid iechyd meddwl ôl-16	Darpariaeth Ôl-16	2,300	3,100	2,900
Cyfanswm y trosglwyddiadau o Gronfeydd wrth Gefn		5,500	8,500	10,500
Cynnydd o Flwyddyn i Flwyddyn		5,500	3,000	2,000

Cyfalaf

1.1.5 Ar gyfer cyfalaf, mae Cyllideb Derfynol 2021-22 yn cynrychioli ffigur llinell sylfaen Cyllideb ddrafft 2022-23, yn amodol ar ddileu Cyfalaf Trafodion Ariannol (TA), fel y crynhoir isod. Penderfynwyd peidio ag adlewyrchu Cyfalaf TA yn y Gyllideb Ddrafft, ac yn hytrach caiff dyraniadau ac ad-daliadau eu hadlewyrchu yng Nghyllideb Derfynol 2022-23, i'w chyhoeddi ar 1 Mawrth 2022.

	£000
Cyllideb Gyfalaf Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg – Cyllideb Derfynol 2021-22	271,748
Addasiadau i'r Llinell Sylfaen:	
Llinell Wariant yn y Gyllideb Seilwaith Addysg - dileu cyllid cyfalaf Trafodion Ariannol	-1,968
Llinell Sylfaen 2021-22 Cyfalaf Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg – Cyllideb Ddrafft 2022-23	269,780

1.1.6 Mae cyllideb gyfalaf Addysg a'r Gymraeg yn £355.3m ar gyfer 2022-23, sef cynnydd o £85.5m o gymharu â llinell sylfaen 2021-22. Crynhoir y newidiadau, sy'n ymwneud â dyraniadau i ac o Gronfeydd Wrth Gefn Llywodraeth Cymru, yn y tablau isod:

	Llinell Wariant yn y Gyllideb	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £0000
Dyraniadau Cyfalaf yn ôl maes buddsoddi:				
Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif tan 31/12/2021)	Seilwaith Addysg	300,000	300,000	300,000
Dechrau'n Deg a Chynnig Gofal Plant	Seilwaith Addysg	20,000	25,000	25,000
Rhaglen Gyfalaf Cyfrwng Cymraeg	Seilwaith Addysg	15,000	15,000	15,000
Cymorth Cyfalaf AU	Dadansoddiad yn y Tabl Isod	20,000	20,000	20,000
Cyrff Hyd Braich:				
Cymwysterau Cymru	Cymwysterau Cymru	250	250	250
Comisiynydd y Gymraeg	Comisiynydd y Gymraeg	50	50	50
CYFANSWM DYRANIAD PRIF GRŴP GWARIANT		355,300	360,300	360,300

Dadansoddiad Cymorth Cyfalaf AU

Cyfalaf AU	Llinell Wariant yn y Gyllideb	£0
Gweinyddu CBM	Costau Gweinyddol CBM/CThEM	2,500
CCAUC	Cyfalaf CCAUC	100

HERC	Seilwaith Addysg	3,480
Rhesymoli Ystad AU	Seilwaith Addysg	13,920
CYFANSWM		20,000

Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

1.1.7 Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn gysylltiedig â benthyciadau myfyrwyr a arweinir gan alw ac sy'n sensitif i gyfraddau llog a ffactorau macroeconomaidd eraill ac felly mae'n anodd ei rhagamcanu. Cytunir ar y gyllideb hon â'r Trysorlys bob blwyddyn ac fe'i hariennir yn llawn. Mae ffigurau Cyllideb ddrafft AME yn adlewyrchu'r rhagamcanion a gyflwynwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Awst 2021.

1.2 Sylwadau ar Gamau Gweithredu a Manylion Dyraniadau Llinell Wariant yn y Gyllideb

1.2.1 Ceir dadansoddiad o'r newidiadau i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn ôl Llinell Wariant ar gyfer 2022-23 yn y Gyllideb yn **Atodiad A**. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion dyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf ac Ail Gyllideb Atodol 2021-22, alldro rhagamcanol 2021-22 ac alldro terfynol 2020-21 fel y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor. Hefyd ceir sylwadau yn egluro'r newidiadau i bob Cam Gweithredu yn y Prif Grŵp Gwariant yn **Atodiad B**. Darparwyd esboniad naratif tryloyw er mwyn egluro cynnydd a gostyngiadau, lle na chwmpesir hynny yn y papur tystiolaeth, a chadarnhad o ble y mae'r trosglwyddiadau wedi'u dyrannu iddo/ohono.

1.2.2 Ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, defnyddiwyd Cyllideb Derfynol 2021-22, yn hytrach na Chyllideb Atodol Gyntaf 2021-22, fel y gyllideb llinell sylfaen at ddibenion cymharu, gyda chyfres o fân addasiadau (a gwmpesir o dan baragraff 1.1.2 ar gyfer referniw ac 1.1.5 ar gyfer cyfalaf).

1.3 Blaenoriaethau Addysg a Blaenoriaethau Strategol Eraill

1.3.1 Mae ein Rhaglen Lywodraethu uchelgeisiol yn amlinellu ein hymrwymiad parhaus i weithredu ein rhaglen diwygio addysg hirdymor, a sicrhau bod anghyfartaleddau addysgol yn lleihau a bod safonau yn codi. Mae ein rhaglen lywodraethu yn cydnabod effaith y pandemig - ni allwn adael i'r pandemig waethygu effaith tlodi ar ddeilliannau addysg. Yn anad dim, ein cenhadaeth genedlaethol yw mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a phennu safonau uchel i bawb fel y gallwn gefnogi pob dysgwr.

1.3.2 Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cefnogi blaenoriaethau a meysydd gwaith allweddol o dan y rhaglen lywodraethu yn cynnwys y canlynol:

- Ein diwygiadau addysg gyda'r Cwricwlwm i Gymru wrth wraidd hynny fel ymdrech genedlaethol a rennir. Er mwyn cefnogi pob dysgwr i gyrraedd ei botensial, byddwn hefyd yn rhoi ein Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith.

- Adfer ar ôl COVID-19 - mae'r gyllideb ddrafft yn amlinellu'r cyllid rydym yn ei roi tuag at adfer ar ôl COVID-19 drwy ein cynllun Adnewyddu a Diwygio a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021. Er ei bod hi'n glir bod y pandemig wedi cael cryn effaith ar ein hysgolion a lleoliadau ac ar ein dysgwyr a chymunedau, rhaid inni sicrhau yr adeiledir ar y pwyslais a roddwyd ar lesiant, hyblygrwydd a digidol yn y system addysg dros y flwyddyn ddiwethaf, a bod cysylltiad agos rhwng hynny a'n cwricwlwm newydd cyffrous.
- Cefnogi pob dysgwr – gweithio gyda phlant a phobl ifanc, ein gweithlu addysg, rhieni a gwarcheidwaid a chymunedau ysgol er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau i bob dysgwr, gan gau'r bwlch cyrhaeddiad ymhellach a chodi dyheadau pob dysgwr i gyflawni ei botensial.
- Y Gymraeg – cryfhau ein darpariaeth addysg Gymraeg i gefnogi ein huchelgeisiau i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg a all fwynhau defnyddio'r Gymraeg bob dydd a chefnogi cymunedau ffyniannus ledled Cymru lle mae ein hiaith unigryw yn eiddo i bawb yng Nghymru. Mae'r iaith yn perthyn i bob un ohonom, ni waeth beth fo'n gallu, ac rydym am annog pawb i'w defnyddio bob dydd, faint bynnag sydd ganddynt.

1.3.3 Mae'r Gyllideb hon yn adlewyrchu nifer o ddyraniadau i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiaidau yn y Rhaglen Lywodraethu, yn cynnwys y canlynol:

- £37.5m yn 2022-23, £32m yn 2023-24 a £23m yn 2024-25 i gefnogi parhad ein cyllid Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau hyd at 1,800 o staff ychwanegol mewn ysgolion;
- Cynnydd o £20m i'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD) o 2022-23 er mwyn cefnogi ein dysgwyr mwyaf bregus yn economaidd, yn cynnwys cyllid i barhau â Mynediad GDD (gweler adran 2.3);
- £7m ychwanegol y flwyddyn o 2022-23 i gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol (gweler adran 2.8);
- £6.5m o 2022-23 i gefnogi ein rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu (gweler adran 1.5);
- £3m yn 2022-23, gyda'r cyllid yn cynyddu yn y blynyddoedd wedyn i gefnogi'r gwaith o ddiwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol, ynghyd ag ysgolion cymunedol;
- £3m ychwanegol o 2022-23 i sefydlu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, gan greu cyfanswm cyllid o £4.5m y flwyddyn;
- £2m ychwanegol yn 2022-23, yn cynyddu i £4.9m erbyn 2024-25, i ddatblygu a chyflwyno cynigion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim ar gyfer Cymru (gweler adran 2.15);
- cyllid ychwanegol o £2m yn 2022-23, yn cynyddu i £4m erbyn 2024-25, i ddarparu gwasanaethau cwnsela ychwanegol (gweler adran 2.6);
- £2.2m y flwyddyn o 2022-23 (a nodwyd o gyllid wedi'i ailbwrpasu o fewn y Prif Grŵp Gwariant) i ehangu ein rhaglen drochi i hwyrddyfodiaid cyfrwng Cymraeg (gweler adran 2.13);

- £1.5m yn 2022-23, gyda chyllid pellach yn 2023-24 a 2024-25, i wneud diwygiadau ôl-16, yn cynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (gweler adran 1.5);
- £1m yn 2022-23 ac £1m yn 2023-24 i adolygu addysgu oedolion wrth baratoi ar gyfer dyletswydd cyllido uwch a £18m ychwanegol yn 2024-25 (mae hyn yn rhan o'r cynnydd ôl-16 o dros £50m sydd hefyd yn cwmpasu cynnydd mewn demograffeg ac adnewyddu a diwygio);
- Cyfalaf cyffredinol o £300m y flwyddyn o 2022-23 i drawsnewid amgylcheddau dysgu drwy ein Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu o 1 Ionawr 2022), yn cynnwys creu ysgolion carbon sero net.

1.3.4 Mae hefyd yn adlewyrchu buddsoddiad ychwanegol i gefnogi Cytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru â Phlaid Cymru a gyhoeddwyd ar 22 Tachwedd, yn cynnwys y canlynol:

- £40m yn 2022-23, £70m yn 2023-24, yn cynyddu i £90m erbyn 2024-25 i gefnogi'r ymrwymiad i ehangu prydau ysgol am ddim i bob disgybl cynradd;
- £1.5m yn 2022-23 a hyd at £8m erbyn 2024-25 i sicrhau bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gallu cynyddu cyfran y prentisiaethau a chyfleoedd addysg bellach sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a darparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 oed;

1.3.5 Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y gyllideb ddrafft, cynhaliwyd nifer o drafodaethau â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch y lefel angenrheidiol o adnoddau i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol, yn cynnwys cyllid craidd ysgolion drwy'r setliad Llywodraeth Leol (gweler adran 2.1). O ran effeithiau trawsbynciol ein cynlluniau gwariant, mae cyllid i gefnogi llesiant corfforol, emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Yn y Gyllideb hon, rydym yn cynyddu ein buddsoddiad mewn cefnogi iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg £5.5m ychwanegol yn 2022-23 gan gynyddu i £10.5m erbyn 2024-25. Ynghyd â'r cyllid ychwanegol a ddyrennir i'r portffolio lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'n golygu bod cyllid iechyd meddwl ychwanegol yn y Gyllideb hon yn £100m erbyn 2024-25.

1.3.6 Byddwn yn gweithio ar draws y llywodraeth i gyflawni nifer o ymrwymadau trawsbynciol yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â'r Gymraeg, trechu anghydraddoldebau a sicrhau tegwch, a mynd i'r afael ag effaith newid yn yr hinsawdd drwy newidiadau y gallwn eu gwneud i'n hystad addysg yn cynnwys newidiadau ynghylch carbon sero net.

1.3.7 Mae gwerth am arian ac eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau, yn enwedig wrth i ni fynd ati i adfer ar ôl y pandemig. Unwaith y bydd gwariant wedi'i gynllunio yn unol â blaenoriaethau, mae gennym brosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd. Mae'r gweithdrefnau llywodraethu a monitro sydd ar waith yn adlewyrchu natur ein cydberthnasau â phartneriaid cyflawni. Mae'r cynigion

cyllidebol hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol cymaint â phosibl.

1.4 Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

Asesiadau Effaith

- 1.4.1 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cynnal asesiadau effaith integredig, sy'n cynnwys ystyried hawliau plant, gan adlewyrchu eu nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, yn ogystal ag ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n parhau i fod yn sbardun pwysig sy'n llywio ein hystyriaethau o ran y Gyllideb. Rydym wedi parhau i gynnwys pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein dull gweithredu ac yn y prosesau sy'n ei ategu.
- 1.4.2 Credwn fod dull integredig yn ein galluogi i ddeall yn gliriach effaith gyffredinol penderfyniadau ar blant a phobl ifanc. O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym wedi rhoi ystyriaeth gytbwys a sylw dyledus i'r hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).
- 1.4.3 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant penodol ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg fel rhan o gyllideb ddrafft. Caiff asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, eu cynnal fel rhan o'n prosesau parhaus ar gyfer datblygu ac adolygu polisïau. Bydd yr asesiadau hyn yn parhau i gael eu defnyddio i lywio penderfyniadau cyllidebol a'r trefniadau ehangach ar gyfer asesu effaith y gyllideb. Mae'r dull gweithredu hwn, yng nghyd-destun dyraniadau cyllidebol, yn sicrhau y caiff tystiolaeth a dealltwriaeth o effeithiau eu hystyried o'r cychwyn cyntaf a thrwy gydol ein gwaith o baratoi'r gyllideb.
- 1.4.4 Mae ein Cyllideb Ddrafft, a gyhoeddwyd ar 20 Rhagfyr 2020, yn nodi effeithiau ein penderfyniadau gwario fel rhan o'r prif naratifau ym mhenodau pedwar a chwech, gan gynnwys nodi penderfyniadau gwario sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Ategir hyn gan yr Asesiad Effaith Integredig Strategol, sy'n amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwario, gan gynnwys effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc. Mae'r Asesiad Effaith hwn hefyd yn cynnwys astudiaethau achos manylach ar effeithiau penderfyniadau gwario penodol, gan gynnwys Prydau Ysgol am Ddim.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 1.4.5 Yn y cyd-destun digynsail hwn rydym yn parhau i gael ein llywio gan y pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn gwella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau. Rydym yn cydnabod

yr angen i gydweithio â'n partneriaid a defnyddio adnoddau ein gilydd yn effeithiol i gynllunio ar gyfer y dewisiadau anodd i ddod.

- 1.4.6 Rydym yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac arbenigwyr amrywiol i asesu'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Wrth wraidd *Cenhadaeth ein Cenedl* mae llesiant cenedlaethau'r dyfodol; a gwelwn gyflwyno cwricwlwm newydd sy'n eang, yn gytbwys, yn gynhwysol ac yn heriol. Hefyd rydym yn cydnabod na fydd diwygio'r cwricwlwm ar ei ben ei hun yn sicrhau newid cynaliadwy. Mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei gynllunio fel ei fod yn cyfrannu at bob un o'r nodau llesiant cymaint â phosibl.

1.5 Costau Deddfwriaeth

Manylion unrhyw ddyraniadau yng nghyllideb 2022-23 a fwriedir i weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a diwygiadau cysylltiedig i gymwysterau

- 1.5.1 Rhaid parhau i fuddsoddi yn y gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau. Rydym yn cynnal lefelau cyllido 2021-22 yn y maes hwn (a oedd yn cynnwys £8.3m ychwanegol dros ddarpariaeth 2020-21) i ddarparu cefnogaeth barhaus i'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn effeithiol o fis Medi 2022. Er bod y diweddariad hwn o reidrydd yn canolbwyntio ar agweddau ariannol, mae diwygio'r cwricwlwm a gweithredu'r Ddeddf yn golygu dull mwy amlhaenog o'i gyflwyno. Er enghraifft, y gwaith a wnaed i lacio'r gofynion diangen ar ysgolion a lleoliadau yn ystod y pandemig fel ffyrdd anariannol o greu lle i ddiwygio. Hefyd, rydym yn cydnabod y ffocws ar lesiant fel rhagflaenydd dysgu o ansawdd uchel. Mae'r pwyslais rydym yn ei roi ar gynnydd dysgwyr yn y rhaglen *Adnewyddu a Diwygio* hefyd yn cynnig camau sylweddol ymlaen tuag at ddiwygio'r cwricwlwm mewn ysgolion a lleoliadau. Dyna pam y caiff cyllid Adnewyddu a Diwygio ychwanegol (darparwyd £6m yn 2021-22) ar gyfer cynnydd dysgwyr ei ehangu i gwmpasu'r tair blwyddyn academaidd o gymorth i ysgolion, lleoliadau a dysgwyr (£5.33m yn 2022-23, £5m yn 2023-24 ac £1.66m yn 2024-25 i Linell Wariant yn y Gyllideb Diwygio'r Cwricwlwm).
- 1.5.2 Gwnaeth yr *Asesiad Effaith Rheoleiddiol* a ddiweddarwyd ar gyfer y Ddeddf a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021 dynnu sylw at natur gymhleth dadansoddi costau ar gyfer y diwygiadau hyn. Rydym wedi bod yn glir ynghylch ein huchelgais i leddfu'r baich ar ysgolion a lleoliadau lle bo modd, fel y gallant ganolbwyntio'n well ar ddiwallu anghenion eu dysgwyr, ac o fewn hynny wneud y gwaith paratoi sydd ei angen i gyflawni diwygiadau hanfodol. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 mae'r gefnogaeth i gyflwyno'r cwricwlwm oddeutu £34.85m, sy'n cwmpasu costau canolog (adnoddau a deunyddiau ategol, ymchwil a gwerthuso, cyfathrebu, Rhwydwaith Cenedlaethol ac ati), costau uniongyrchol ysgolion a lleoliadau, gwaith ar gynnydd a llesiant, Dysgu Proffesiynol a datblygu cymwysterau newydd. Mae amcangyfrifon yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer gweithgareddau tebyg rhwng £23.75m a £36.53m. Mae'r ddarpariaeth yn ein cyllideb ar gyfer 2022-23 oddeutu £35m

gan adlewyrchu'r flaenoriaeth rydym yn ei rhoi i gefnogi ysgolion a lleoliadau wrth iddynt roi'r diwygiadau hyn ar waith.

1.5.3 Rydym yn parhau i gadw llygad agos ar ofynion cyllido a chymorth ysgolion a lleoliadau drwy ein gwaith Gwerthuso a Monitro (gweler adran 2.5), trafodaethau rheolaidd â rhanddeiliaid haen ganol a thrwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm. Ar y Rhwydwaith Cenedlaethol, ac yntau yn ei flwyddyn gyntaf, mae wedi cynnal tair 'sgwrs' ar wahân ar agweddau allweddol ar ei gyflwyno, gan gynnig 60 o sesiynau ymgysylltu wedi'u hwyluso gan ymarferwyr, i ymarferwyr. Cafwyd cryn ddiddordeb yn y sesiynau hyn, ynghyd ag adborth cychwynnol cadarnhaol iawn. Mae dadansoddi allbynnau o sgysiau Rhwydwaith Cenedlaethol yn un o nodweddion y dull hwn, a chaiff adroddiadau eu cyhoeddi fel rhan o'r broses gefnogol barhaus honno wrth symud ymlaen.

1.5.4 Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu adnoddau a deunyddiau ategol ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru. Gwnaeth sgwrs Rhwydwaith Cenedlaethol yn nhymor yr hydref hefyd ganolbwyntio ar anghenion yn y maes hwn. Rydym yn blaenoriaethu datblygiadau yn gysylltiedig â newidiadau nodedig i ofynion cwricwlaidd a blaenoriaethau y cytunwyd arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau dwyieithog newydd yn cwmpasu agweddau ar gynllunio a datblygu'r cwricwlwm ac asesu, yn ogystal â'r rhai yn cwmpasu meysydd cwricwlaidd, yn cynnwys:

- Darllen
- Mathemateg a rhifedd
- Ieithoedd rhyngwladol
- Iaith Arwyddion Prydain
- Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith
- Llythrennedd yn y cyfryngau a chamwybodaeth
- Gwleidyddiaeth
- Hawliau plant
- Hanes Cymru, gan gynnwys hanes a chyfraniadau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Cerddoriaeth
- Dawns

1.5.5 Rydym hefyd wedi llunio amrywiaeth o fodiwlau yn arbennig i gefnogi dysgu cynnar, ond a all gefnogi dysgwyr o unrhyw oedran. Mae'r modiwlau hyn wedi cael eu llunio ar y cyd â rhanddeiliaid o'r sectorau addysg gynnar a gofal plant ac maent yn cynnwys:

- Dysgu yn yr awyr agored
- Datblygiad plant
- Cyfnodau pontio
- Arsylwi
- Chwarae a dysgu'n seiliedig ar chwarae
- Dysgu dilys a phwrpasol

Rydym yn ystyried pa gymorth ychwanegol sydd ei angen er mwyn sicrhau bod y modiwlau hyfforddiant hyn yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl i gefnogi dysgu.

- 1.5.6 Mae ein buddsoddiad parhaus ac arloesol mewn Dysgu Proffesiynol yn dal i fod yn hanfodol i gefnogi ysgolion a lleoliadau i ddiwygio'r cwricwlwm, a dyna pam rydym wedi blaenoriaethu'r buddsoddiad parhaus hwnnw dros dair blynedd ein cyllideb ddrafft. Ceir manylion y ddarpariaeth yn y maes allweddol hwn yn adran 2.4.
- 1.5.7 O ran datblygu cymwysterau newydd sy'n adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru, cafodd costau disgwylidig y rheini eu cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (para 8.213). Hyd yma, ni fu unrhyw newid i'r rhagamcanion cost hynny ac rydym wedi darparu ar gyfer y blaen gyllid hwn yn ein Cyllideb ddrafft. Eleni, mae Cymwysterau Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar ddyluniad TGAU diwygiedig a chymwysterau eraill sydd wedi'u llunio i Gymru. Fel rhan o'r gwaith hwnnw mae'n cynnal amrywiaeth o asesiadau effaith i lywio cynigion ar gyfer cynnwys ac asesiad cymwysterau newydd. Mae hyn yn cynnwys asesiadau integredig o'r effeithiau posibl ar ddysgwyr, ysgolion a cholegau, ac yn arbennig gyrrff dyfarnu, yn cynnwys CBAC. Ceir enghraifft o'r dull integredig hwn yn ei [adroddiad penderfyniadau Cymwys ar gyfer y dyfodol](#) a gyhoeddwyd ym mis Hydref, sy'n cynnwys crynodeb asesu effaith lefel uchel.
- 1.5.8 Gwneir gwaith dadansoddi effaith manylach (ac adroddir arno) fel rhan o gam nesaf gwaith Cymwysterau Cymru wrth iddo fynd ati i gyd-lunio'r trefniadau cynnwys ac asesu ar gyfer cymwysterau newydd i Gymru ym mhob maes dysgu a phrofiad. Bydd y broses honno yn cynnwys mewnbwn gan ysgolion, arbenigwyr a chyrrff dyfarnu. Eir ati i edrych ar effeithiau posibl newidiadau yn gyffredinol, yn ogystal ag ar lefel cymwysterau unigol, ac asesir a fydd cynnwys ac asesiad newydd yn arwain at newidiadau i'r ffioedd cymwysterau a godir gan gyrrff dyfarnu. Gall aelodau ddisgwyl gweld canlyniad y gwaith dadansoddi pellach hwn ddiwedd 2023 pan fydd Cymwysterau Cymru yn ceisio adborth ar gynllun arfaethedig cymwysterau newydd. Ar y cam hwnnw, bydd Cymwysterau Cymru yn adolygu amseriad a chostau cyffredinol diwygiadau i gymwysterau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm.
- 1.5.9 Yn ogystal â diwygio cyfres newydd o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig sydd ar gyfer Cymru, mae Cymwysterau Cymru hefyd yn casglu barn i lywio adolygiad o'r cynnig cymwysterau ehangach i ddysgwyr 14-16 oed. Nid yw'n hysbys eto a fyddai unrhyw newidiadau a gynigir o ganlyniad i'r gwaith hwn yn debygol o arwain at gostau ychwanegol i'r rhai sydd eisoes wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (para 8.213). Yn seiliedig ar ganfyddiadau ei adolygiad, bydd Cymwysterau Cymru yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i gynnig cymwysterau ehangach 14-16 oed ddiwedd 2023. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, bydd yn ceisio barn am ei asesiad o effaith bosibl unrhyw newidiadau arfaethedig, gan gynnwys eu cost debygol.

Manylion unrhyw ddyraniadau yng nghyllideb 2022-23 a fwriedir i weithredu diwygiadau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, yn cynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil

1.5.10 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cyllid a ddyrennir yn y Gyllideb hon i gefnogi diwygiadau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, yn cynnwys y costau trosiannol a rheolaidd i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER).

Maes	2022-23 £000	2023-24 £000	2024-25 £000
Costau sefydlu ar gyfer creu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER)	1,500	7,000	6,000
Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu ³	6,500	6,500	6,500

1.5.11 Bwriedir i'r Comisiwn gael ei sefydlu yn 2023, ac fe'i rhoddir ar waith yn 2024 a 2025. Bydd costau'n cynyddu o 2023-24 ymlaen oherwydd dyma pryd yr eir i gostau rheolaidd ochr yn ochr â chostau trosiannol.

1.5.12 Yn y Gyllideb hon, rydym yn dyrannu £6.5m y flwyddyn fel rhan o'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i roi rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol gwerth £65m ar waith. Mae'r rhaglen 5 mlynedd £65m hon a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu yn sicrhau, wrth inni oresgyn y pandemig, fod yr holl gyfleoedd y byddai pobl ifanc wedi'u cael o'r blaen ar gael eto. Fodd bynnag bydd yn mynd ymhellach, gan ddarparu mwy o gyfleoedd, a chynnig manteision newydd i'n darparwyr addysg.

1.5.13 Bydd y rhaglen yn cefnogi symudedd rhyngwladol ar draws pob lleoliad addysgol ledled Cymru, yn cynnwys Gwaith Ieuenctid, ac mae'n cynnwys cymorth i ddysgwyr a staff ar bob lefel.

- Mae'n anfon neges glir: er gwaethaf heriau Ymadael â'r UE a COVID-19, bydd Cymru yn parhau i fod yn genedl groesawgar sy'n edrych tuag allan ac sy'n gwerthfawrogi cydweithio a phartneriaethau rhyngwladol.
- Rydym yn uchelgeisiol o ran faint all gael budd o'r cynllun newydd hwn. Mae'r posibiladau y mae'r Rhaglen hon yn eu cynnig yn eang. Fodd bynnag, disgwylwn y canlynol o leiaf:
 - 15,000 o gyfranogwyr mewn cynlluniau cyfnewid symudedd allan erbyn 31 Awst 2026
 - 10,000 o gyfranogwyr mewn cynlluniau symudedd tuag i mewn erbyn 31 Awst 2026
 - 50 o bartneriaethau newydd
 - 40 o wledydd ynghlwm wrth y Rhaglen i gyd

Diweddariad ar unrhyw gostau parhaus i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn sgil rhoi deddfwriaeth flaenorol ar waith o'r Pedwerydd a'r Pumed Senedd, ac unrhyw oblygiadau ariannol i gyllideb 2022-23

³ Mae diwygiadau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol yn ehangach na dim ond CTER felly mae Rhaglen ILE wedi'i chynnwys.

1.5.14 Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â deddfwriaeth a basiwyd yn y Pedwerydd Cynulliad ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys: Deddf Cymwysterau Cymru 2015; Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015; Deddf Addysg (Cymru) 2014; a Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014, gan fod yr holl ddarpariaethau yn y Deddfau wedi'u rhoi ar waith bellach.

1.5.15 Cwmpesir y costau sy'n gysylltiedig â rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2015 yn y Pumed Cynulliad ar wahân yn adran 1.5.

Darpariaeth Gyllidebol i roi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach ar waith.

1.5.16 Y costau sy'n gysylltiedig â Deddf 2018 a'r Rhaglen Gweithredu ADY ehangach yw cyfanswm y gyllideb uniongyrchol ar gyfer ADY o £6.936m yn 2022-23, a delir allan o Linell Wariant yn y Gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol (yn cynnwys trosglwyddo £4.4m o Linell Wariant yn y Gyllideb Codi Safonau Ysgolion sy'n cynrychioli'r cyllid yn y Linell Wariant yn y Gyllideb honno sy'n cefnogi ADY). Bydd y gyllideb yn ariannu cefnogaeth weithredol; datblygu'r gweithlu; codi ymwybyddiaeth; a chefnogi polisi.

1.5.17 Rydym wedi gwneud buddsoddiad sylweddol yn rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol i sicrhau bod y system addysg yn barod i roi Deddf 2018 ar waith. Nawr symudwn o drawsnewid i weithredu. Ceir rhagor o wybodaeth am gyllid ADY yn adran 2.8.

Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU

1.5.18 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddeddfwriaeth gan Senedd y DU sy'n effeithio ar Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg o 2022-23 ymlaen.

Goblygiadau Ariannol unrhyw is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2022-23

1.5.19 Mae'r gyllideb yn parhau i gyfrif am is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2022-23. Mae asesu costau rhoi deddfwriaeth ar waith a'r effaith ar y rhai sy'n destun deddfwriaeth yn rhan hanfodol o sicrhau bod egwyddorion "Cyfraith Dda" yn cael eu dilyn. Dyma pam mae rheoliadau drafft yn destun asesiad cadarn o gostau a buddiannau, a gyflawnir drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, wrth ddatblygu asesiadau effaith rheoleiddiol. Diben hyn yw sicrhau bod ein penderfyniadau yn cael eu llywio gan y bobl y byddant yn effeithio arnynt.

1.6 Effaith pandemig COVID-19

Effaith y pandemig ar Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn 2021-22 a 2022-23, yn cynnwys symudiadau i mewn ac allan o linellau'r gyllideb, y cyfraniad gros at ymateb cyllidebol COVID-19 Llywodraeth Cymru a derbyniadau cysylltiedig, ac effaith net hyn.

- 1.6.1 Mae toreth o dystiolaeth yn dod i'r amlwg ar effaith negyddol pandemig COVID-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf bydd angen inni barhau i fonitro, adolygu ac asesu dystiolaeth ac effeithiau'r pandemig.
- 1.6.2 Yn **Atodiad C** ceir crynodeb o effaith net COVID-19 ar Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn 2021-22, o ganlyniad i ddyraniadau o Gronfa wrth Gefn Ganolog COVID-19 (ar ddiwedd mis Tachwedd 2021). Mae hyn yn cadarnhau trosglwyddiadau yn 2021-22 sy'n gwneud cyfanswm o £169.4m (£151.9m adnoddau a £17.5m cyfalaf) o Gronfa Wrth Gefn COVID-19 i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn 2021-22. Yn wahanol i 2020-21, ni fu unrhyw gyfraniad at Gronfa Wrth Gefn COVID-19 gan Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn 2021-22.

Manylion a dadansoddiad o'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer ymateb y sector addysg i'r pandemig, a ddyfynnwyd fel £220m yn 2020-21 a £150m yn 2021-22, yn ogystal ag unrhyw ddyraniad yn 2022-23

- 1.6.3 Darparodd Llywodraeth Cymru dros £220m ym mlwyddyn ariannol 2020-21 i gefnogi ymateb y system addysg i COVID-19. Mae'r cynllun Adnewyddu a Diwygio, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, yn amlinellu ein hymrwymiad i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr mewn ymateb i bandemig COVID-19. Prif ffocws y rhaglen yw cefnogi system addysgol gadarn sydd wedi'i hadfywio ac yn canolbwyntio ar ddiwygio, sy'n rhoi lles ac iechyd corfforol a meddyliol dysgwyr wrth wraidd ei dull gweithredu. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun Adnewyddu a Diwygio wedi'i chefnogi gan £189m (cynnydd o'r £150m a ddyfynnwyd yn flaenorol) yn 2021-22, i gefnogi addysg. Disgwylir i'r £189m gynyddu wrth gytuno ar ddyraniadau pellach ar gyfer 2021-22.
- 1.6.4 Roedd cyllid 2020-2021 yn cynnwys y canlynol:
- £59.1m i gefnogi'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau;
 - £20.9m i ysgolion a cholegau ddarparu cymorth dysgu i Flynyddoedd 11, 12 a 13 sy'n symud ymlaen i ysgolion, AB, AU;
 - £11.9m ar gyfer technoleg addysgol mewn ysgolion;
 - £61.2m o gyllid ychwanegol i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol;
 - £36.5m i gefnogi dysgwyr i gwblhau cymwysterau galwedigaethol â'r flwyddyn academaidd bresennol;
 - £9.8m ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, mewn ymateb i bwysau yn deillio o bandemig COVID-19;
 - £2.5m i gefnogi'r problemau iechyd meddwl cynyddol mewn colegau AB a darparwyr DSW;
 - £8.1m i ddarparu cyfarpar dysgu digidol a chyfarpar cysylltedd i ddysgwyr AB a DSW;
 - £11.1m o gyllid cyfalaf i sicrhau bod cyfarpar digidol ar gael i ddysgwyr ar draws y rhwydweithiau AB a DSW; ac i alluogi sefydliadau AB i fuddsoddi mewn seilwaith TG.

- 1.6.5 Mae'r cyllid o £189m (hyd yn hyn) ar gyfer 2021-22 yn cynnwys:

- £35.9m i gefnogi'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau;
- £12m i ysgolion a cholegau ddarparu cymorth dysgu i Flynyddoedd 11, 12 a 13 sy'n symud ymlaen i ysgolion, AB, AU;
- £23m i ariannu amrywiaeth o weithgareddau yn y rhaglenni 'haf o hwyl' a 'gaeaf llawn lles';
- £7.7m i alluogi hyd at 1,400 o athrawon i gwblhau eu cymwysterau'n hyderus a symud i mewn i addysgu;
- £0.2m i ymestyn rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau;
- £15m ar gyfer technoleg addysgol mewn ysgolion;
- £33m i gefnogi dysgwyr ôl-16 sy'n dechrau cyrsiau newydd mewn ysgolion, y chweched dosbarth ac AB;
- £0.65m ar gyfer e-adnoddau i gefnogi dysgu cyfunol ac adolygu;
- £13m i gefnogi darpariaeth y Cyfnod Sylfaen a lleoliadau nas cynhelir;
- £23.8m o gyllid ychwanegol i ddarparu pryddau ysgol am ddim yn ystod gwyliau ysgol;
- £2m i gynyddu cynllun Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion (GDD);
- £4.85m i gefnogi rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf;
- £6.25m i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr mewn ysgolion, a datblygu cadernid ar gyfer achosion pellach o COVID-19 a chynllunio tymor hwy;
- £2.4m i gefnogi'r Gymraeg, yn cynnwys darpariaeth trochi hwyr a'r Eisteddfod Genedlaethol;
- £10m i gynyddu cyfleoedd PLA.

1.6.6 Mae'r dyraniadau ar gyfer 2022-23 wrthi'n cael eu llunio'n derfynol ond disgwylir iddynt gynnwys y cyllid canlynol:

- £37.5m i barhau â'r rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau;
- £5.33m i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr mewn ysgolion (gweler paragraff 1.5.1);
- £7m ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (gweler adran 2.8);
- £2m ar gyfer darpariaeth gwnsela ychwanegol (iechyd meddwl pobl ifanc);
- £3.5m ar gyfer presenoldeb i gefnogi ac annog dysgwyr sydd wedi ymddieithrio neu sydd mewn perygl o ymddieithrio.

Gwybodaeth am argaeledd Cronfa Caledi Llywodraeth Leol COVID-19 at ddibenion addysg

1.6.7 Mae'r gronfa caledi wedi bod ar gael drwy gydol 2020-2021 a 2021-2022 i gefnogi ystod eang o gostau ychwanegol a cholli incwm yn ymwneud â gwasanaethau addysg Awdurdodau Lleol. Mae'r gronfa wedi cael ei rheoli o dan set o egwyddorion sydd wedi eu diweddarau drwy gydol y pandemig i adlewyrchu'r rheolau a'r cyfyngiadau ar y pryd. Mae'r tabl isod yn dangos lefel y cyllid a ddarparwyd at ddibenion addysg (ar 13 Rhagfyr 2021).

	2020-21 £000	2021-22 £000
Costau ychwanegol	40,684	20,230
Colli incwm	43,868	6,089

Prydau ysgol am ddim	50,916	2,566 ⁴
Cyfanswm	135,468	28,885

- 1.6.8 Y prif feysydd o gymorth o ran addysg yw:
- Costau glanhau ychwanegol;
 - Cyflenwi staff sy'n hunanynysu neu sy'n gofalu am rywun sy'n ddibynol arnynt ac sy'n hunanynysu;
 - Costau staff ychwanegol i greu swigod;
 - Adnoddau ychwanegol i ddysgu gartref;
 - Prydau ysgol am ddim;
 - Colli incwm o arlwyo, gosodiadau, gwasanaethau cerddoriaeth.
- 1.6.9 Ni fwriedir darparu cronfa caledi ar hyn o bryd o 2022-23 ymlaen gan nad yw Llywodraeth y DU wedi darparu unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer COVID-19. Fe'i sefydlwyd fel cronfa fyrdymor i ymateb i'r pandemig. Drwy'r setliad llywodraeth leol ar gyfer 2022-23, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi darparu cyllid, gan gydnabod effaith barhaus y pandemig ar wasanaethau awdurdodau lleol y bydd angen iddynt eu rheoli'n briodol.

Manylion y dyraniadau yn 2021-22 a 2022-23 i sefydliadau addysg bellach gefnogi darpariaeth ar gyfer dysgwyr y bu oedi wrth gwblhau eu cyrsiau, a nifer y dysgwyr unigryw yr effeithiwyd arnynt.

- 1.6.10 Yn sgil yr oedi a achoswyd gan y pandemig, mae angen i rai dysgwyr gael mwy o gymorth i bontio'n llwyddiannus i gam nesaf dysgu amser llawn, i brentisiaethau, hyfforddiant, neu'n uniongyrchol i waith. Yn 2020/21, dyrannwyd £8.5m i golegau AB ac adrannau chweched dosbarth i ddarparu cymorth pontio dynodedig i'r rhai a oedd yn cymryd y camau nesaf ar eu llwybr addysgol. Mae pryder sylweddol ymhlith y grŵp hwn o ddysgwyr a bydd y Prosiect Adnewyddu a Diwygio Ôl-16 a Phontio yn archwilio ymhellach ffyrdd o wella'r cymorth a roddir i'r bobl ifanc hyn.
- 1.6.11 Mae gweithgareddau Adnewyddu a Diwygio wedi cael eu cynnwys yn y £50m a drosodd o gyllid ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu i ddarpariaeth ôl-16 gyda phenderfyniadau ynghylch y gweithgareddau y bydd yn eu hariannu yn cael eu hystyried o hyd ar y cyd â rhanddeiliaid.

1.7 Effaith Brexit

Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn sgil ymadael â'r UE

- 1.7.1 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw brosiectau Ewropeaidd o fewn Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg. Ar gyfer y cynllun llaeth mewn ysgolion, a weinyddir gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig ar ran Llywodraeth Cymru, daeth cymhorthdal

⁴ Bu oedi wrth brosesu ceisiadau 2021-22, felly unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo, bydd y cyllid yn cynyddu'n sylweddol

yr UE a oedd tua £0.4m i £0.5m y flwyddyn i ben ar 15 Hydref 2020. O ganlyniad bydd angen ariannu costau ychwanegol o'r gyllideb ar gyfer Ilaeth mewn ysgolion sef £3.2m y flwyddyn, sydd o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Bwyd a Maeth. Gan fod y gyllideb hon yn seiliedig ar alw, disgwyliwn i'r gyllideb hon fod yn ddigonol i ariannu'r cynllun o 2022-23, er nad oes cymhorthdal gan yr UE mwyach.

- 1.7.2 Rhoddir rhagor o fanylion am y Rhaglen ILE, a gyhoeddwyd yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i dynnu'n ôl o gynllun Erasmus+, yn adran 1.5.

Gwybodaeth am faint o gyllid yr UE y mae Prif Grŵp Gwariant Addysg 2021-22 wedi ei ddefnyddio a faint y disgwyli'r iddo ddibynnu arno yn 2022-23 ac at ba ddibenion

- 1.7.3 Fel y nodir uchod nid oes unrhyw brosiectau Ewropeaidd ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ac felly ni ddefnyddiwyd unrhyw gyllid yn 2021-22, ac ni ddisgwyli'r hynny chwaith yn 2022-23 ymlaen.

1.8 Monitro'r gyllideb

- 1.8.1 Mae'r holl gyllidebau yn dal i gael eu monitro a'u herio bob mis yn ystod 2021-22, er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf a symudiadau yn y gyllideb fel sydd angen. Mae hyn yn cynnwys monitro cyllid ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu o Gronfa Wrth Gefn COVID-19 y flwyddyn ariannol hon. Caf ddiweddariadau ariannol rheolaidd ar y rhagolygon ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant er mwyn sicrhau bod cyllidebau yn dal i fod ar y trywydd iawn i gyflawni fy mlaenoriaethau. Gwnawn waith monitro gofalus iawn er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei fuddsoddi lle mae ei angen orau wrth gefnogi ein blaenoriaethau – yn y man cywir, ar yr adeg gywir. Mae trefniadau a strwythurau llywodraethu yn dal i fod ar waith o ran pandemig COVID-19.
- 1.8.2 Cynllunnir nifer o drosglwyddiadau dros dro ar gyfer Ail Gyllideb Atodol 2021-22, a fydd yn effeithio ar Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg. Mae'r rhain yn creu cyfanswm cynnydd net i'r Prif Grŵp Gwariant o £170.4m (£94.4m adnoddau a £76m cyfalaf) ac fe'u crynhoir yn y tabl yn **Atodiad D** (gan adlewyrchu'r sefyllfa adeg ysgrifennu).

2. Meysydd penodol

Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol ar gais y Pwyllgor.

2.1 Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

Esboniad o'r ffordd mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23 (ym Mhrif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol a Phrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg) ac wedi cyfrif am adolygiad Sibieta o wariant ysgolion

- 2.1.1 Y brif ffynhonnell cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yw'r cyllid a roddir i awdurdodau lleol drwy'r Setliad Llywodraeth Leol, sy'n cynnwys Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig fel rhan o gyllid Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol. Mae darparu'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol, wedi bod yn ganolog i baratodau cyllidebol unwaith eto eleni.
- 2.1.2 Mae'r adolygiad o wariant ysgolion yng Nghymru yn darparu tystiolaeth werthfawr i lunwyr polisi i lywio penderfyniadau ynghylch cyllid a pholisi yn y dyfodol. Mae'r dystiolaeth hon wedi cael ei hystyried fel rhan o baratodau cyllidebol 2022-23. Nodwyd nifer o feysydd yn yr adroddiad lle dylid cyfeirio cyllid ychwanegol. Roedd cyllid amddifadedd yn faes allweddol, ac argymhellwyd y dylid cyflawni hyn drwy grantiau penodol megis Grant Datblygu Disgyblion (GDD) estynedig. Mae cyllid Llinell Wariant yn y Gyllideb GDD dros £110m, gan ystyried cynnydd mewn cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn ystod 2019. Yn y gyllideb hon, mae £20m arall wedi'i ddyrannu i gefnogi'r GDD.
- 2.1.3 Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr rhanbarthol GDD i nodi'r meysydd hynny lle gall cyllid gael yr effaith fwyaf, yn enwedig yng nghyd-destun argymhellion yr adroddiad ar yr Adolygiad o Wariant Ysgolion yng Nghymru; yn arbennig blaenoriaethu cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig, a gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau fformiwlâu cyllido ysgolion mwy cyson a thryloyw.
- 2.1.4 Yn y Gyllideb hon, ceir cynnydd i'r Grant Cynnal Refeniw (GCR) ar gyfer 2022-23 o £368m (10.2%), sy'n arwain at gynnydd cyffredinol yn y setliad ar sail tebyg am debyg o £437m (9.4%) i gefnogi gwasanaethau rheng flaen, yn cynnwys ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn adeiladu ar setliad sylweddol well yn y flwyddyn gyfredol.
- 2.1.5 Er mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am bennu cyllidebau ysgolion a bod hyn yn cyfrif am y rhan helaeth o'r cyllid a gaiff ysgolion, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cryn dipyn o gyllid grant ychwanegol o Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg i gefnogi gwell deilliannau i ddysgwyr yng Nghymru. Er enghraifft ac ymhellach at y cynnydd uchod yn y GDD, mae cynnydd o £7m i gefnogi ADY wedi'i ddyrannu hefyd yn y gyllideb ddrafft hon.

Diweddariad ar y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i adolygiad Sibieta

- 2.1.6 Mae pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau aruthrol ar wasanaethau cyhoeddus, yn ariannol ac yn weithredol. Gwnaeth blaenoriaethau Llywodraeth Cymru addasu i ymateb i natur frys y sefyllfa ac mae hyn wrth

gwrs wedi effeithio ar ein gallu i ddatblygu rhai o'r argymhellion yn yr amser a gynlluniwyd yn wreiddiol, ond mae cryn dipyn wedi mynd rhagddo o hyd ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod ein hysgolion yn cael y lefelau priodol o gyllid.

- 2.1.7 Gwnaeth yr Adolygiad o Wariant Ysgolion yn sicr dynnu sylw at natur gymhleth y system gyllido a bod angen gwneud gwaith i wneud y system hon nid yn unig yn fwy effeithlon ond hefyd yn fwy tryloyw. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar bob lefel i weithio drwy'r cymhlethdodau hyn.
- 2.1.8 Rydym wrthi'n datblygu rhaglen barhaus o ymchwil i effaith canlyniadau cyllido i gefnogi penderfyniadau polisi, ynghyd ag adolygiad o reoliadau cyllido i wella tryloywder a chysondeb data, a'r gallu i gymharu data.

2.2 Cyllid i wella ysgolion

Esboniad o'r ffordd mae Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn helpu i wella ysgolion a chodi safonau addysg

- 2.2.1 Mae cyllidebau ar draws Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cefnogi'r gwaith o wella ysgolion a chodi safonau ysgolion; mae codi safonau ysgolion yn amcan sylfaenol o ran diwygio addysg. Mae gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir drwy awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol hefyd yn cael eu hariannu'n uniongyrchol drwy'r Grant Cynnal Refeniw.
- 2.2.2 Gwnaethom gyflawni ein hymrwymiad o'r Pumed Senedd i ddarparu £100m ychwanegol i godi safonau ysgolion. Dyrannwyd £25.5m pellach o Llinell Wariant yn y Gyllideb Codi Safonau Ysgolion yn 2021-22 i gynnal yr ymrwymiad i godi safonau ysgolion. Yn y Gyllideb hon, mae cyllid o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Codi Safonau Ysgolion bellach yn cael ei brif ffrydio i mewn i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o fewn y Prif Grŵp Gwariant y mae'r cyllid yn ei gefnogi, fel y crynhoir isod.

Gweithgaredd	Llinell Wariant yn y Gyllideb	£000
Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol	Datblygu a Chefnogi Athrawon	14,740
Anghenion Dysgu Ychwanegol	ADY	4,400
Cwricwlwm (Ymddiriedolaeth Lyfrau, sgiliau codio a digidol, Cynllun Llafaredd Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cynradd)	Llythrennedd a Rhifedd	800
Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen	Cwricwlwm ac Asesu	60
Grant Ailwrpasu Maint Dosbarthiadau – cefnogi presenoldeb	Trechu Dadrithiad	3,000
Grant Ailwrpasu Ysgolion Bach a Gwledig – e-sgol a darpariaeth drochi	Cymraeg mewn Addysg	2,500
Cyfanswm		25,500

Manylion dyraniadau Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol yn 2021-22 a blynyddoedd blaenorol, yn ogystal ag unrhyw ddyraniadau dangosol sydd ar

gael ar gyfer 2022-23, wedi'u dadansoddi yn ôl consortiwm ac 'amcan' (neu bennawd arall, pa un bynnag sy'n gymwys)

- 2.2.3 Mae'r tabl yn **Atodiad E** yn darparu dadansoddiad o'r Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol ar gyfer 2021-22 a'r ddwy flynedd flaenorol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm y cyllid yn ôl consortiwm neu awdurdod lleol. Nid oes dadansoddiad dangosol ar gyfer 2022-23 ar gael ar y cam hwn.
- 2.2.4 Yn ystod 2021-22, mae awdurdodau lleol yn y de-orllewin a'r canolbarth wedi ffurfio partneriaethau gwella ysgolion newydd. Rhoddodd consortiwm rhanbarthol ERW y gorau i weithredu ar ddiwedd mis Awst 2021. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi grantiau ar wahân i'r chwe awdurdod lleol a oedd yn rhan o ERW gynt er mwyn darparu'r cymorth a'r gwasanaethau i'w ysgolion a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff y gweithgareddau hyn eu cyflawni drwy eu partneriaethau newydd (nid yw awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot yn rhan o gonsortiwm na phartneriaeth newydd ar hyn o bryd).

Gwybodaeth am elfen Grant Gwella Addysg Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol a diweddariad ar y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio'n strategol a bod ei effaith yn cael ei gwerthuso.

- 2.2.5 Mae'r Grant Gwella Addysg yn rhan o Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol o hyd, a ddefnyddir i gynorthwyo'r consortia rhanbarthol i gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer ysgolion ac addysg a amlinellir yn Cenhadaeth ein Cenedl a'i ddiweddariad ym mis Hydref 2020. Wrth wraidd hyn mae cwricwlwm gweddnewidiol, a gefnogir gan bedwar amcan galluogi, y mae'n rhaid i waith y consortiwm ei gefnogi.
- 2.2.6 Er bod lle i ddefnyddio'r Grant Gwella Addysg yn hyblyg gan gonsortia rhanbarthol i gefnogi ein blaenoriaethau cenedlaethol, mae'n parhau i ganolbwyntio ar y Cyfnod Sylfaen, cefnogi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a gwella addysgu a dysgu yn bennaf. Rhaid cynnal cyfradd ddirprwyo i ysgolion o 80% o leiaf ac mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrwydd ynghylch hyn.
- 2.2.7 Telerau ac amodau'r grant yw'r dull o sicrhau y glynir wrth gymarebau staff i ddisgyblion mewn ysgolion. Mae'n ofynnol i gonsortia bennu eu fformiwla dosbarthu i ysgolion er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni'r cymarebau a argymhellir i gyflawni Cyfnod Sylfaen o'r radd flaenaf. Hefyd rhaid defnyddio'r cyllid i gefnogi ymarferwyr Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir i ddarparu addysg o'r radd flaenaf.
- 2.2.8 Disgwylir i gonsortia rhanbarthol ddangos tystiolaeth o elfennau ychwanegol y cyllid a'u heffaith. Caiff y gwaith o gyflwyno'r cyllid ei fonitro drwy gerrig milltir a dangosyddion perfformiad allweddol a amlinellir yng nghynlluniau busnes consortia.

2.3 Lleihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol

Gwybodaeth am y ffordd y caiff adnoddau o fewn Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg eu defnyddio i gyflawni ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i leihau effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysgol.

- 2.3.1 Rhaid i bob dysgwr, ni waeth ble mae'n byw, gael y cyfle i gyflawni ei botensial. Mae'r GDD yn darparu cyllid i liniaru effeithiau amddifadedd ar addysg drwy roi £1,150 fesul dysgwr i ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar. Hefyd, mae Mynediad i GDD yn cefnogi teuluoedd yn uniongyrchol drwy ddarparu cyllid i brynu gwisg ysgol, dillad chwaraeon ac adnoddau eraill ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol ar adegau allweddol yn addysg y dysgwr, yn cynnwys symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.
- 2.3.2 At hynny, mae gan bob plentyn yng Nghymru – yn cynnwys y rhai sy'n derbyn gofal ac a oedd arfer derbyn gofal – yr hawl i ddisgwyl addysg ragorol ni waeth beth fo'i amgylchiadau. Rydym yn parhau i gefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg dros £5m y flwyddyn drwy GDD-PDG. Mae'r Consortia Addysg Rhanbarthol yn gweinyddu'r grant hwn ar y cyd ag awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae cyllid GDD-PDG yn seiliedig ar £1,150 fesul plentyn sy'n derbyn gofal; fodd bynnag nid yw'r cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer pob plentyn. Mae'r dull hwn yn galluogi Consortia, gan weithio gyda phartneriaid, i bennu'r ymyriadau strategol mwyaf effeithiol i gefnogi pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal ni waeth beth fo'r newidiadau o ran lleoliad gofal neu ysgol.
- 2.3.3 Mae'r dyraniadau ar gyfer adrannau chweched dosbarth a sefydliadau addysg bellach Awdurdodau Lleol yn cynnwys cynnydd amddifadedd i ddysgwyr sy'n dod o'r pedair ardal fwyaf difreintiedig yn addysgol fel y'u diffinnir gan WIMD. Mae cynnydd o 40% yn gymwys i ddysgwyr o'r ddegradd fwyaf difreintiedig, 20% i'r ail ddegradd fwyaf difreintiedig, 10% i'r drydedd a 5% i'r bedwaredd. Ar gyfer 2021-22, roedd y dyraniad amddifadedd i adrannau chweched dosbarth a sefydliadau addysg bellach Awdurdodau Lleol yn gwneud cyfanswm o £19.839m (£3.265m ac £16.574m yn y drefn honno). Bydd hyn yn amrywio ar gyfer 2022-23 yn unol â newidiadau i ddyraniadau.
- 2.3.4 Mae'r gyllideb Darpariaeth ôl-16 bellach yn cynnwys cyllid o £6m i'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, yn dilyn trosglwyddo cyllid o Linell Wariant yn y Gyllideb Dyfarniadau Cymorth i Fyfyrrwyr wedi'u Targedu. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi dysgwyr AB sy'n profi caledi ariannol ac na fyddent fel arall efallai yn gallu mynychu'r coleg. Mae'n darparu help gydag amrywiaeth o gostau sy'n gysylltiedig â chyrsiau megis gofal plant, cludiant, deunyddiau dysgu a chyfarpar a phrydau am ddim.
- 2.3.5 Bydd cyllid ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu drwy Gronfa wrth Gefn COVID-19 hefyd yn naturiol yn cael ei ddyrannu i'r dysgwyr hynny sydd ei angen fwyaf. Ar hyn o bryd caiff data eu casglu i nodi pa gyfran o'r cyllid adferiad a chynnydd dysgwyr sy'n cael ei defnyddio gan y rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd addysgol.

2.3.6 Yn unol â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi diogelu'r Lwfans Cynhaliath Addysgol i bobl ifanc a ariennir o Linell Wariant yn y Gyllideb Grantiau Cefnogi Myfyrwyr. Mae'r lwfans yn parhau i fod yn £30 yr wythnos ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-22, er mwyn annog pobl ifanc (16-18 oed) o aelwydydd incwm is i barhau â'u haddysg ar ôl i'w cyfnod addysg orfodol ddod i ben. Caiff y Lwfans Cynhaliath Addysgol (LCA) ei arwain gan alw ac mae'r data a gyhoeddwyd ar gyfer blwyddyn academiaidd 2020-21 (y flwyddyn lawn ddiweddaraf) yn dangos bod 18,690 o geisiadau wedi cael eu cymeradwyo gan LCA (mae tua hanner y ceisiadau'n fyfyrwyr parhaus).

Manylion darpariaeth gyllidebol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion (GDD) a chronfa Mynediad GDD.

2.3.7 Mae cyllid ar gyfer y GDD wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, yn enwedig yn y flwyddyn ariannol hon oherwydd y pandemig a'r niferoedd cynyddol o ddsygwyr sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Yn unol â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, rydym yn parhau i fuddsoddi'r lefelau uchaf erioed o gyllid yn y GDD, gan gynyddu'r gyllideb £20m o 2022-23, gan olygu bod cyfanswm ein buddsoddiad ar gyfer GDD yn fwy na £130m y flwyddyn i gefnogi ein dysgwyr mwyaf agored i niwed yn economaidd. Mae hyn yn cynnwys cyllid i barhau â Mynediad GDD.

2.3.8 Fel yr amlinellwyd yn adran 2.1, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr rhanbarthol GDD i nodi'r ardaloedd hynny lle gall cyllid gael yr effaith fwyaf. Rydym yn ymrwymedig i adolygu defnydd ac effaith GDD ac ystyriaethau ehangach o ran adfer ar ôl COVID-19.

Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch adolygu meini prawf cymhwysedd Prydau Ysgol am Ddim gyda'r nod o ymestyn yr hawl "cyn belled ag y mae adnoddau yn caniatáu" (fel y nodir yn Rhaglen Lywodraethu 2021)

2.3.9 Rydym yn ymfalchïo yn ein record o ran darparu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion yng Nghymru ac rydym yn ymrwymedig i adeiladu ar y ddarpariaeth honno. Yn gynharach eleni, nododd ein Rhaglen Lywodraethu ein bwriad i barhau i fodloni'r cynnydd yn y galw am Brydau Ysgol Am Ddim sy'n deillio o'r pandemig ac adolygu'r meini prawf cymhwysedd, gan ymestyn yr hawl cyn belled ag y mae adnoddau yn caniatáu. Gan adeiladu ar hyn, mae'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru yn ein hymrwymo i ymestyn prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd yn ystod oes y cytundeb. Mae hyn yn cynrychioli cam pwysig pellach tuag at gyflawni ein huchelgais a rennir na ddylai unrhyw blentyn fynd heb fwyd ac, wrth wneud hyn, bydd 196,000 o blant ychwanegol yn dod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghymru.

2.3.10 Caiff ein huchelgeisiau eu llywio gan ein dealltwriaeth bod plant iau yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi incwm cymharol ac felly mae ein hymrwymiad yn cynrychioli ymyriad gweddnewidiol o ran trechu tlodi a newyn plant. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos manteision ehangach prydau

ysgol am ddim, yn cynnwys codi proffil bwyta'n iach, cynyddu'r amrywiaeth o fwyd mae disgyblion yn ei fwyta a gwella eu sgiliau cymdeithasol adeg prydau bwyd, yn ogystal â gwella ymddygiad a chyrraedd.

- 2.3.11 Bydd y buddsoddiad sylweddol hwn hefyd yn ein galluogi i ddefnyddio ein sbardunau i lywio caffael cyhoeddus er mwyn cynyddu lefelau cynhyrchu a dosbarthu bwyd lleol, a fydd yn ei dro o fudd i economïau lleol, ecolegau a chymunedau.

Costau amcangyfrifedig gwahanol fodolau cymhwysedd prydau ysgol am ddim, y gall Llywodraeth Cymru fod yn eu hystyried fel rhan o'i hadolygiad o gymhwysedd prydau ysgol am ddim, a sut y caiff y rhain eu hadlewyrchu ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg neu Brif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol

- 2.3.12 Yn y Gyllideb hon, i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r ymrwymiad hwn dros ei hoes, rydym yn buddsoddi £200m dros y tair blynedd nesaf o Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg. Gan adlewyrchu pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a gwaith paratoi cyn i'r cynnig gwell hwn gael ei gyflwyno'n llawn, caiff yr ymrwymiad hwn ei gyflawni fesul cam, gyda £40m ar gael ar gyfer prydau ysgol am ddim yn 2022-23, £70m yn 2023-24, a £90m yn 2024-25.

Unrhyw gyllid arall o fewn Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ar gyfer mentrau i fynd i'r afael â'r berthynas negyddol rhwng amddifadedd/cyrraedd, er enghraifft newyn adeg gwyliau a phrosiectau gwella gwyliau'r haf.

- 2.3.13 O 2022-23 rydym yn cynnal ein buddsoddiad yn Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf o £4.85m y flwyddyn, yn dilyn y cyllid ychwanegol o £2.15m a fuddsoddwyd yng Nghyllideb y llynedd, i gefnogi'r potensial i redeg cynlluniau sy'n ddiogel o ran COVID-19. Mae'r Rhaglen yn rhoi cyfleoedd i blant 7-11 oed fod yn fwy egniol, bwyta'n iach a gwneud ffrindiau, wrth hefyd wneud y gorau o gyfleusterau ysgol lleol mewn ardaloedd difreintiedig yn ystod gwyliau'r haf. Mae'n cefnogi camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac addysgol ac mae'n cefnogi camau i drechu tlodi bwyd yn ystod gwyliau'r haf. Yn ystod 2021-22 gwnaeth y buddsoddiad o £4.85m alluogi 7,780 o blant i gael budd o'r rhaglen.

2.4 Y Gweithlu Addysg

Manylion dyraniadau cyllidebol i ariannu Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) a dysgu proffesiynol i athrawon presennol

- 2.4.1 Mae cyllid dynodedig o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chymorth Athrawon i gefnogi ac ymgorffori diwygiadau AGA fel a ganlyn:
- Tua £2.6m i gyflwyno'r llwybrau AGA amgen; y TAR Rhan-amser a'r TAR Cyflogedig sy'n ffurfio ein cyfres gydynol o lwybrau o ansawdd uchel i addysgu o dan ein Diwygiadau AGA. Mae'r TAR Rhan-amser a'r TAR Cyflogedig yn dal i fod ar gael yn 2022-23. Mae'r gyllideb yn darparu grant hyfforddi a grant cyfraniad at gyflog i fyfyrwyr AGA ar y cynllun seiliedig ar

gyflogaeth, y TAR Cyflogedig, gan gyflwyno athrawon pynciau Uwchradd â blaenoriaeth (Gwyddoniaeth, Mathemateg, Saesneg a Chymraeg) i'r gweithlu. Hefyd mae'r TAR Cyflogedig (a'r TAR Rhan-amser) yn darparu ar gyfer y rhai lle nad yw rhaglen AGA amser llawn yn addas, yn cynnwys newid gyrfa, siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau gwledig, llwybrau gyrfa i gynorthwywyr addysgu sydd eisoes yn cael eu cyflogi mewn ysgolion ac yn cefnogi ein hymdrechion i weld gweithlu addysgu mwy amrywiol drwy ddenu mwy o fyfyrwyr o gefndiroedd pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

- Tua £2.6m i barhau i gyflawni'r cynllun cymell pynciau â blaenoriaeth i gefnogi recriwtio i'r proffesiwn. O 2023-24 bydd y gyllideb hon hefyd yn cefnogi cymhelliant i fyfyrwyr o gefndiroedd pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae'r gyllideb hon yn seiliedig ar alw ac felly mae'r dyraniad a'r gwariant terfynol yn amrywio; mae'r llinell yn dibynnu'n fawr ar lefelau recriwtio i raglenni AGA.
- Darparwyd £0.160m yn 2021-22 i gefnogi costau'n ymwneud â datblygu polisi seiliedig ar dystiolaeth i barhau i gefnogi diwygiadau AGA Llywodraeth Cymru. Cynigir y bydd y cyllid hwn yn parhau yn 2022-23 i gefnogi'r ymchwil barhaus i'r ffordd orau o gefnogi'r gwaith o recriwtio pobl BAME i'r proffesiwn yn ogystal â chefnogi digwyddiadau i aeddfedu a chefnogi ein Partneriaethau AGA newydd.
- Tua £0.8m ar gyfer cynllun cymell cyfrwng Cymraeg laith Athrawon Yfory sy'n targedu athrawon dan hyfforddiant sy'n siarad Cymraeg ac yn eu hannog i astudio rhaglen AGA uwchradd ôl-raddedig gymwys a fydd yn eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r llinell yn seiliedig ar alw ac yn dibynnu'n fawr ar lefelau recriwtio i raglenni AGA (Statws Athro Cymwysedig). Yn ogystal, caiff y cynllun cymell ei dalu ar ddau bwynt yng ngyrfa gynnar athro (wrth ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig ac ar ôl cwblhau'r cyfnod Sefydlu) ac mae gan geisyddion nifer o flynyddoedd i hawlio pob rhandaliad. Felly mae dyraniad cyllidebol pob blwyddyn yn cwmpasu nifer o gohortau hyd at eu priod ddyddiadau terfyn ac mae'r dyraniad olaf a'r gwariant yn amrywio yn dibynnu ar alw yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- Dyrannwyd hyd at £0.25m yn 2021-22 i barhau â'r ymgyrch cyfathrebu a marchnata ar gyfer Addysgu yng Nghymru. Cynigir y dylai'r cyllid hwn barhau yn 2022-23.
- Caiff tua £0.3m ei ddyrannu bob blwyddyn i raglen Cymhellion AB i gefnogi'r gwaith o recriwtio myfyrwyr i TAR ar gyfer addysgu mewn lleoliadau AB. Mae'n cynnig grant i fyfyrwyr sy'n astudio cwrs AB TAR amser llawn ar sail cyn cyflogaeth mewn Sefydliad Addysg Uwch (SAU) yng Nghymru. Mae'r cynllun wedi bod ar waith ers Blwyddyn Academaidd 2001/02.

2.4.2 Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a ariennir drwy Linell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg, yn arwain prosiect peilot i gymell siaradwyr Cymraeg ifanc i ddychwelyd o brifysgolion i helpu i addysgu Cymraeg mewn ysgolion.

Bydd y Ganolfan yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector addysg i gynnig cwrs hyfforddi i fyfyrwyr ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Yn y dyfodol, bydd y prosiect hefyd yn cynnwys lleoliad mewn ysgol uwchradd. Y gobaith yw y bydd y prosiect hwn yn denu pobl ifanc i'r byd addysgu a'r sector Dysgu Cymraeg, ac yn helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion ar yr un pryd.

Dysgu proffesiynol i'r gweithlu

2.4.3 Mae dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn hanfodol i gyflawni'r prif amcan o gyflwyno cwricwlwm gweddnewidiol o 2022. Yn 2022-23 byddwn yn dyrannu bron £37.5m o Linell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chymorth Athrawon i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol yn unol â'n Dull Cenedlaethol o Ymdrin â Dysgu Proffesiynol. Dyrennir cyllid mewn ffyrdd amrywiol, yn cynnwys y consortia rhanbarthol, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a phrifysgolion i gefnogi nifer o flaenoriaethau. Mae elfennau allweddol y cyllid hwn yn debygol o gynnwys y dyraniadau canlynol. Fodd bynnag, gallant newid wrth inni orffen gwneud y gwaith cynllunio:

- dyrennir £12m i ysgolion i'w galluogi i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a dyrennir £3m arall i gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i alluogi ysgolion i rannu ymarfer fel rhan o'r cynnig dysgu proffesiynol. Mae hyn ar ben y buddsoddiad o £43 miliwn mewn dysgu proffesiynol, a ddyrannwyd i ysgolion ers 2018 (£9m yn 2018-19, £15m yn 2019-20, £7m yn 2020-21 a £12m yn 2021-22). Mae'r cyllid hwn yn gyson â'r costau a amlinellir yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).
- Dyrennir tua £4.2m i ranbarthau a rhanddeiliaid eraill i barhau â Rhaglen Datblygu'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn galluogi pob ysgol i wireddu'r cwricwlwm newydd.
- Tua £1m i barhau â'r Rhaglen Ymholi Proffesiynol Genedlaethol i ariannu prifysgolion a rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion ymholi arweiniol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r system yn ehangach.
- Tua £1m i barhau i ddatblygu'r [wefan Taith Dysgu Proffesiynol](#) gydag ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel yn cael eu cynhyrchu mewn partneriaeth â rhanbarthau ac ysgolion i gefnogi diwrnodau HMS dysgu proffesiynol ychwanegol.
- Bron £3m i gefnogi'r gwaith o ddatblygu elfennau'r Pecyn Cymorth Gyrfa Gynnar, sy'n cynnwys datblygu a chyflwyno rhaglen coetsio a mentora ddynodedig genedlaethol a'r rhaglen Meistr newydd.
- £6.4m i gefnogi dysgu proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg.
- £1m i barhau i gyflwyno dysgu proffesiynol i gynorthwywyr addysgu.
- £0.65m i alluogi ein rhwydwaith addysgeg ac ymarfer cenedlaethol i barhau i hwyluso'r gwaith o ddatblygu dulliau newydd o ymdrin â dysgu ac addysgu ar y cyd a fydd yn ofynnol yn unol â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm.
- £1m i barhau i gefnogi'r gwaith o addysgu Safon Uwch.
- £0.25m i barhau â'n hymrwymiad i ddatblygu pob ysgol yn sefydliad sy'n dysgu, gan ei galluogi i nodi ei chryfderau a'i blaenoriaethau gwella ei hun - yn cynnwys dysgu proffesiynol.

- Tua £1m i ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholi Addysgol i ategu polisi yn seiliedig ar dystiolaeth, datblygu proffesiwn ymchwil lythrennog, a datblygu gallu ymchwil o fewn addysg uwch yng Nghymru.
- Tua £3m i ariannu'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a'r rhaglenni arwain sydd wedi cael eu hachredu.

Gwybodaeth am unrhyw gyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i Gyngor y Gweithlu Addysg.

2.4.4 Mae cyllid grant o £7.678m wedi'i roi i Gyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer 2021-22 i gefnogi'r gweithgareddau canlynol:

- Gweinyddu a rhoi gwybod am Statws Athro Cymwysedig (SAC);
- Apeliadau ac ardystiadau sefydlu;
- Gweinyddu'r rhaglen Sefydlu i Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru;
- Cynnal a datblygu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol;
- Hyrwyddo gyrfaedd yn y proffesiynau cofrestredig;
- Ysgrifenyddiaeth i Gorff Adolygu Cyflogau ac Amodau Cymru;
- Darparu a dadansoddi data;
- Cyfrannu at gofrestru;
- Mentrau / digwyddiadau i ymgorffori ymhellach y rhaglenni a'r diwylliant AGA newydd yng Nghymru;
- astudiaeth mapio AB a SAC;
- Datblygu safonau proffesiynol ar gyfer AB a DSW ymhellach.

2.4.5 Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â Chyngor y Gweithlu Addysg ddechrau 2022 i drafod ei ddyfarniad grant ar gyfer 2022-23.

Manylion cyllid ar gyfer awdurdodau lleol tuag at gostau dyfarniad cyflog athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22, yn cynnwys dadansoddiad rhwng blynyddoedd ariannol 2021-22 a 2022-23 a'r priod fecanweithiau a ddefnyddir (p'un a yw'n grant uniongyrchol neu'n rhan o'r setliad llywodraeth leol).

2.4.6 Mae'r cynnydd o 1.75% ar draws holl bwyntiau graddfa athrawon a lwfansau o fis Medi 2021 yn cyfateb i gynnydd amcangyfrifedig at y bil cyflogau cyffredinol o £14.87 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 (mis Medi 2021 i fis Mawrth 2022) a £25.49 miliwn ar gyfer effaith blwyddyn lawn ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.

2.4.7 Er nad yw'r cyllid a ddarperir drwy'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i neilltuo ac mai mater i bob awdurdod lleol yw pennu ei flaenoriaethau ei hun, ffactor sylweddol ym mhenderfyniad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyllid ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2021-22 oedd cydnabod effaith cyflog athrawon. Felly disgwyliwyd i gostau unrhyw ddyfarniad cyflog yn 2021-22

gael eu talu drwy gyllid a ddyrannwyd i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw a'u gallu i godi cyllid drwy'r dreth gyngor.

- 2.4.8 Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau â chynrychiolwyr awdurdodau lleol ar bwysau cyllidebol parhaus ac eithriadol o ganlyniad i'r pandemig y flwyddyn ariannol hon, yn ogystal â'r cyllid a ddarparwyd eisoes o fewn y Grant Cynnal Refeniw, rydym wedi darparu drwy grant uniongyrchol drwy Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg swm untro pellach o £6.4m tuag at gefnogi cost y dyfarniad cyflog mewn ysgolion ac adrannau chweched dosbarth ym mlwyddyn ariannol 2021-22. Mae hyn yn cyfateb i ddarparu'r cyfraniad o 0.75% tuag at y cynnydd cyffredinol o 1.75% o gostau 2021-22.
- 2.4.9 Wrth bennu dosbarthiad cyllid rhwng awdurdodau ar gyfer setliad llywodraeth leol 2022-23, rydym wedi cydnabod y penderfyniadau a wnaed ynghylch cytundeb cyflog athrawon yn 2021-22, ac ymrwymiad llywodraeth leol i ariannu'r cytundeb hwn, drwy gyfeirio'r cyllid angenrheidiol i ran ysgolion y fformiwla.

2.5 Diwygio'r Cwricwlwm

Gwybodaeth am gyllid i gefnogi gwaith paratoi a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, yn cynnwys dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu

- 2.5.1 Mae'r cyllid i gefnogi'r gwaith o weithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a diwygiadau cysylltiedig i gymwysterau wedi'i gwmpasu o dan adran 1.5 (deddfwriaeth). Rhoddir rhagor o fanylion am ddysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu yn adran 2.4 (gweithlu addysg), a cheir gwybodaeth am gostau Cymwysterau Cymru yn gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm yn adran 2.12.
- 2.5.2 Yn fwy cyffredinol, mae [Cwricwlwm i Gymru: cynllun gweithredu](#) (Ionawr 2021) yn nodi gweledigaeth strategol gyffredin o ran yr hyn y mae gwireddu'r cwricwlwm yn ei olygu'n ymarferol, yn cynnwys gwybodaeth am yr effaith rydym am i'n diwygiadau ei chael i gefnogi holl blant a phobl ifanc Cymru. Roedd y cynllun yn cynnwys gwybodaeth am y Rhaglen Gwerthuso a Monitro hirdymor a ddefnyddir i ddwyn ynghyd ac adrodd yn gyhoeddus ar waith gwerthuso, gwaith ymchwil a thystiolaeth sy'n hanfodol er mwyn nodi'r cymorth sydd ei angen, gwella'r trefniadau gweithredu a chynnal momentwm.
- 2.5.3 Mae cam parodrwydd a chwmpasu cychwynnol y rhaglen wedi canolbwyntio ar ymgysylltu ag ystod eang o ysgolion, lleoliadau ac ymarferwyr i ddeall y lefelau gwahanol o barodrwydd yn y sector. Fel rhan o hyn cynhaliwyd sgysiau ag ymarferwyr, arolygon, cyfweiliadau a phrosesau casglu tystiolaeth drwy ein partneriaid cyflawni, er ein bod wedi gochel rhag rhoi gormod o bwysau ar ysgolion ar yr adeg hon. Cafodd canfyddiadau interim uwch-arweinwyr ysgolion cynradd ac uwchradd eu cyhoeddi ym mis Medi gan dynnu sylw at y ffaith bod cryn gefnogaeth o hyd i ddiwygio'r cwricwlwm, ac mai'r heriau yw dod o hyd i'r amser a'r lle yng nghyd-destun y pandemig. Caiff y canfyddiadau hyn eu diweddarau'n fuan – gweler: [Arolwg ymarferwyr ar baratodau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022](#). Hefyd, mae a wnelo'r cam cychwynnol hwn ar y Rhaglen Gwerthuso a Monitro â datblygu

cynllun manwl ar y ffordd y gwnawn fonitro a gwerthuso cynnydd yn y tymor canolig, a gyhoeddir ar ddechrau 2022.

- 2.5.4 Rydym hefyd wedi gwneud gwaith gyda'r sector nas cynhelir a lleoliadau sy'n darparu addysg gynnar i blant 3 a 4 oed er mwyn deall anghenion cymorth ychwanegol y sector, yn cynnwys dysgu proffesiynol.
- 2.5.5 Wrth i ysgolion a lleoliadau symud o baratoi i weithredu o'r flwyddyn academaidd nesaf, disgwyliwn i'n Rhaglen Gwerthuso a Monitro, ynghyd â'n hadroddiad blynyddol, ffurfio sail hynt y gwaith o adrodd ar weithredu'r cwricwlwm.

2.6 Iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc

Gwybodaeth am oblygiadau ariannol y gwaith o ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol a meddyliol, yn cynnwys unrhyw gyllid i gefnogi'r canllawiau statudol, i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg.

- 2.6.1 Yn dilyn cyhoeddi canllawiau statudol y fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant ym mis Mawrth 2021, gwnaethom ddarparu £9m yn ystod 2021-22 (£7m o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a £2m o Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg) i gefnogi gweithredu a gwerthuso ein gwaith yn y maes hwn. Cydnabu natur drawsbynciol y gwaith hwn a phwysleisiodd ein hymrwymiad i ddatblygu'r agenda hon.
- 2.6.2 Yn y Gyllideb hon, rydym yn cynyddu cyllid ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg i gefnogi'r dull ysgol gyfan £3.2m yn 2022-23, gyda chynnydd pellach yn 2023-24 a 2024-25. Erbyn 2024-25, bydd cyfanswm y cyllid i gefnogi'r dull ysgol gyfan ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn codi i £9.6m. Drwy gynyddu cyllid yn y maes hwn o 2022-23 gallwn atgyfnerthu gweithgareddau ymhellach ac ymgorffori llesiant ar draws addysg (nid dim ond mewn ysgolion a gynhelir) ond mewn meysydd eraill a thargedu rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed. Bydd cyllid yn parhau i dargedu'r meysydd hynny lle credwn y caiff yr effaith fwyaf yn cynnwys:

- Gwella ac ymestyn y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion, sy'n gweld tua 11,500 o blant a phobl ifanc bob blwyddyn, a chyflawni'r argymhellion yn adolygiad Prifysgol Caerdydd o effeithlonrwydd y gwasanaeth presennol a'r angen i ymestyn cymorth oedran briodol islaw'r trothwy BI6 presennol. Mae gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion hefyd yn rhan annatod o'r continwmm o gymorth sydd ar gael i ddysgwyr fel rhan o'n hymateb i effaith COVID-19.
- Cychwyn ymyriadau llesiant cyffredinol ac wedi'u targedu mewn ysgolion a chefnogi hyfforddiant ar lesiant i athrawon a staff eraill ysgolion.

Manylion am y ffordd y caiff unrhyw gyllid o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei ddefnyddio i ategu gwaith mewn ysgolion ar y maes hwn.

- 2.6.3 O 2022-23, cynhelir £7m ar gyfer y dull ysgol gyfan ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gydnabod natur drawsbynciol y

gwaith hwn a phwysleisio ein hymrwymiad i ddatblygu'r agenda hon. Ynghyd â'r cyllid ychwanegol ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, bydd cyllid yn sicrhau ein bod yn gallu cefnogi anghenion llesiant, o feithrin gwydnwch i ymyriadau sydd wedi'u targedu'n fwy ar gyfer dysgwyr er mwyn sicrhau bod modd diwallu eu hanghenion y tu hwnt i wasanaethau arbenigol, gan greu arbedion effeithlonrwydd i'r gwasanaethau hynny. Er enghraifft, yn 2021-22 rydym wedi rhoi £4m (dyraniad dros dro o £5.5m yn 2022-23) i fyrddau iechyd lleol gyflwyno'r gwasanaeth CAMHS mewngymorth mewn ysgolion yn genedlaethol, lle mae ymarferwyr iechyd meddwl dynodedig mewn ysgolion yn darparu gwasanaeth ymgynghori, cyswllt, cyngor a hyfforddiant i athrawon a staff eraill ysgolion.

Manylion cyllid ar gyfer unrhyw fentrau ychwanegol neu wedi'u teilwra i gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysg yn ystod pandemig COVID-19.

- 2.6.4 Mae sawl astudiaeth wedi tanlinellu bod y pandemig yn anochel wedi achosi gorbryder ychwanegol i bobl o bob oedran, yn enwedig plant a phobl ifanc. Cydnabyddwn fod goblygiadau emosiynol a llesiant COVID-19 yn debygol o bara'n hirach nag effaith ffisegol y pandemig, gyda phlant a phobl ifanc yn profi profedigaeth, yr effaith economaidd ar eu teuluoedd, pryderon ynghylch yr effaith ar eu haddysg a phryderon am eu hiechyd eu hunain ac iechyd teulu a ffrindiau. Fel y cyfryw ystyriwn fod ein dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol yn hanfodol i fynd i'r afael ag effaith COVID-19 yn ei chyfanrwydd.
- 2.6.5 Yn y Gyllideb hon, rydym wedi cynnal cyllid o £2m a ddyrannwyd ers 2020-21 i barhau â mentrau a'u hehangu lle cefnogir iechyd meddwl a llesiant dysgwyr a staff yn y sector AB. Mae sefydliadau AB yn defnyddio eu dyraniadau cyllid ar gyfer ystod eang o weithgareddau, yn cynnwys costau cyflogi staff ar gyfer cymorth i ddysgwyr ar y "rheng flaen"; dysgu proffesiynol i staff gefnogi dysgwyr; a phrynu neu ddatblygu adnoddau megis deunyddiau tiwtora er mwyn helpu i ddatblygu gwydnwch a sgiliau ymdopi dysgwyr.
- 2.6.6 Mae swyddogion wedi comisiynu gwerthusiad o gyllid iechyd meddwl AB a fydd yn adrodd nôl ym mis Mawrth 2022. Bydd hyn yn helpu i nodi ffyrdd o wella ein canllawiau, a bydd yn edrych yn benodol ar y ffordd mae colegau yn gwerthuso effaith eu gweithgareddau a ariennir.
- 2.6.7 Fel rhan o'r Gyllideb hon, rydym yn darparu cyllid ychwanegol wedi'i neilltuo o £2.3m yn 2022-23, gyda dyraniadau pellach yn 2023-24 a 2024-25, i gefnogi ymhellach iechyd meddwl a llesiant mewn addysg ôl-16. Bydd y cyllid hwn yn rhan o'n Prosiect Ôl-16 Adnewyddu a Diwygio i ddatblygu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant ar gyfer dysgwyr ôl-16.
- 2.6.8 Mewn blynyddoedd blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cryn dipyn o adnoddau ychwanegol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant dysgwyr ac ymarferwyr ar draws y sectorau ôl-16 drwy gydol y pandemig.

- 2.6.9 Yn 2020-21, cafodd £4.5m ei ddyrannu i'r sector AB at y diben hwn, gyda £2m arall yn cael ei ddyrannu yn 2021-22 i adeiladu ar ac ymgorffori'r mentrau a ddatblygwyd gan ddarparwyr yn cynnwys cymorth un i un ychwanegol.
- 2.6.10 Ar gyfer prifysgolion yn 2020-21, dyrannwyd cyfanswm o £50m i helpu i ddarparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr ac aelodau o staff y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt. Roedd hyn yn cynnwys £10m cychwynnol i ddarparu mwy o gymorth i fyfyrwyr oedd yn wynebu anawsterau ariannol, emosiynol neu iechyd meddwl, a £40m arall ym mis Ionawr 2021 i gefnogi caledi ariannol myfyrwyr, gan olygu mai Cymru oedd y wlad fwyaf hael yn y DU yn hyn o beth.
- 2.6.11 Yn ogystal â chymorth iechyd meddwl penodol, mae adrannau chweched dosbarth ysgolion a cholegau AB hefyd wedi cael budd o gyllid adferiad a chynnydd dysgwyr o £33m. Mewn trafodaethau â cholegau mae'n glir bod iechyd meddwl a llesiant yn bryder parhaus a defnyddir hyd at 40% o'r cyllid hwn ar ymyriadau 1-1 i gefnogi'r dysgwyr hyn. Rydym yn parhau i gasglu data i nodi unrhyw dueddiadau o ran nodweddion, cefndiroedd neu bynciau dysgwyr lle mae angen cymorth fwyaf.

2.7 Cymorth i ddysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr

Manylion cyllid i gefnogi addysg dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr (MEGRT) yn 2022-23 a sut y caiff ei ddsbarthu.

- 2.7.1 Caiff cyfanswm o £11m y flwyddyn ei gynnal ac fe'i rhoddir i awdurdodau lleol dros y tair blynedd nesaf i ddarparu cymorth parhaus i ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Mae'r cyllid hwn yn adlewyrchu'r cyllid ychwanegol o £1m a ddyrannwyd yng Nghyllideb y llynedd i gydnabod y cynnydd yn nifer y dysgwyr o leiafrifoedd ethnig sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol sydd angen cymorth.
- 2.7.2 Rydym wedi datblygu cydberthynas waith gadarnhaol ag awdurdodau lleol a thrwy weithgor rydym wedi datblygu fformiwla gyllido ddiwygiedig ar y cyd ynghyd â set o egwyddorion ar gyfer grant MEGRT. Mae'r fformiwla ddiwygiedig a'r egwyddorion yn adlewyrchu'n fwy cywir ddiben y grant ac yn cynnig dosbarthiad tecach o ran cyllid. Dosberthir cyllid gan ddefnyddio fformiwla yn seiliedig ar nifer y plant sydd â Saesneg fel iaith Ychwanegol (heb gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRT)), yn ogystal â nifer y GRT o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Penderfynwyd mabwysiadu Saesneg fel iaith Ychwanegol fel sail i'r fformiwla yn seiliedig ar ymchwil bod caffael iaith yn ffactor allweddol yng ngallu plentyn i gael addysg a'i gyrhaeddiad.

2.8 Anghenion Dysgu Ychwanegol

Asesiad wedi'i ddiweddarau o'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau wrth gyflwyno darpariaeth AAA/ADY bresennol, effaith y cyllid ychwanegol mewn blynyddoedd blaenorol ac a ddarperir cyllid ychwanegol pellach yn 2022-23.

- 2.8.1 Daeth yr asesiad effaith rheoleiddiol a wnaed adeg datblygu'r Bil ADY i'r casgliad y byddai'r system ADY yn gost niwtral, ac fel y cyfryw, na ddylai fod unrhyw gostau parhaus ychwanegol unwaith y'i rhodddwyd ar waith. Fodd bynnag, rydym wedi gwrandao ar awdurdodau lleol, undebau a phenaethiaid ynghylch costau posibl cymryd camau gweithredu fesul cam.
- 2.8.2 Mae'r Gyllideb hon yn cynnwys parhau â'r £8m a ddyrannwyd ers 2020-21 ar gyfer awdurdodau lleol a cholegau AB i gefnogi plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), i dalu'r costau ychwanegol yn gysylltiedig â dysgwyr ag anghenion cymhleth ac anabledau er mwyn sicrhau eu bod yn llwyddo.
- 2.8.3 Yn y Gyllideb hon, rydym yn mynd ymhellach drwy ddyrannu £7m ychwanegol y flwyddyn o 2022-23, a ddyrennir yn uniongyrchol i awdurdodau lleol, ysgolion, colegau a meithrinfeydd a gynhelir. Bydd y cyllid hwn yn darparu adnoddau i drosglwyddo plant a phobl ifanc o system AAA i system ADY. Bydd y cyllid hwn hefyd yn sicrhau y gwrandewir ar anghenion plant a phobl ifanc a bod darpariaeth ADY briodol ar gael, os oes ei hangen. Bydd cyllid hefyd yn talu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dysgwyr ag anghenion cymhleth ac anabledau er mwyn sicrhau eu bod yn llwyddo.
- 2.8.4 Mae darpariaeth AB arbenigol hefyd yn hanfodol i sicrhau bod y bobl ifanc hynny ag anawsterau dysgu neu anabledau na all eu coleg lleol ddiwallu eu hanghenion, yn gallu cael yr addysg bellach a'r hyfforddiant sy'n addas i'w hanghenion. Y llynedd gwnaethom fuddsoddi £1.4m ychwanegol i gefnogi myfyrwyr ag anawsterau dysgu, gan greu cyfanswm o £13.9m o gyllid y flwyddyn. Ar gyfer 2022-23 rydym yn cynnal y buddsoddiad hwnnw i sicrhau ein bod yn gallu bodloni'r galw presennol ar gyfer y dysgwyr hynny hyd at 25 oed sydd angen darpariaeth AB arbenigol er mwyn cael addysg bellach.
- 2.8.5 Ar gyfer Addysg Bellach, mae'r gyllideb yn cynnwys £15.525m i ddysgwyr ag ADY. Mae'r cyllid hwn yn helpu colegau i ddarparu'r cymorth ychwanegol sydd ei angen i ddysgwyr ag ADY lwyddo yn eu rhaglenni astudio dewisol.

Gwybodaeth am y cyllid a ddarperir ar gyfer Rhaglen Trawsnewid ADY a gweithredu Deddf 2018.

- 2.8.6 Yn 2017 dyrannodd Llywodraeth Cymru becyn cyllid £20m i gefnogi'r gwaith o baratoi ar gyfer gweithredu'r system ADY newydd yn ystod tymor cyfredol y Cynulliad. Fel y nodir yn adran 1.5, mae'r costau sy'n gysylltiedig â Deddf 2018 a Rhaglen Gweithredu ehangach ADY yn £6.936m yn 2021-22 (Llinell Wariant yn y Gyllideb ADY).
- 2.8.7 Dros y ddwy flynedd nesaf bydd hyn yn ariannu rhaglen weithredu genedlaethol i ddarparu cyfeiriad strategol a chydweithio â phartneriaid cyflawni ledled Cymru i ddarparu cyngor, casglu gwybodaeth a deall effaith Deddf ADY.

Y sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid i hyfforddi seicolegwyr addysgol yng Nghymru a'r trefniant cyllid grant â Phrifysgol Caerdydd.

2.8.8 Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu grant i Brifysgol Caerdydd sy'n talu ffioedd a bwrsariau i 10 o fyfyrwyr y flwyddyn ar eu rhaglen hyfforddi broffesiynol Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysgol tair blynedd. Rhaid i o leiaf un o'r bwrsariau hyn fod ar gyfer myfyrwyr a all eisoes weithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu a allai wneud hynny. Mae'r trefniant cyllido presennol ar waith tan fis Awst 2022 ac mae trafodaethau â'r brifysgol ynghylch trefniadau am y tair blynedd nesaf yn tynnu at eu terfyn. Dyrannwyd cyllid o £0.9m o Linell Wariant yn y Gyllideb ADY yn 2022-23 i barhau â'r ymrwymiad hwn.

2.9 Maint dosbarthiadau babanod

Cadarnhau a yw'r Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod yn parhau yn 2022-23 a gwerthusiad o effaith cyllid ar gyfer hyn yn y Senedd flaenorol

2.9.1 Darparwyd £36m ychwanegol (£20m cyfalaf ac £16m refeniw) dros dymor y Senedd flaenorol i leihau maint dosbarthiadau babanod ynghyd â £6m pellach y flwyddyn ariannol hon wedi'i dargedu at ysgolion â lefelau uchel o amddifadedd. Bydd y grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd hon.

2.9.2 Mae elfen gyfalaf £20m y grant wedi ariannu 59 o ystafelloedd dosbarth ychwanegol ynghyd â gwell cyfleusterau mewn 33 o ysgolion ledled Cymru. Mae'r mwyafrif o brosiectau cyfalaf wedi'u cwblhau, er i rai gael eu gohirio oherwydd effaith COVID-19. Gall gwaith adeiladu barhau i fynd rhagddo i'w gwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf ac fe'i rheolir fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif. Mae'r cyllid cyfalaf hefyd wedi darparu lle ychwanegol mewn ysgolion lle mae galw am leoedd Cymraeg ac mae wedi cefnogi'r cynnig gofal plant.

2.9.3 Mae elfen refeniw y grant wedi ariannu 126 o athrawon ychwanegol a 48 o gynorthwyrwyr addysgu ychwanegol i leihau maint dosbarthiadau babanod mewn ysgolion sy'n bodloni'r meini prawf. Gwnaeth cyfran y dosbarthiadau babanod a oedd yn cael y grant â 29 o ddisgyblion neu fwy ostwng o 84% yn 2017 i 17.5% yn 2021 a maint cyfartalog dosbarth babanod erbyn hyn yw 23. Nododd ysgolion a oedd yn cael y grant nifer o fanteision yn cynnwys mwy o amser cyswllt rhwng athrawon a disgyblion, a gwell addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

2.9.4 Ers cyflwyno'r grant yn 2017, mae maint cyfartalog dosbarth babanod yn genedlaethol wedi lleihau o 25.6 yn 2017 i 25.3 yn 2021.

2.10 Grant Ysgolion Bach a Gwledig

Cadarnhau a yw'r Grant Ysgolion Bach a Gwledig yn parhau yn 2022-23 a gwerthusiad o effaith cyllid ar gyfer hyn yn y Senedd flaenorol

- 2.10.1 Darparwyd £10m ychwanegol dros dymor y Senedd flaenorol i gefnogi ysgolion bach a gwledig ynghyd â £2.5m ychwanegol yn 2021-22. Bydd y grant ysgolion bach a gwledig yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022.
- 2.10.2 Nod y grant yw annog arloesi a chynyddu'r cydweithio rhwng ysgolion. Mae mwy na 460 o ysgolion wedi elwa ar y grant hyd yn hyn. Mae ysgolion wedi cydweithio ar faterion o fudd cyffredin, yn cynnwys y strategaeth cynhwysiant digidol. Hefyd mae'r cyllid wedi'i ddefnyddio i ddatblygu gweithdrefnau a pholisïau ar y cyd mewn nifer o ysgolion mewn ardal awdurdod lleol. Mae rhai ysgolion wedi mynd â'r cydweithio rhwng ysgolion ymhellach drwy ffurfio ffederasiynau ffurfiol o dan un corff llywodraethu. O 2022-23, clustnodwyd cyllid o Linell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chymorth Athrawon i ddatblygu ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i archwilio sut y gall mwy o ffedereiddio gefnogi arweinyddiaeth addysg ledled Cymru.
- 2.10.3 Mae'r cyllid hefyd wedi'i ddefnyddio i ariannu swyddi ar y cyd. Er enghraifft, defnyddiodd Conwy ei ddyraniad i benodi tri Swyddog Cymorth Busnes Lefel Uwch mewn 21 o'i ysgolion cynradd mewn tri chlwstwr yn canolbwyntio ar swyddogaethau gweinyddol lefel uwch. Defnyddiodd un awdurdod lleol ei gyllid i gyflogi gweithiwr cyswllt cymunedol un diwrnod yr wythnos i gynyddu'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol. Mae hyn wedi arwain at sefydlu dosbarthiadau Cymraeg cymunedol, rhedeg llyfrgell gymunedol sydd ar agor i'r cyhoedd a grŵp chwarae cymunedol. Mae nifer o ysgolion wedi defnyddio'r cyllid i wella technoleg i'w defnyddio gan ddisgyblion a'r gymuned ehangach.

2.11 Estyn

Manylion dyraniad cyllidebol Estyn ar gyfer 2022-23 o Brif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol, yn cynnwys y trafodaethau diweddar a gynhaliwyd â'r arolygiaeth ar ei lefelau gofynnol o gyllid a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

- 2.11.1 Mae cyfanswm dyraniad cyllidebol Estyn o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Estyn o Brif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol yn £11.473m y flwyddyn o 2022-23, yn cynnwys adnoddau cyllidol (£11.023m), adnoddau anghyllidol (£0.2m) a chyfalaf (£0.25m).
- 2.11.2 Yn y Gyllideb hon, rydym yn darparu cyllid ychwanegol i Estyn, drwy Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, er mwyn adlewyrchu ei ofynion cyllido craidd er mwyn datblygu'r meysydd gwaith blaenoriaethol allweddol i gefnogi'r system addysg a diwygiadau. Mae hyn yn cynnwys £1.6m ychwanegol yn 2022-23, gyda chynnydd dangosol pellach o £1.3m yn 2023-24 ac £1.1m yn 2024-25. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn galluogi Estyn i sicrhau y gall fodloni ei ofynion arolygu statudol, drwy gynnal yr holl arolygiadau o fewn y cylch presennol a ohiriwyd oherwydd y pandemig; treialu arolygiadau mwy rheolaidd; ac ymgysylltu ag ysgolion i gefnogi diwygiadau i'r cwricwlwm fel y nodir yn 'Arolygiaeth Dysgu' (ei strategaeth i gefnogi diwygiadau addysg ehangach).

2.11.3 Bydd y cyllid refeniw hefyd yn cefnogi gweithgareddau ychwanegol yn ymwneud â'r canlynol: Addysg Gychwynnol i Athrawon; Gwaith Ieuenctid; Gyrfaoedd; a Chyflogadwyedd a gwaith ar gais Llywodraeth Cymru i gyflawni newidiadau polisi yn ymwneud â sefydlu athrawon newydd gymhwys; ac arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant.

2.12 Cymwysterau

Manylion dyraniad cyllidebol Cymwysterau Cymru yn 2022-23, yn cynnwys y trafodaethau diweddar a gynhaliwyd â'r rheoleiddiwr ar ei lefelau gofynnol o gyllid a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

2.12.1 Mae cyllideb adnoddau Cymwysterau Cymru yn cael ei chynnal ar £9.876m y flwyddyn o 2022-23 (£9.617m refeniw a £0.25m heb fod yn arian parod). Hefyd, caiff cyllideb gyfalaf o £0.25m y flwyddyn ei darparu am y tro cyntaf. Bydd Cymwysterau Cymru hefyd yn gallu cael gafael ar £0.15m arall os oes angen, o gyllideb Diwygio'r Cwricwlwm, i gefnogi ei rôl yn diwygio'r cymwysterau sylfaenol yn ystod 2022-23.

Diweddariad ar unrhyw gyllid ychwanegol y mae Cymwysterau Cymru yn ei gael i gefnogi ei waith ar ddiwygio cymwysterau yng nghyd-destun y Cwricwlwm newydd i Gymru a'i raglen o adolygiadau sector o gymwysterau galwedigaethol.

2.12.2 Cafodd y cyllid ychwanegol roedd Cymwysterau Cymru yn meddwl y byddai ei angen arno i gyflawni ei raglen waith Cymwys ar gyfer y Dyfodol ei nodi yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi golygu y bu'n rhaid i gynlluniau i ddatblygu'r gyfres o gymwysterau ar gyfer y dyfodol a gweithgareddau ehangach Cymwysterau Cymru gael eu hailystyried a'u hailflaenoriaethu. Ar sail trafodaethau â Cymwysterau Cymru ac wedi'i ategu gan ei gynllun cyflawni gweithredol diwygiedig ar gyfer ffrydiau gwaith yn weddill rhaglen Cymwys ar gyfer y Dyfodol, disgwylir bellach i'r gwaith hwn gael ei gyflawni yn ystod 2022-23 heb fod angen cyllid ychwanegol (uwchlaw'r dyraniad craidd o £9.867m a'r £0.15m sydd ar gael o ddyraniad cyllidebol cyffredinol Cwricwlwm i Gymru i gefnogi'r rhaglen honno ar gyfer 2022-23). Mae'r rhaglen o adolygiadau sector, fel y'i nodir yn ei gynllun strategol a'i gynllun gweithredol, wedi'i hystyried yn y gofyniad cyllid craidd.

Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol i Cymwysterau Cymru, neu unrhyw rai o gyllidebau Llywodraeth Cymru, o effaith y pandemig ar ddyfarnu cymwysterau.

2.12.3 Er bod Cymwysterau Cymru wedi cydweithio â rhanddeiliaid i gyflwyno trefniadau asesu amgen ar gyfer cymwysterau yn 2020 a 2021, mewn ymateb i'r pandemig, bu hyn yn lle'r gyfres arferol o arholiadau, gan olygu bod gweithgareddau cysylltiedig wedi'u cyflawni o fewn cyllidebau a fodolai eisoes. Yn 2021 rhoddwyd cyllid ychwanegol i CBAC er mwyn gallu gostwng ffioedd mynediad 50% (£1.6m) ar gyfer ysgolion a cholegau, cefnogi'r gwaith o gyflwyno trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat, ac i ysgolion a cholegau er mwyn eu helpu i gynllunio a chyflawni graddau a bennwyd gan ganolfannau

yn cynnwys dysgu proffesiynol a'r broses apelio (£8.5m). Yn 2022, cynllunnir cyfres arholiadau ag addasiadau i adlewyrchu'r tarfu ar addysgu a dysgu ac felly nid oes disgwyl i gyllid ychwanegol gael ei roi i Cymwysterau Cymru na CBAC. Fodd bynnag, gan adlewyrchu'r tarfu parhaus ar ddysgu a gorbryder dysgwyr am y posibilrwydd o sefyll arholiadau am y tro cyntaf, rhoddir cyllid ychwanegol i CBAC er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu adnoddau addysgu/ dysgu ac adolygu ac i ranbarthau ac ysgolion/ colegau er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu dysgu ychwanegol i ddysgwyr mewn blynyddoedd cymwysterau (£7.5m). Ar hyn o bryd bwriedir cynnal arholiadau ar gyfer 2022-23 a gellid ariannu hynny fel rhan o gyllideb graidd Cymwysterau Cymru.

2.13 Addysg Cyfrwng Cymraeg

Manylion darpariaeth gyllidebol i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol, yn ogystal â chyfraniad y sector addysg at gyflawni targed miliwn o siaradwyr Cymraeg 2050.

2.13.1 Mae [Rhaglen Waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-26](#), a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, yn amlinellu ein cynllun ar gyfer pum mlynedd nesaf tymor y Senedd hon, er mwyn helpu i gyflawni dau brif darged *Cymraeg 2050*, sef miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Mae sawl cyllideb o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb y Gymraeg mewn Addysg, a Llinellau Gwariant yn y Gyllideb eraill ar draws y Prif Grŵp Gwariant, sy'n cyfrannu at ein gwaith o gyrraedd y targedau hynny yn y sector addysg.

2.13.2 Mae darpariaeth drochi hwyr yn hanfodol wrth inni weithio tuag at filiwn o siaradwyr. Mae ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu yn adlewyrchu ein huchelgeisiau yn y maes hwn, ac yn y Gyllideb hon rydym yn dyrannu £2.2m ychwanegol i ehangu'r ddarpariaeth ymhellach o 2022-23 ymlaen. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod plant ledled Cymru yn cael budd o'r gwasanaeth unigryw a hanfodol hwn. Mae hyn yn adeiladu ar y £2.2m a ddyrannwyd y flwyddyn ariannol hon (o Gronfa Wrth Gefn COVID-19) i ymateb i'r cynnydd mewn galw am ddarpariaeth oherwydd y pandemig.

2.13.3 Byddwn yn cynnal ein cyllid o £3.031m y flwyddyn i Mudiad Meithrin barhau i ehangu ac atgyfnerthu gallu'r blynyddoedd cynnar i gynnig llwybr tuag at addysg cyfrwng Cymraeg. Drwy ei waith, sefydlwyd 43 o grwpiau newydd yn ystod tair blynedd gyntaf y rhaglen hyd at 2021, a phennwyd targed ar gyfer sefydlu 60 o grwpiau pellach yn ystod y pum mlynedd ddilynol. Gyda 90% o'r plant sy'n mynychu Cylch Meithrin yn mynd i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, bydd y gwaith hwn yn gwneud chyfraniad mawr at nodau *Cymraeg 2050*.

2.13.4 Mae rhaglen dysgu cyfunol e-sgol yn parhau i ddatblygu ac mae wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers i'r cynllun peilot gael ei gyflwyno yn 2018. Hyd yn hyn, mae 40 o gyrsiau e-sgol TGAU, UG a Safon Uwch wedi cael eu cynnig mewn

40 o ysgolion i bron 450 o ddisgyblion. Yn y Gyllideb hon, drwy ailddyrranu cyllid o fewn y Prif Grŵp Gwariant, byddwn hefyd yn darparu £0.35m ychwanegol o 2022-23 i gefnogi e-sgol. Ynghyd â chyllid presennol, mae'n darparu cyfanswm cyllid o £0.6m y flwyddyn o 2022-23 er mwyn datblygu'r rhaglen ymhellach a chynnig cyfleoedd i ysgolion a disgyblion ddefnyddio'r model addysgu hyblyg a gwerthfawr hwn.

2.13.5 Yn y Gyllideb hon, ac fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, rydym yn darparu cyllid ychwanegol i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ceir rhagor o fanylion yn adran 2.2.

2.13.6 Byddwn yn parhau i ddyrranu £0.190m o gyllid i Cwlwm yn ystod 2022-23. Mae Cwlwm yn gweithio i godi ymwybyddiaeth / dealltwriaeth o bwysigrwydd rôl gofal plant a chwarae wrth gyflawni gweledigaeth *Cymraeg 2050* ar draws holl allbynnau 'Cwlwm'. Mae'n gweithio i brif ffrydio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog ar draws y sector cyfan.

2.13.7 Byddwn yn parhau i ddyrranu £0.1m i gefnogi gwaith ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau). Daeth rheoliadau CSCAau newydd i rym ar 1 Rhagfyr 2020 yn nodi trefniadau newydd ar gyfer paratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'u rhoi ar waith. Yn 2022-23, byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt baratoi a gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) 10 mlynedd newydd. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cyngor ac arweiniad ynghylch cyfathrebu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys pecyn o adnoddau digidol y gall ALLau eu defnyddio).
- Caffael ymgynghorwyr y Gymraeg ac addysg i roi cyngor i ALLau ar agweddau ar roi CSCAau ar waith, fel dilyniant o ddarpariaeth gynradd a gwaith yn ymwneud â chategoreiddio ysgolion.
- Cymorth i roi'r CSCAau newydd ar waith.

2.13.8 Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio cyllid o nifer o ffynonellau eraill i roi eu CSCAau ar waith, yn cynnwys gweithgareddau a gefnogir ac a gyflawnir drwy'r rhaglen Cyfalaf cyfrwng Cymraeg a'r Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol.

2.13.9 Mae'r Gyllideb ddrafft hon yn amlinellu buddsoddiad o £45m dros y tair blynedd nesaf (£15m y flwyddyn) i ddarparu cefnogaeth barhaus i'n rhaglen gyfalaf cyfrwng Cymraeg. Mae'r cyllid hwn yn adeiladu ar y cylch cyntaf o gyllid a gyhoeddwyd yn 2018 sydd wedi cefnogi 46 o brosiectau mewn 20 o awdurdodau lleol, ac wedi arwain at 2,818 o leoedd ychwanegol mewn gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Cyhoeddwyd swm pellach o £30m ym mis Mawrth 2021 i gefnogi prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud yn benodol â chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg yn ôl anghenion CSCA lleol. Daeth y cyfnod ar gyfer Mynegi Diddordeb i ben ar 22 Hydref, a chaiff cynigion eu hasesu ar hyn o bryd. Bydd y cyllid sydd ei angen i gefnogi ymrwymadau sy'n weddill yn erbyn y cylch cyntaf o fuddsoddiad yn parhau i gael ei reoli fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif ehangach.

Gwybodaeth am unrhyw gyllid a ddyrannwyd i helpu i wireddu'r continwmm unigol ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg, er enghraifft cynyddu gallu'r gweithlu addysg Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

- 2.13.10 Yn y Cwricwlwm i Gymru, mae Cymraeg yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae'r canllawiau statudol ar gyfer y maes hwn yn adlewyrchu anghenion gwahanol gyd-destunau ond maent yn darparu llwybr cyffredin i bob dysgwr sy'n dechrau heb fawr ddim iaith, os o gwbl, ac sydd am ddod yn hyfedr. Bwriedir i hyn helpu ysgolion i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cefnogaeth i wneud cynnydd parhaus yn y Gymraeg o 3-16 oed, ble bynnag mae'n dechrau a beth bynnag yw'r cyd-destun dysgu. Mae cyllid diwygio'r cwricwlwm yn cynorthwyo ysgolion i gydweithio ag eraill ar ddylunio a datblygu'r cwricwlwm ac asesu, gan ryddhau amser a lle i ddylunio a chynllunio dulliau o fynd i'r afael â'r cwricwlwm, a chefnogi ymgysylltu â'r rhwydwaith cenedlaethol i gyflwyno'r cwricwlwm.
- 2.13.11 Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ymarferwyr ac arbenigwyr eraill i ddatblygu Fframwaith ar gyfer y Gymraeg i gynorthwyo athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, a bydd yn ymgynghori ar y fframwaith drafft, yn ogystal â dysgu proffesiynol a deunyddiau ategol sydd eu hangen, yng ngwanwyn 2022.
- 2.13.12 Cefnogir cyllid i gynyddu gallu'r gweithlu addysg Cymraeg drwy gyllid yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chymorth Athrawon. Yn y Gyllideb hon, dyrannwyd cyllid ychwanegol a chaiff ei fuddsoddi dros y tair blynedd nesaf i roi'r cynllun 10 mlynedd sydd ar ddod ar gyfer y gweithlu Cymraeg mewn addysg ar waith. Caiff cyfanswm o £1.845m ei ddyrannu yn 2022-23 (cynnydd o £1m) gyda chynnydd pellach o £0.5m yn 2023-24 a £2m yn 2024-25. Caiff y cyllid hwn ei flaenoriaethu er mwyn cefnogi nodau'r cynllun, ac mae'n debygol o gynnwys cyllid ar gyfer y canlynol, ymhlith datblygiadau eraill sydd wrthi'n cael eu hystyried o hyd:
- ehangu'r rhaglen bontio cynradd i uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn rhoi cymorth i athrawon drosglwyddo o addysgu yn y sector cynradd i addysgu yn y sector uwchradd.
 - gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a rhanddeiliaid eraill i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio Cymraeg Safon Uwch er mwyn cynyddu nifer yr athrawon Cymraeg yn y dyfodol.
- 2.13.13 Rydym yn parhau i gymell athrawon dan hyfforddiant o Gymru sy'n gwneud Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) ac rydym wedi cynnal cymhelliant Iaith Athrawon Yfory o £5,000 ar gyfer pob myfyriwr sy'n paratoi i addysgu pynciau uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 2.13.14 Mae dysgu proffesiynol yn nodwedd allweddol ar ein dull o atgyfnerthu gallu addysgu cyfrwng Cymraeg a gwella sgiliau athrawon i addysgu Cymraeg fel rhan o'r cwricwlwm newydd. Rydym yn parhau i gefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth drwy'r cynllun sabothol a'r cymorth a roddir gan y consortia rhanbarthol ac ar y cyd â rhanddeiliaid eraill. Gobeithiwn gynnal yr

un lefel o gyllid yn 2022-23 i gefnogi dysgu proffesiynol Cymraeg a chyfrwng Cymraeg, sef tua £6.4m.

2.14 Blynyddoedd Cynnar / Cyfnod Sylfaen

Diweddariad ar y gwaith a wneir i adolygu'r gydberthynas rhwng cyfraddau cyllido gofal plant ar gyfer plant 3 a 4 oed (o dan y cynnig Gofal Plant) ac addysg y blynyddoedd cynnar (y Cyfnod Sylfaen) ar gyfer plant 3 a 4 oed.

2.14.1 Yn 2019 cynhaliodd Llywodraeth Cymru brosiect peilot, mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint, i brofi effaith cyfradd gyllido gyson ar gyfer addysg gynnar a gofal plant o fewn y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Cafodd Ymchwil Arad ei gomisiynu i werthuso'r cynllun peilot er mwyn asesu effaith cyfradd gyllido gyson, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2019. Cafodd y gwaith hwn ei ohirio oherwydd y pandemig. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y gwerthusiad annibynnol yn dilyn hynny.

2.14.2 O fis Ionawr 2021 cytunwyd y dylid darparu arian ychwanegol i alluogi awdurdodau lleol i gynyddu'r cyllid ar gyfer lleoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg gynnar er mwyn helpu i sicrhau cysondeb â chyfradd gyllido bresennol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal plant (£4.50) o fewn y Cynnig Gofal Plant. Fel bod camau cyson yn cael eu cymryd ledled Cymru gwnaethom ddefnyddio fformiwla safonol ar gyfer y cyllid. Yn 2021-22 darparwyd cyllid o £3.8m (a rannwyd yn gyfartal o Brif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg) mewn grantiau i awdurdodau lleol er mwyn cyfrannu at unioni cyfraddau cyllido mewn lleoliadau nas cynhelir. Ein bwriad yw parhau i ddarparu'r gefnogaeth hon o 2022-23.

Asesiad wedi'i ddiweddarau o sefyllfa ariannol y sector meithrin nas cynhelir a ariennir fel mae'n ymwneud â Phrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg a phortffolio'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, yn cynnwys yng nghyd-destun cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

2.14.3 Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y llu o blant bach sy'n cael eu profiad cyntaf o addysg mewn lleoliad gofal plant yn parhau i gael addysg o'r radd flaenaf a bod y ddarpariaeth yn cael ei gwella o hyd. Aeth Llywodraeth Cymru ati i ddatblygu cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021. Gan weithio gyda'r sector, yn cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau mantell cenedlaethol a lleoliadau, gwnaethom ddechrau datblygu'r cwricwlwm hwnnw ar y cyd y llynedd ac ymgynghori arno yn ystod haf 2021.

2.14.4 Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad yn gadarnhaol a mireiniwyd y cwricwlwm drafft ymhellach ar ddechrau hydref 2021. Byddwn yn cyhoeddi'r cwricwlwm terfynol ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir ym mis Ionawr 2022. Gan ddefnyddio'r un model cydlunio, byddwn yn datblygu trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau nas cynhelir yn 2022.

2.14.5 Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r sector i ddeall ei anghenion cymorth cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022. Rydym wedi datblygu

amrywiaeth o adnoddau gyda'r sector blynyddoedd cynnar i gefnogi ymarfer ac rydym yn ystyried pa hyfforddiant ychwanegol fydd ei angen – ar ddechrau 2022, ond hefyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

- 2.14.6 Gwnaethom ddarparu amrywiaeth o gymorth ychwanegol ar gyfer dysgu cynnar, gan gydnabod effaith bosibl y pandemig ar ddatblygiad ein dysgwyr ieuengaf. Roedd hyn yn cynnwys £3m ar gyfer lleoliadau nas cynhelir drwy'r grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau yn 2020-21 ac £1.9m arall yn 2021-22 i gefnogi anghenion emosiynol, corfforol a datblygu dysgu. Hefyd cafodd y sector nas cynhelir fudd o'r £13m ychwanegol a ddarparwyd yn 2021-22 drwy'r Grant Gwella Addysg sy'n cefnogi cymarebau mewn ysgolion ac yn cefnogi'r sector nas cynhelir.
- 2.14.7 Tra bydd strwythur a therminoleg y trefniadau newydd ar gyfer lleoliadau meithrin yn gyson â'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn sicrhau continwwm dysgu, bydd egwyddorion addysgegol allweddol y Cyfnod Sylfaen yn parhau. Ni ddisgwyliwn effaith sylweddol ar y sector nas cynhelir wrth gyflwyno'r cwricwlwm newydd.
- 2.14.8 Byddwn yn parhau i weithio gyda'r sector – yn cynnwys awdurdodau lleol a'r sefydliadau mantell gofal plant cenedlaethol a fydd yn cael tua £0.24m mewn cyllid yn 2022-23 i gefnogi addysg gynnar mewn lleoliadau nas cynhelir - er mwyn sicrhau ein bod yn deall yn glir unrhyw effaith debygol a sicrhau bod cymorth priodol yn gallu cael ei roi ar waith ar gyfer y sector.

2.15 Gwaith Ieuencid

Manylion darpariaeth gyllidebol i gefnogi darpariaeth gwasanaethau ieuencid yn cynnwys yng nghyd-destun y Bwrdd Gwaith Ieuencid Interim.

- 2.15.1 Yn y Gyllideb hon, rydym yn cynyddu cyllid o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid £2m yn 2022-23, gan gynyddu i £4.9m erbyn 2024-25, sy'n cefnogi ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu a bwrw ymlaen ag argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuencid Interim. Caiff yr argymhellion eu cynnwys yn adroddiad terfynol y Bwrdd, sef 'Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru', a gyhoeddwyd ar 16 Medi 2021. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar waith ieuencid yng Nghymru ac ar fywydau'r bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau gwaith ieuencid. Ym mis Ionawr byddwn yn dechrau recriwtio Bwrdd Gweithredu Strategaeth Gwaith Ieuencid newydd, a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu cynllun gwaith a dyraniadau cyllido yn y dyfodol.
- 2.15.2 Ynghyd â throsglwyddiadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant i gefnogi Gŵyl y Gelli, bydd hyn yn cynyddu cyllid ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid i £9.5m yn 2022-23, gan gynyddu i £12.4m erbyn 2024-25. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, disgwyli'r trosglwyddiad pellach o £3.7m i gefnogi Digartrefedd Ieuencid o Brif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd fel rhan o Gyllideb yn y dyfodol.

2.15.3 Bydd y gyllideb leuenctid ac Ymgysylltu yn parhau i ariannu nifer o grantiau cymorth ieuenctid i gefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys cyllid i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid, y sector gwirfoddol drwy'r Grant Sefydliadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol Strategol, CWVYS corff mantell sy'n cefnogi sefydliadau yn y sector gwirfoddol a Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru, sy'n cefnogi addysg a chymhwystra'r sector. Bydd y cyllid yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o sicrhau bod Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn cael ei rhoi ar waith. Mae'r gwasanaethau ataliol hanfodol, a ddarperir gan awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, yn dibynnu fwyfwy ar ddatblygu dulliau gweithio mewn partneriaeth arloesol.

2.15.4 Mae'r gyllideb hon yn cyfrannu'n sylweddol at gefnogi rhai o'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed, yn cynnwys y rhai sy'n wynebu problemau emosiynol, iechyd meddwl neu lesiant sy'n dod i'r amlwg, a'r rhai sy'n wynebu'r risg o ddigartrefedd. Mae'r gwaith hwn sydd wedi'i dargedu yn adeiladu ar lwyddiant y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, gan wella gallu awdurdodau lleol a'u partneriaid i nodi a broceru ymyriadau ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf cyn gynted â phosibl. Bwriedir i'n buddsoddiad annog mwy o gydweithio a ffyrdd newydd o weithio. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys parhau â'r £2.5m o gyllid wedi'i dargedu i gefnogi pobl ifanc ag anghenion llesiant emosiynol neu iechyd meddwl mewn ffyrdd anghlinigol a thrwy gymorth gwaith ieuenctid yn y gymuned.

2.15.5 Bydd y gyllideb hefyd yn cefnogi'r gwaith parhaus o ymgysylltu â phobl ifanc drwy'r Pwyllgor Pobl Ifanc a'r sector gwaith ieuenctid drwy ei Grwpiau Cyfranogi Strategol. Mae'r Grwpiau hyn wedi datblygu cynlluniau gwaith i gyflawni nodau Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (2019) a chaiff y rhain eu hadolygu wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

2.16 Dysgu Troseddwyr

Manylion darpariaeth yn 2022-23 a sut mae'n cymharu â blynyddoedd blaenorol.

2.16.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi darpariaeth 2022-23 ar gyfer dysgu troseddwyr ac yn gwneud cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol.

Carchardai	2022-23 £000	2021-22 £000	2020-21 £000
Y de	3,328	3,328	3,328
Y gogledd	4,000	3,300	3,300
Cyfanswm	7,328	6,628	6,628

2.16.2 Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r ddarpariaeth addysg a dysgu a llyfrgelloedd carchardai yng ngharchardai sector cyhoeddus Cymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS). Mae HMPPS yn gyfrifol am gomisiynu'r holl addysg a dysgu yng ngharchardai sector cyhoeddus Cymru i gyflawni rhagolygon cyflogaeth gynaliadwy. Y carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru yw HMP

Caerdydd, Abertawe, Brynbuga, Prescoed a HMP Berwyn. Heblaw am HMP Berwyn, darperir dysgu a sgiliau gan staff mewnol a gyflogir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn achos HMP Berwyn, mae HMPPS wedi penodi Novus Cambria i ddarparu dysgu a sgiliau. Mae HMP Parc yn garchar preifat a chaiff yr holl wasanaethau eu darparu drwy G4S.

2.16.3 Mae'r trefniadau presennol yn galluogi Llywodraeth Cymru i wella ymhellach ansawdd a pherthnasedd dysgu troseddwyr yng nghyd-destun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Maent yn cefnogi nifer o ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu gyda ffocws allweddol ar roi'r cymorth sydd ei angen ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru er mwyn iddynt gael gwaith. Drwy well addysg a darparu sgiliau am oes, bydd yn torri'r cylch anfantais ac anghydraddoldeb y mae llawer yn ei brofi o fewn y garfan hon yn y tymor hwy.

2.16.4 Dyrennir y £3.328m i dalu am gostau dysgu a sgiliau yng ngharchardai'r de fel a ganlyn:

- Carchardai Sector Cyhoeddus y De (HMP Brynbuga / Prescoed, Caerdydd ac Abertawe) - £3,074,288;
- Carchardai Preifat y De (Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc) - £253,712.

2.16.5 Mae'r dyraniad i Garchar Sector Cyhoeddus y Gogledd (HMP Berwyn) yn cwmpasu cyfraniad Gweinidogion Cymru at gostau contract Novus Cambria am ddarparu dysgu a sgiliau yn HMP Berwyn, gyda HMPPS yn talu unrhyw ddiffyg. Mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaed hyn drwy drosglwyddiad yn ystod y flwyddyn fel rhan o broses y gyllideb atodol. Mae'r trefniant hwn ar waith er mwyn darparu ar gyfer y nifer cynyddol o ddysgwyr yn y carchar am fod carchardai eraill yn Lloegr yn cau. O 2022-23 fodd bynnag, mae'r £4m wedi'i adlewyrchu fel addasiad llinell sylfaen i Linell Wariant yn y Gyllideb Dysgu Troseddwyr yn y gyllideb ddrafft hon, yn dilyn trosglwyddiad rheolaidd cyllid i Lywodraeth Cymru gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

2.17 Addysg bellach, adrannau Chweched Dosbarth a Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Manylion dyraniadau cyflawn 2021/22 i golegau addysg bellach, i gynnwys symiau holl gydrannau'r dyraniad (h.y. amser llawn, rhan-amser, lwfans rhan-amser, amddifadedd, teneurwydd a lwfansau cyfrwng Cymraeg, lwfans cynhaliaeth a'r addasiad Addysg Oedolion yng Nghymru).

2.17.1 Mae'r wybodaeth hon ar gael yn **Atodiad F**.

Manylion newidiadau i'r model cyllido addysg bellach (os o gwbl) o'r model a ddarparwyd i'r Pwyllgor ym mhapur blaenorol y Llywodraeth dyddiedig 08 Ion 2020 (ac a ddiweddarwyd gan y papur gan y Gweinidog Addysg ar y pryd ar gyfer cyfarfod Pwyllgor CYPE 21 Ion 2020), a'r rheswm dros unrhyw newidiadau.

2.17.2 Wrth gyfrifo cyllid AB defnyddir yr un model a ddefnyddiwyd yn 2021/22.

2.17.3 Bydd un newid bach a gynlluniwyd i'r dull o bennu'r dysgwyr a ddisgwylir drwy gynnwys cyfartaledd 3 blynedd (y flwyddyn ddiwethaf defnyddiwyd cyfartaledd 2 flynedd). Y rheswm dros hyn yw bod gan Lywodraeth Cymru y data perthnasol am y 3 blynedd diwethaf ac mae'r newid yn golygu bod methodoleg cyllido AB yn gwbl unol â methodoleg cyllido adrannau chweched dosbarth ysgolion, sydd wedi defnyddio cyfartaledd 3 blynedd ers sawl blwyddyn nawr.

Manylion unrhyw gyllid damcaniaethol i sefydliadau addysg bellach neu adrannau chweched dosbarth y tu hwnt i'w grantiau craidd arferol.

2.17.4 Adeg ysgrifennu, nid oes unrhyw fanylion ar gael am grantiau damcaniaethol pellach ar gyfer 2022-23.

Manylion unrhyw gyllid a ddarparwyd yng nghyllideb 2022-23 i sicrhau cyflogau cyfartal a/neu i fodloni unrhyw ddyfarniad cyflog i sefydliadau addysg bellach ac adrannau chweched dosbarth, yn cynnwys esboniad o ddigonolrwydd y cyllid i fodloni'n llawn unrhyw ddyfarniad cyflog / cyfatebiaeth cyflog y cytunwyd arno neu arni dros gyfnod y gyllideb hon.

2.17.5 Ar hyn o bryd parheir i negodi dyfarniad cyflog 2021/22 rhwng y sector AB ac undebau. Er i 3.8% ychwanegol gael ei gynnwys yn y gyfradd uned cyllid ar gyfer dyraniadau 2021/22 i ganiatáu ar gyfer cynnydd posibl mewn cyflogau, nid yw'n bosibl nodi a yw'r cynnydd yn y gyfradd uned hon yn ddigonol i dalu cost y dyfarniad cyflog, oherwydd ni chytunwyd arno eto.

2.17.6 Defnyddiwyd yr un cynnydd canrannol i'r gyfradd uned ar gyfer adrannau chweched dosbarth. Er bod cynnig cyflog terfynol athrawon o 1.75% o fewn y cynnydd hwnnw, cafwyd hyd i gyllid ychwanegol yn 2021-22 i dalu costau 0.75% o'r cynnydd hwnnw ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2021 a mis Mawrth 2022.

Manylion dyraniad llawn adrannau chweched dosbarth ar gyfer 2022-23 yn ôl pob awdurdod lleol.

2.17.7 Adeg ysgrifennu, nid oes unrhyw fanylion ar gael am ddyraniadau adrannau chweched dosbarth ar gyfer 2022-23.

Copi o'r canllawiau mwyaf diweddar ar Dybiaethau Cynllunio Rhagolygon Ariannol Addysg Bellach a roddwyd i sefydliadau addysg bellach.

2.17.8 Ceir y canllawiau diweddaraf ar dybiaethau rhagolygon ariannol yn Atodiad G.

Y dyraniad ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn ôl y cyrff perthnasol sy'n derbyn y cyllid yn uniongyrchol.

2.17.9 Adeg ysgrifennu, nid oes unrhyw fanylion ar gael am ddyraniadau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar gyfer 2022-23.

Yr holl werthoedd o ran rhaglenni 2021-22 a 2022-23 a ddefnyddiwyd i gyfrifo cyllid addysg bellach ac adrannau chweched dosbarth

2.17.10 Ceir Gwerthoedd Rhaglen 2021-22 yn **Atodiad H**. Adeg ysgrifennu, nid oes unrhyw werthoedd rhaglen ar gael ar gyfer 2022/23.

2.18 Cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch ac ôl-16

Manylion dyraniad CCAUC, yn cynnwys manylion unrhyw gyllid damcaniaethol, neu gyllid a fwriedir ar gyfer gweithgareddau penodol yn cynnwys iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr.

2.18.1 Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys dyraniad adnoddau ar gyfer CCAUC o £203.513m yn 2022-23, sy'n gynydd bach o £0.1m dros ffigur cychwynnol 2021-22, yn sgil cyfuno cyllideb dibrisio nad yw'n arian parod yn Llinell Wariant yn y Gyllideb y prif adnodd. O fewn y swm hwn clustnodwyd cyllid Prentisiaeth Gradd o £5m; £2m o gyllid iechyd meddwl; a £4m ar gyfer bwrsariau ôl-raddedig.

2.18.2 Er bod lleihad o £3.5m yn nyraniad adnoddau CCAUC wedi'i gynnwys yn 2023-24 a 2024-25, o ystyried y buddsoddiadau ychwanegol sylweddol rydym wedi'u gwneud mewn addysg uwch dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig i helpu'r sector i ddelio ag effeithiau'r pandemig, ni ddisgwyliwn i'r lleihad hwn gael effaith fawr.

O ran diwygiadau Diamond: nodi'r lefel ddisgwyliedig o arbedion i gymorth ariannol myfyrwyr yn 2022-23 o gymharu â 2021-22 a faint o'r swm hwn a ailfuddsoddir yn y sector addysg uwch fel rhan o "Ddifidend Diamond".

2.18.3 Ym Mlwyddyn Ariannol 2021-22, nodwyd £25m a gafodd ei ailfuddsoddi'n llawn yn y sector addysg uwch, gan weithredu argymhellion yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru ('Adolygiad Diamond'), fel y cytunodd y Cabinet arno. Roedd hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer pynciau drud (rhan-amser ac amser llawn), ehangu a chynnal rhan-amser, cynnydd mewn QR a chynnydd yn narpariaeth trosglwyddo gwybodaeth, (rhan annatod o ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Reid) a mwy o gydweithio rhwng AU, AB ac Ysgolion.

2.18.4 Yn dilyn gweithredu cam olaf 'Adolygiad Diamond', mae'r modelau cymorth i fyfyrwyr diweddaraf yn awgrymu y bydd cost cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru yn cynyddu yn 2022-23, 2023-24 a 2024-25 o 2021-22, er mwyn sicrhau gwell trefniadau cymorth cynhaliaeth ar gyfer yr holl fyfyrwyr israddedig amser llawn a rhan-amser, gyda'r lefel uchaf o gymorth grant yn cwmpasu cost llawn cynhaliaeth i'r rhai sydd angen hynny fwyaf. Mae'r pecyn hwn, yn cynnwys cymorth ôl-raddedig, yn unigryw yn y DU a bydd yn annog myfyrwyr o bob cefndir i gael addysg uwch.

2.18.5 Mae Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr yn seiliedig ar alw, sy'n golygu eu bod yn anodd i'w darogan neu eu rheoli. Cafodd cyllideb bresennol 2022-23 ei llunio gan ddefnyddio modelau cymorth i fyfyrwyr yr Is-adran Addysg Uwch (gan ymgorffori'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o newidynnau, yn cynnwys niferoedd myfyrwyr, cyfraddau chwyddiant a data economaidd eraill), ond fel y

flwyddyn ariannol hon (2021-22), gall y canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r hyn a ragfynegwyd, a pharheir i reoli costau yn ystod y flwyddyn o fewn Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg.

2.18.6 Gallai'r cynnydd mewn rhagolygon cymorth i fyfyrwyr a brofwyd yn 2021-22 ac sy'n debygol mewn blynyddoedd i ddod gael ei briodoli i'r ansicrwydd economaidd a achoswyd gan bandemig COVID-19 a'r cynnydd posibl yn nifer y myfyrwyr y mae disgwyl iddynt fynychu'r brifysgol yn 2021/22.

2.18.7 Rhaid tanlinellu hefyd, oherwydd natur cymorth i fyfyrwyr lle mae wedi'i arwain gan y galw, mae'n bosibl i'r rhagamcanion hyn amrywio ymhellach, pan fydd ffigurau tynnu i lawr myfyrwyr gwirioneddol mwy diweddar ar gael.

2.18.8 Hefyd, yn dilyn gweithredu argymhellion cam olaf yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru ('Adolygiad Diamond'), gwnaed ymrwymiad i sicrhau gwell trefniadau cymorth cynhaliaeth ar gyfer yr holl fyfyrwyr israddedig amser llawn a rhan-amser, gyda'r lefel uchaf o gymorth grant yn cwmpasu cost llawn cynhaliaeth i'r rhai sydd angen hynny fwyaf. O ganlyniad i hyn, disgwylir i'r rhagolygon ar gyfer Grantiau Cynhaliaeth Amser Llawn a Rhan-amser barhau i gynyddu yn 2022-23, 2023-24 a 2024-25.

Manylion unrhyw ddyraniad yn 2022-23 a fwriedir i gyflwyno prentisiaethau gradd ac a fwriedir ei ddefnyddio i recriwtio prentisiaid newydd neu ond addysgu prentisiaid presennol.

2.18.9 Caiff £5m ei gynnwys yn llinell sylfaen CCAUC i gefnogi Prentisiaethau Lefel Gradd. Rhagwelir y caiff cyllid pellach ei drosglwyddo yn ystod y flwyddyn o Brif Grŵp Gwariant yr Economi (fel rhan o'r gyllideb atodol) er mwyn cefnogi cost Prentisiaethau Gradd newydd a pharhaus yn 2022-23, er nad yw'r costau wedi'u cadarnhau eto.

Manylion unrhyw gyllid cyfalaf a fydd ar gael i CCAUC, yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau a roddir arno gan Lywodraeth Cymru.

2.18.10 Gweler y tabl yn 1.1.6.

Manylion unrhyw eitemau digwyddiadol/cronfeydd wrth gefn/cronfeydd heb eu dyrannu yn unrhyw un o Linellau Gwariant yn y Gyllideb 2022-23 sy'n ymwneud ag addysg drydyddol, yn cynnwys y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn y Cam Gweithredu Cymorth i Fyfyrwyr ôl-16; manylion ynghylch sut y caiff y cronfeydd eu defnyddio neu sut y gallant gael eu defnyddio; a manylion ynghylch unrhyw ddefnydd ohonynt yn ystod 2021-22

2.18.11 Nid oes unrhyw eitemau digwyddiadol o'r fath.

Grantiau: Tabl yn dangos alldro 2020-21, a gwariant rhagamcanol y pedair blynedd wedyn (wedi'u dadansoddi yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU) ar gyfer:

- ***Grant Ffioedd Dysgu gradd gyntaf amser llawn (GGALI);***
- ***Grant Cynhaliaeth GGALI;***

- **Grant Ffioedd Dysgu gradd gyntaf rhan-amser (GGRhA);**
- **Grant Cynhaliath GGRhA;**
- **Elfen grant Cyllid Meistr;**
- **Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA);**
- **Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (GDLIC(AB));**
- **Grantiau a lwfansau wedi'u targedu.**

2.18.12 Mae'r wybodaeth hon ar gael yn **Atodiad I**.

Darpariaeth benthyciadau: Tabl yn dangos alldro 2020-21, a ffioedd benthyciadau rhagamcanol y pedair blynedd wedyn (wedi'u dadansoddi yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU) ar gyfer:

- **ffioedd dysgu GGALI a ffioedd benthyciadau cynhaliath a thâl Cyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau (RAB);**
- **ffioedd dysgu GGRhA a ffioedd benthyciadau cynhaliath a thâl RAB;**
- **ffioedd elfen benthyciadau Cyllid Meistr a thâl RAB;**
- **ffioedd benthyciadau Doethurol a thâl RAB.**

2.18.13 Mae'r wybodaeth hon ar gael yn **Atodiad I**.

2.19 Prentisiaethau

Pa drafodaethau a gynhaliwyd rhwng y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg a Gweinidog yr Economi i gydweithio ar ddarpariaethau sgiliau cyllido a chydgyssylltu'r gwaith o gyflwyno prentisiaethau?

2.19.1 Er nad ydym wedi cyfarfod yn ddiweddar, mae'r ddau ohonom yn ymrwymedig i gynig prentisiaethau a sgiliau cydgysylltiedig. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gryfhau prosesau cyflenwi mewn sectorau twf, megis y rhai yn yr economi werdd, ac annog mwy o gyflogwyr i recriwtio pobl ifanc drwy ein rhaglen prentisiaethau.

2.20 Darpariaeth addysg ôl-16 arall

Manylion cyllid Cyfrifon Dysgu Personol

2.20.1 Rydym hefyd yn darparu £1m ychwanegol hyd at 2024-25 mewn Cyfrifon Dysgu Personol sy'n darparu cymorth ledled Cymru i bobl gyflogedig ar gyflogau islaw'r cyfartaledd er mwyn meithrin sgiliau lefel uwch i'w helpu i achub ar ystod ehangach o gyfleoedd gwaith a/neu gael gwaith ar lefel uwch. Fel ein cynllun peilot cyllidebu rhywedd cyntaf mae Cyfrifon Dysgu Personol yn diwallu anghenion rhanbarthol sy'n datblygu o ran sgiliau ac yn parhau i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau gyda chyllid yn targedu'n benodol brinder llafur a bylchau sgiliau mewn sectorau blaenoriaethol megis iechyd a gofal cymdeithasol, logisteg, adeiladu gwyrdd ac ynni adnewyddadwy.

2.20.2 Mae'r Cyfrifon Dysgu Personol, rhaglen £18m ar gyfer 2022-23, yn darparu cymorth ledled Cymru i bobl gyflogedig er mwyn iddynt feithrin sgiliau lefel uwch a fydd yn eu galluogi i achub ar ystod ehangach o gyfleoedd gwaith a/neu gael gwaith ar lefel uwch. Yn benodol mae'n galluogi pobl ar gyflogau

islaw'r cyfartaledd i ennill cyflogau uwch ar sail gynaliadwy. Yn unigryw mae'n cynnig hyblygrwydd o ran sut a phryd mae pobl yn dysgu drwy helpu colegau i gyflwyno cyrsiau o amgylch ymrwymadau gwaith a theulu unigolion.

- 2.20.3 Mae'r rhaglen hefyd yn ymateb i ofynion uwchsgilio cyflogwyr, gan gydnabod yr heriau parhaus a berir gan COVID-19 a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n deillio o benderfyniad y DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
- 2.20.4 Mae'r cyrsiau a'r cymwysterau yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Caiff yr holl gyrsiau a chymwysterau a gyflwynir drwy'r rhaglen CDP eu hardystio gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion rhanbarthol sy'n datblygu o ran sgiliau ac yn mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau.
- 2.20.5 Mae'r dull hyblyg hwn o ddysgu yn galluogi colegau i weithio'n wahanol i gynnig cyrsiau a chymwysterau i fodloni'r gofynion o ran sgiliau economaidd ar gyfer pobl gyflogedig ni waeth beth fo'u lefel flaenorol o gymwysterau a enillwyd.
- 2.20.6 Mewn partneriaeth â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol bydd CDPau yn diwallu'r anghenion rhanbarthol sy'n datblygu o ran sgiliau ac yn parhau i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau. Yn 2021-22, mae cyllid ychwanegol yn targedu'n benodol y gwaith o fynd i'r afael â phrinder llafur a bylchau sgiliau mewn sectorau blaenoriaethol megis ailymgysylltu ac ailhyfforddi staff i ddychwelyd i weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, hyfforddi mwy o yrwyr lori HGV ac ailsgilio unigolion i ymateb i gyfleoedd gwaith newydd cyffrous ym meysydd adeiladu gwyrdd ac ynni adnewyddadwy.
- 2.20.7 Mae gwerthusiad allanol wedi dechrau, a fydd yn llywio newidiadau pellach o ran polisi neu gymhwysra ar gyfer blwyddyn academiaidd 2022/23 er mwyn helpu'r Rhaglen i gyrraedd grwpiau mwy amrywiol o ddysgwyr wrth gynnal ei nodau ac amcanion craidd.
- 2.20.8 Cymhwysra Unigol:
- Byw yng Nghymru
 - Am ennill sgiliau/cymwysterau mewn sectorau blaenoriaethol
 - 19 oed neu drosodd
- 2.20.9 Hefyd, rhaid i unigolion fodloni un o'r meini prawf canlynol o leiaf:
- Pobl gyflogedig (yn cynnwys pobl hunangyflogedig) sy'n ennill llai na'r incwm canolrifol (£29,534), neu
 - Weithwyr ar gontractau dim oriau, neu
 - Staff asiantaeth, neu
 - Mewn perygl o gael eu diswyddo, neu
 - Wedi profi effaith ariannol negyddol COVID-19 (e.e. incwm disgwylidig yn debygol o leihau islaw'r cyflog canolrifol)

Manylion y gyllideb Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

- 2.20.10 Yn 2021-22 mae cyllid craidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn £6.953m. Mae hyn yn cynnwys cyllid o £5.4m ar gyfer rhaglen addysg uwch y Coleg a £0.330m ar gyfer ei gynllun ysgoloriaeth cyfrwng Cymraeg. Mewn addysg uwch, mae £3.558m yn cefnogi'n uniongyrchol ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn prifysgolion a meysydd pwnc. Darperir cymorth hanfodol drwy ganghennau'r Coleg i ddarlithwyr, datblygu staff a chyhoeddiadau. Ym maes ôl-16, dyrennir cyfanswm o £1.223m i gefnogi *Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg* ac mae cronfa datblygu strategol o £0.95 yn cefnogi colegau AB a darparwyd hyfforddiant i feithrin gallu addysgu sy'n cynnwys y £0.81 ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer y gwaith ehangu yn 2021-22.
- 2.20.11 O fewn y cyllid craidd, mae'r Coleg yn darparu hyfforddiant a mentora drwy Sgiliaith, er mwyn galluogi tiwtoriaid ac aseswyr i ennyn hyder wrth addysgu'n ddwyieithog a chefnogaeth i'r sector prentisiaeth. Darperir cyllid grant ychwanegol o feysydd eraill i ddatblygu adnoddau, cefnogi prentisiaethau, y prosiect llysgenhadon a chymorth i ddatblygu athrawon Cymraeg a chyfrwng Cymraeg.
- 2.20.12 Mae'r Rhaglen Lywodraethu a'n Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru yn cynnwys ymrwymiad i fuddsoddi yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn cynyddu cyfran y prentisiaethau cyfrwng Cymraeg ac addysg bellach a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-25 oed.
- 2.20.13 O ganlyniad, yn y Gyllideb hon, rydym yn cynyddu cyllid £8m arall erbyn 2024-25 (£1.5m ar gyfer y Coleg yn 2022-23, gyda chynnydd pellach i gefnogi'r Coleg a'r Ganolfan Genedlaethol o £3m yn 2023-24 a £4m yn 2024-25). Mae gan y Coleg gydberthynas waith agos â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol eisoes, a bydd cydweithio pellach yn atgyfnerthu'r gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i'r sector ôl-16 cyfrwng Cymraeg.

Manylion unrhyw gyllid UE y disgwylir i Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio yn ystod 2022-23 i sicrhau darpariaeth addysg drydyddol (h.y. o fewn AU, AB, Dysgu Oedolion yn y Gymuned, adrannau chweched dosbarth, a heb gynnwys prentisiaethau)

- 2.20.14 Ni ddisgwylir i Lywodraeth Cymru ddefnyddio unrhyw gyllid UE yn ystod 2022-23 i sicrhau unrhyw ddarpariaeth addysg drydyddol heblaw am gyllid ar gyfer prentisiaethau.

2.21 Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau

Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif a hynt y rhaglen hyd yma, yn cynnwys gwariant a nifer y prosiectau a gwblhawyd neu a gymeradwywyd hyd yma, wedi'u dadansoddi yn ôl:

- ***crynodeb o'r gwariant a nifer y prosiectau a gyflawnwyd neu a gwblhawyd o fewn Band A;***
- ***y sefyllfa ddiweddaraf o ran Band B y rhaglen.***

- 2.21.1 Mae'r tabl ym mharagraff 1.1.6 yn cadarnhau bod cyllideb ddrafft 2022-23 yn buddsoddi £900m ychwanegol o gyllid cyfalaf dros y tair blynedd nesaf (£300m y flwyddyn) i gefnogi ein Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif (Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu o 1 Ionawr 2022). Ynghyd â chyllid cyfalaf arall, mae hyn yn cynrychioli cynnydd cyfalaf blynyddol i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg o 31.7% ar gyfer 2022-23 a 33.6% ar gyfer 2023-24 a 2024-25, o gymharu â llinell sylfaen 2021-22. Mae'r dyraniad tair blynedd hwn yn sail i ddull strategol y Rhaglen o fuddsoddi mewn ysgolion a cholegau, gan ddarparu sail gadarn i gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Llywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio.
- 2.21.2 Hefyd, bydd ein Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) ffrwd buddsoddi a ariennir gan reffeniw yn targedu £500m o fuddsoddiad drwy'r Rhaglen. Disgwylir i'r prosiectau cyntaf gael eu cwblhau ym mis Medi 2023.
- 2.21.3 Mae Band A yn tynnu at ei derfyn ar ôl buddsoddi £1.61bn yn seilwaith ysgolion a cholegau yng Nghymru, gyda Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £801m. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cyflawni 172 o brosiectau yn erbyn targed o 150. O'r prosiectau hyn, mae 166 wedi'u cwblhau, gyda'r gweddill wrthi'n cael eu hadeiladu. Mae mwy na 100,000 o ddysgwyr wedi elwa o dan Fand A.
- 2.21.4 Mae Band B yn mynd rhagddo ar ôl dechrau'n swyddogol ym mis Ebrill 2019. Hyd yma, cymeradwywyd buddsoddiad o £607m ar draws 71 o brosiectau, gyda Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £417m. O'r 71 o brosiectau a gymeradwywyd, mae 25 wrthi'n cael eu hadeiladu ac mae 12 ar y cam cyn adeiladu. Mae'n braf gen i nodi bod 15 o brosiectau wedi cael eu cwblhau hefyd.

Unrhyw oblygiadau o'r pandemig i raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn cynnwys unrhyw effaith ar hynt a chostau prosiectau.

- 2.21.5 Mae effaith pandemig COVID-19 wedi peri nifer o heriau unigryw i Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach, yn ogystal â'r sector adeiladu a'i gadwyni cyflenwi. Fodd bynnag gweithiodd Tîm y Rhaglen gyda thimau Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Uwch i chwilio am gyfleoedd, wrth i ysgolion a cholegau weithredu ar-lein, er mwyn cyflwyno prosiectau'n gyflym tra bod adeiladau'n wag. Arweiniodd hyn at gwblhau nifer o brosiectau yn gynharach na'r disgwyl. Er enghraifft, cafodd Ysgol Uwchradd newydd Whitmore gwerth £30m ym Mro Morgannwg ei chwblhau 12 wythnos yn gynnar. O ganlyniad bu modd i staff a dysgwyr symud i mewn i'r ysgol newydd ym mis Mai yn lle mis Medi, gan leihau'r tarfu sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu a'r pandemig.
- 2.21.6 Er i waith adeiladu fynd rhagddo'n llwyddiannus o dan Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif mae'r pandemig a Brexit yn cael effaith ar gostau adeiladu. Mae argaeledd deunyddiau adeiladu a llafur wedi arwain at gynydd

o tua 15% mewn costau. O dan ddull datblygu ar y cyd y Rhaglen, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach i reoli cynnydd mewn costau ar y cyd. I gefnogi'r costau hyn, cafwyd £30m ychwanegol o gronfa COVID-19 yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf i gefnogi costau ychwanegol.

Goblygiadau cost ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau ôl-troed carbon prosiectau adeiladu ysgolion

- 2.21.7 O fis Ionawr 2022 bydd angen i'r holl brosiectau a gyflawnir o dan Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif nad oeddent eisoes wedi'u cymeradwyo ar y cam Achos Busnes Amlinellol gael eu cyflawni fel carbon sero net ar waith, a hefyd bydd angen pennu targedau i leihau'r carbon ymgorfforedig sy'n gysylltiedig ag adeiladu; tua 20% o welliant yn erbyn safonau dylunio da presennol.
- 2.21.8 Fel y gwelwyd pan gyflwynwyd safonau amgylcheddol BREEAM, mae cynnydd cychwynnol mewn costau. Wrth i'r sector ymgyfarwyddo â'r newid mewn safonau, ac wrth i ddatblygiadau mewn prosesau gweithgynhyrchu deunyddiau ac adeiladu addasu, mae'n rhesymol disgwyl i'r premiwm carbon sero net presennol o 12.5% leihau dros amser. Yn y cyfamser, ac er mwyn dangos yr ymrwymiad tuag at fynd i'r afael â newid hinsawdd, telir y gost ychwanegol hon drwy gyfraniad Llywodraeth Cymru at gostau prosiect ar gyfer yr holl brosiectau sy'n weddill o dan y don bresennol o fuddsoddi.
- 2.21.9 Mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru ddangos ein hymrwymiad i'r her ryngwladol y mae newid yn yr hinsawdd yn ei pheri i genedlaethau'r dyfodol. Drwy gyflawni'r ymrwymiad hwn drwy'r adeiladau ysgol a choleg y mae ein dysgwyr yn dysgu ynddynt gall helpu i roi'r her yn ei chyd-destun a thynnu sylw at rai o'r mesurau y gall ein dysgwyr ifanc eu cymryd gartref ac mewn cymunedau.
- 2.21.10 Bydd y cynnydd mewn cyllid a adlewyrchir yn y gyllideb gyfalaf tair blynedd hon yn helpu i gefnogi'r costau ychwanegol wrth gyflawni ymrwymiad ysgolion a cholegau carbon sero net y Rhaglen.

2.22 Cyllid cyfalaf ar gyfer gofal plant

Diweddariad ar gyllid cyfalaf o Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ac unrhyw wybodaeth am sut yr effeithiwyd / effeithir ar hyn o ganlyniad i'r adolygiad o'r hawl i'r cynnig.

- 2.22.1 Mae cyllideb ddrafft 2022-23 yn ymrwymo £70m o gyllid cyfalaf dros y tair blynedd nesaf i gefnogi parhad rhaglenni Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant. Caiff y dyraniadau cyllidebol dros y tair blynedd eu hadlewyrchu yn y tabl ym mharagraff 1.1.6.
- 2.22.2 Ar gyfer 2022-23 byddwn yn defnyddio'r £20m i ariannu ymrwymadau presennol a, lle bo modd, i ariannu pwysau ariannol yn gysylltiedig â COVID-19 yn y sector adeiladu. Mae ein cofnodion yn dangos y bydd mwy na 100 o brosiectau cyfalaf gofal plant yn cael eu hadeiladu yn ystod y flwyddyn

ariannol hon, ac mae disgwyl i'r mwyafrif gael eu cwblhau yr un flwyddyn. Ynghyd â'r cynnig hwn ar gyfer gofal plant, byddwn yn cynnal ein hystad Dechrau'n Deg drwy ariannu gwaith cynnal a chadw hanfodol.

Adolygiad o'r hawl i'r cynnig

2.22.3 Mae buddsoddiad cyfalaf yn hanfodol er mwyn cefnogi ein hymrwymiaadau yn y Rhaglen Lywodraethu yn ymwneud â'n gweledigaeth ar gyfer Addysg a Gofal Plant yn y Blynyddoedd Cynnar fel a ganlyn:

- Mynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg
- Parhau i gefnogi ein rhaglenni Dechrau'n Deg blaenllaw
- Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant

2.22.4 Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid allweddol i ystyried yr effaith ar gyfalaf wrth i gynigion yn erbyn y blaenoriaethau uchod gael eu datblygu dros y 3 blynedd nesaf, gan anelu at gau'r bylchau mewn darpariaeth gofal plant ac, yn arbennig, ofal plant cyfrwng Cymraeg wrth i ofal plant plant dwy oed gael ei ehangu. Hefyd, bydd canfyddiadau'r Aseidiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant, a ddisgwylir y flwyddyn nesaf, yn darparu gwybodaeth werthfawr am yr angen am leoedd gofal plant ychwanegol, ardaloedd lle ceir y galw mwyaf, yn cynnwys darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Cynigiwn addasu ein proses gwneud cais am gyfalaf drwy ystyried yr uchod a dysgu o flynyddoedd blaenorol, er mwyn sicrhau bod digon o ofal plant yn yr ardaloedd cywir, gyda ffocws penodol ar ddatblygu darpariaeth newydd mewn ardaloedd lle ceir prinder gwasanaethau gofal plant ar hyn o bryd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig.

2.22.5 Caiff y Cynnig Gofal Plant, Ysgolion yr 21ain Ganrif, Dechrau'n Deg a grantiau cyfalaf cyfrwng Cymraeg eu cyflawni ar y cyd er mwyn sicrhau bod dull unedig o reoli ein rhaglenni cyfalaf. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn ein helpu i barhau i gydleoli darpariaeth addysg gynnar â'r Cynnig Gofal Plant a darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg ar un safle, lle bynnag y bo modd, gan gefnogi dull cydgysylltiedig o weithio gyda phlant a'u teuluoedd.

2.23 Cyllid cyfalaf ar gyfer menter Ysgolion Bro

Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y grant Canolfannau Cymunedol a Chanolfannau Dysgu Cymunedol a diweddariad ar hynt y gwaith o gynyddu natur gymunedol ystadau addysg.

2.23.1 Mae'r Rhaglen Beilot ar gyfer Canolfannau Cymunedol gwerth £15m a lansiwyd yn 2019 yn mynd rhagddi'n dda. Hyd yma, cwblhawyd 11 o'r 21 o brosiectau a gymeradwywyd gyda 4 ar y cam adeiladu a 6 ar y cam cyn adeiladu. Mae ysgolion a'u cymunedau eisoes yn gweld manteision y Peilot, gan gynnwys y canlynol:

- Ysgol Gyfun Brynteg – Mae prosiect Canolfan y Dwyrain wedi arwain at adleoli canolfan amlwasanaeth Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn uniongyrchol yn Ysgol Brynteg, gan alluogi staff y ganolfan mewn meysydd megis diogelu a chwrsela i weithio'n agosach gyda'r ysgol ynghyd ag ysgolion lleol eraill; annog diwylliant o gydgyhyrchu;
- Bydd Campws Dysgu Cymunedol Queensferry yn Sir y Fflint a gaiff ei adeiladu ar hyn o bryd yn cynnwys adeiladu canolfan dysgu cymunedol ac amlasiantaeth newydd ochr yn ochr ag ysgol ac UCD / canolfan gofal dydd i oedolion er mwyn diwallu'r angen am gyfleoedd dysgu a chwaraeon. Bydd y ganolfan yn darparu nifer o gyfleoedd i oedolion a phobl ifanc agored i niwed yn cynnwys cyfleoedd dysgu a gwasanaethau ymyrryd, darpariaeth blyneddodd cynnar a gofal plant, defnydd cymunedol a chyfleoedd clwb chwaraeon cymunedol mewn un man.

2.23.2 Wrth symud yr ymrwymiad hwn ymlaen, mae swyddogion Addysg yn gweithio gyda swyddogion o fewn lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gydgyflawni'r ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu i gyfleoli gwasanaethau.

2.23.3 Mae manteision cyflawni polisi mewn modd cydgysylltiedig drwy Raglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif eisoes yn glir, fel y'u gwelwyd drwy'r broses lwyddiannus o gyflawni rhaglenni buddsoddi cyfalaf y Gymraeg, Dechrau'n Deg a Gofal Plant. Rydym am adeiladu ar hyn drwy archwilio pob cyfle ac adnodd sydd ar gael i sicrhau bod ein dysgwyr a'u cymunedau yn profi cynifer o ganlyniadau llesiant â phosibl.

2.23.4 Caiff y dysgu, arfer dda a manteision i ddysgwyr, eu teuluoedd a chymunedau ehangach drwy'r gwaith eu trosi'n Safonau Dylunio a Chostau diwygiedig o dan broses achos busnes Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif. Bydd canlyniad hyn yn sicrhau mai Ysgolion Cymunedol yw'r norm a disgwylwn weld arbedion effeithlonrwydd yn dod i'r amlwg wrth inni brif-ffrydio Ysgolion Cymunedol drwy raglen fuddsoddi sefydledig Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i gyflawni'r ymrwymiad hwn yn y setliad cyllideb gyfalaf tair blynedd.

Crynodeb

Caiff Cyllideb Ddrafft 2022-23 Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ei chyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cyllideb Ddrafft 2022-23
Papur Tystiolaeth - Atodiadau

ATODIAD A - Dadansoddiad Prif Grŵp Gwariant Addysg yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer 2022-23, alldro rhagolygol 2022-22 ac alldro terfynol 2020-21

Adnodd

Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	Alldro Terfynol 2020-21 £000oedd	Cyllideb Atodol Cyntaf 2021-22 £000oedd	Alldro Rhagolygol Cyfnod 7 2021-22 £000oedd	Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2021-22 £000oedd	Newidiadau 2022-23 £000oedd	Cyllideb Ddrafft 2022-23 £000oedd	Newidiadau 2023-24 £000oedd	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd	Newidiadau 2024-25 £000oedd	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd
Llythrennedd a Rhifedd	Llythrennedd a Rhifedd	4,099	4,171	4,171	4,171	760	4,931	0	4,931	0	4,931
Cyfanswm Llythrennedd a Rhifedd		4,099	4,171	4,171	4,171	760	4,931	0	4,931	0	4,931
Cwricwlwm	Cwricwlwm ac Asesu	4,913	9,662	19,187	7,782	3,248	11,030	0	11,030	0	11,030
	Diwygio'r Cwricwlwm	4,807	20,300	22,300	14,050	5,330	19,380	-330	19,050	-3,340	15,710
	Y Cyfnod Sylfaen	160	168	168	148	-148	0	0	0	0	0
Cyfanswm y Cwricwlwm		9,880	30,130	41,655	21,980	8,430	30,410	-330	30,080	-3,340	26,740
Addysgu ac Arweinyddiaeth	Datblygu a Chefnogi Athrawon	40,076	45,258	60,717	38,914	15,740	54,654	500	55,154	2,000	57,154
Cyfanswm Addysgu ac Arweinyddiaeth		40,076	45,258	60,717	38,914	15,740	54,654	500	55,154	2,000	57,154
Cymwysterau	Cymwysterau Cymru	8,209	9,867	9,867	9,867	0	9,867	0	9,867	0	9,867
Cyfanswm Cymwysterau		8,209	9,867	9,867	9,867	0	9,867	0	9,867	0	9,867
Addysg Ôl-16	Darpariaeth Ôl-16	547,734	548,294	565,883	500,306	58,797	559,103	5,800	564,903	2,800	567,703
	Y Rhaglen Gyfnewid Ryngwladol ar gyfer Dysgu	6,511	26,000	26,000	0	6,500	6,500	0	6,500	0	6,500
	Diwygio PCET	0	0	2,396	0	1,500	1,500	5,500	7,000	-1,000	6,000
	Trawsnewid Digidol	328	0	250	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm Addysg Ôl-16		554,573	574,294	594,529	500,306	66,797	567,103	11,300	578,403	1,800	580,203
Addysg Uwch	Gwariant Rhaglen CCAUC	238,082	207,913	209,213	203,413	100	203,513	-3,500	200,013	0	200,013
	Cyfalaf CCAUC	90	90	90	90	-90	0	0	0	0	0
Cyfanswm Addysg Uwch		238,172	208,003	209,303	203,503	10	203,513	-3,500	200,013	0	200,013
Safonau Addysg	Grant Gwella Ysgolion	187,388	183,188	189,434	134,159	37,000	171,159	-8,000	163,159	-9,000	154,159

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cyllideb Ddrafft 2022-23
Papwr Tystiolaeth - Atodiadau

Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	Alldro Terfynol 2020-21 £000oedd	Cyllideb Atodol Cyntaf 2021-22 £000oedd	Alldro Rhagolygol Cyfnod 7 2021-22 £000oedd	Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2021-22 £000oedd	Newidiadau 2022-23 £000oedd	Cyllideb Ddrafft 2022-23 £000oedd	Newidiadau 2023-24 £000oedd	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd	Newidiadau 2024-25 £000oedd	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd
	Codi Safonau Ysgolion	24,263	25,500	24,745	25,500	-25,500	0	0	0	0	0
	Cefnogi Safonau Ysgolion	657	1,504	1,014	1,504	1,300	2,804	1,300	4,104	1,100	5,204
	Llywodraethu Ysgolion	20	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm Safonau Addysg		212,328	210,192	215,193	161,163	12,800	173,963	-6,700	167,263	-7,900	159,363
Grant Datblygu Disgyblion	Grant Datblygu Disgyblion	112,272	113,480	119,952	113,500	19,980	133,480	0	133,480	0	133,480
Cyfanswm Grant Datblygu Disgyblion		112,272	113,480	119,952	113,500	19,980	133,480	0	133,480	0	133,480
TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth	Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg	4,411	4,429	4,332	4,429	0	4,429	0	4,429	0	4,429
Cyfanswm TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth		4,411	4,429	4,332	4,429	0	4,429	0	4,429	0	4,429
Llesiant plant a phobl ifanc	Anghenion Dysgu Ychwanegol	17,414	9,691	18,691	9,691	11,400	21,091	0	21,091	0	21,091
	Bwyd a Maeth mewn Ysgolion	3,814	8,915	7,427	8,915	40,000	48,915	30,000	78,915	20,000	98,915
	Lleoliadau Arbenigol Ôl-16	13,458	13,881	13,881	13,881	0	13,881	0	13,881	0	13,881
	Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant	1,874	2,000	1,772	2,000	3,200	5,200	2,200	7,400	2,200	9,600
	Grwpiau Agored i Niwed	220	1,150	1,130	1,150	0	1,150	0	1,150	0	1,150
Cyfanswm Llesiant plant a phobl ifanc		36,780	35,637	42,901	35,637	54,600	90,237	32,200	122,437	22,200	144,637
Cymorth i ddysgwyr ôl-16	Grantiau Cymorth i Fyfrwyr	380,000	361,217	365,455	358,717	0	358,717	0	358,717	0	358,717
	Costau Gweinyddol CBM/CThEM	18,605	14,343	20,322	14,343	300	14,643	0	14,643	3,500	18,143
	Darpariaeth Cyllideb Adnoddau Benthyciadau Myfyrwyr	413,422	497,692	497,692	110,712	348,713	459,425	28,585	488,010	26,331	514,341
	Dyfarniadau Cymorth i Fyfrwyr wedi'u Targedu	6,859	1,865	2,366	6,297	-6,297	0	0	0	0	0
Cyfanswm Cymorth i ddysgwyr ôl-16		818,886	875,117	885,835	490,069	342,716	832,785	28,585	861,370	29,831	891,201
Ymgysylltu â Disgyblion	Trechu Dadrithiad	993	1,862	2,060	2,015	3,390	5,405	2,500	7,905	0	7,905
	Ysgolion Cymunedol	0	0	0	0	3,070	3,070	2,030	5,100	10,820	15,920

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cyllideb Ddrafft 2022-23
Papur Tystiolaeth - Atodiadau

Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	Alldro Terfynol 2020-21 £000oedd	Cyllideb Atodol Cyntaf 2021-22 £000oedd	Alldro Rhagolygol Cyfnod 7 2021-22 £000oedd	Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2021-22 £000oedd	Newidiadau 2022-23 £000oedd	Cyllideb Ddrafft 2022-23 £000oedd	Newidiadau 2023-24 £000oedd	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd	Newidiadau 2024-25 £000oedd	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd
Cyfanswm Ymgysylltu â Disgyblion		993	1,862	2,060	2,015	6,460	8,475	4,530	13,005	10,820	23,825
Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid	Dysgu Troseddwyr	6,628	7,303	7,303	7,328		7,328	0	7,328	0	7,328
	Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid	10,646	7,456	13,934	7,326	2,130	9,456	2,500	11,956	420	12,376
Cyfanswm Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid		17,274	14,759	21,237	14,654	2,130	16,784	2,500	19,284	420	19,704
Cymorth Cyflawni	Cyfathrebu Addysg	488	482	578	482	0	482	0	482	0	482
	Tystiolaeth Ymchwil a Rhyngwladol	815	574	550	574	0	574	0	574	0	574
Cyfanswm Cymorth Cyflawni		1,303	1,056	1,128	1,056	0	1,056	0	1,056	0	1,056
Cymraeg mewn Addysg	Cymraeg mewn Addysg	12,710	13,475	15,034	13,475	4,300	17,775	3,000	20,775	3,500	24,275
Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg		12,710	13,475	15,034	13,475	4,300	17,775	3,000	20,775	3,500	24,275
Y Gymraeg	Y Gymraeg	21,232	20,949	21,658	21,065	1,384	22,449	0	22,449	0	22,449
	Comisiynydd y Gymraeg	3,136	3,323	3,248	3,207	120	3,327	0	3,327	0	3,327
Cyfanswm y Gymraeg		24,368	24,272	24,906	24,272	1,504	25,776	0	25,776	0	25,776
Ystad a Darpariaeth TG	Seilwaith Addysg	46,902	0	0	0	500	500	6,500	7,000	5,000	12,000
Cyfanswm Ystad a Darpariaeth TG		46,902	0	0	0	500	500	6,500	7,000	5,000	12,000
ADDYSG - CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU		2,143,236	2,166,002	2,252,820	1,639,011	536,727	2,175,738	78,585	2,254,323	64,331	2,318,654

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
 Cyllideb Ddrafft 2022-23
 Papur Tystiolaeth - Atodiadau

Cyfalaf

Cam Gweithredu	Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb	Alldro Terfynol 2020-21 £000oedd	Cyllideb Atodol Cyntaf 2021-22 £000oedd	Alldro Rhagolygol Cyfnod 7 2021-22 £000oedd	Cyllideb Derfynol 2021-22 £000oedd	Cyllideb Ddrafft 2022-23 £000oedd	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd	Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 £000oedd
Ystad a Darpariaeth TG	Seilwaith Addysg	316,695	271,718	288,346	269,750	352,400	357,400	357,400
Cyfanswm Ystad a Darpariaeth TG		316,695	271,718	288,346	269,750	352,400	357,400	357,400
Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16	Costau Gweinyddol CBM/CThEM	0	0	2,093	0	2,500	2,500	2,500
Cyfanswm Cymorth i ddysgwyr ôl-16		0	0	2,093	0	2,500	2,500	2,500
Addysg Uwch	Gwariant Rhaglen CCAUC	44,120	0	0	0	100	100	100
Cyfanswm Addysg Uwch		44,120	0	0	0	100	100	100
Addysg Ôl-16	Darpariaeth Ôl-16	24,537	0	0	0	100	100	100
Cyfanswm Addysg Ôl-16		24,537	0	0	0	100	100	100
Cymwysterau	Cymwysterau Cymru	285	0	252	0	250	250	250
Cyfanswm Cymwysterau		285	0	252	0	250	250	250
Y Gymraeg	Y Gymraeg	148	0	0	0	0	0	0
	Comisiynydd y Gymraeg	293	30	256	30	50	50	50
Cyfanswm y Gymraeg		441	30	256	30	50	50	50
ADDYSG - CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF		386,078	271,748	290,947	269,780	355,300	360,300	360,300

ATODIAD B - Sylwadau lefel cam gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant

Adnodd

Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd

- Mae cyllid yn y Cam Gweithredu hwn yn cefnogi'r gwaith o gymryd camau a amlinellir yn y Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a'r asesiadau addasol ar-lein.
- Bu cynnydd net i'r cam gweithredu o £0.760m o 2022-23 gan greu cyfanswm cyllid y flwyddyn o £4.931m. Mae'r cynnydd net yn ymwneud â throsglwyddiad allan o £0.04m i'r Cam Gweithredu Cwricwlwm ar gyfer ieithoedd tramor modern a throsglwyddiad i mewn o £0.8m o'r Cam Gweithredu Safonau Addysg (Llinell Wariant yn y Gyllideb Codi Safonau Ysgolion) yn dilyn rhesymoli strwythur y Llinell Wariant yn y Gyllideb (gweler adran 2.2 o'r papur tystiolaeth).

Cam Gweithredu Cwricwlwm

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynnwys Llinell Wariant yn y Gyllideb Cwricwlwm ac Asesu ac Adolygu'r Cwricwlwm. Rydym yn dyrannu cyllid o £5.33m yn 2022-23, £5m yn 2023-24 ac £1.66m yn 2024-25 i Llinell Wariant yn y Gyllideb Diwygio'r Cwricwlwm (gweler adran 1.5 o'r papur tystiolaeth).
- Hefyd rydym yn dyrannu £3m ychwanegol o 2022-23 i sefydlu Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol, gan greu cyfanswm cyllid o £4.5m y flwyddyn.
- Mae'r Cam Gweithredu hefyd yn cynyddu £0.1m arall y flwyddyn oherwydd y trosglwyddiadau canlynol â'r Prif Grŵp Gwariant:
 - £0.04m o'r Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer ieithoedd tramor modern;
 - £0.06m o'r Cam Gweithredu Safonau Addysg (Llinell Wariant yn y Gyllideb Codi Safonau Ysgolion) yn dilyn rhesymoli strwythur y Llinell Wariant yn y Gyllideb (gweler adran 1.5 o'r papur tystiolaeth).

Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth

- Mae'r gyllideb yn cefnogi cyllid ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yn cynnwys y llwybrau AGA 'amgen' newydd, y TAR Rhan-amser a'r TAR Cyflogedig ar gael o flwyddyn academaidd 2021/22, lle darperir grant hyfforddi a grant cyfraniad at gyflog i fyfyrwyr AGA. Mae'r gyllideb hefyd yn darparu cyllid ar gyfer mentrau Hyfforddi Athrawon (TAR AU ac AB) a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer addysgwyr proffesiynol, yn cynnwys dysgu proffesiynol i baratoi ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hefyd yn ariannu'r Cyngor Gweithlu Addysg i weinyddu Statws Athro Cymwysedig a'r Rhaglen Sefydlu mewn ysgolion, yn cynnwys dosbarthu cyllid i gefnogi gwaith mentora a chefnogi ANG.
- Dyrannwyd cyllid ychwanegol a chaiff ei fuddsoddi dros y tair blynedd nesaf i roi'r cynllun 10 mlynedd sydd ar ddod ar gyfer y gweithlu Cymraeg mewn addysg ar waith (cynnydd o £1m yn 2022-23, gyda chynnydd pellach o £.5m yn 2023-23 a £2m yn 2024-25).

- Mae'r Cam Gweithredu hefyd yn cynyddu £14.74m y flwyddyn oherwydd trosglwyddiad o'r Cam Gweithredu Safonau Addysg yn dilyn rhesymoli strwythur y Llinell Wariant yn y Gyllideb (gweler adran 1.5 o'r papur tystiolaeth).

Cam Gweithredu Cymwysterau

- Mae cyllideb adnoddau Cymwysterau Cymru yn cael ei chynnal ar £9.876m y flwyddyn o 2022-23 (£9.617m refeniw a £0.25m heb fod yn arian parod). Bydd hefyd yn gallu cael gafael ar £0.15m arall os oes angen, o Linell Wariant yn y Gyllideb Diwygio'r Cwricwlwm, i gefnogi ei rôl yn diwygio'r cymwysterau sylfaenol yn ystod 2022-23.

Cam Gweithredu Addysg Ôl-16

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynnwys cyllid i ddarparu cymwysterau UG a Safon Uwch, ac ystod eang o raglenni galwedigaethol i bobl ifanc 16-19 oed mewn colegau AB ac adrannau chweched dosbarth Awdurdodau Lleol. Mae hefyd yn cynnig darpariaeth rhan-amser i oedolion (yn bennaf darparu Sgiliau Sylfaenol a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), mewn Colegau AB a lleoliadau Dysgu yn y Gymuned Awdurdodau Lleol. Mae'r cam gweithredu hefyd yn cefnogi prosiectau strategol a gweithgareddau gwella ansawdd sydd wedi'u cynllunio i wella'r gwaith o gyflwyno dysgu ôl-16 yng Nghymru yn cynnwys cymorth i wella ansawdd, meithrin gallu ac ymchwil ar gyfer y sector dysgu a sgiliau, cyllid grant y Sefydliad Dysgu a Gwaith (yn cynnwys Wythnos Addysg Oedolion), datblygu polisi Gyrfaoedd, cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhwydwaith Seren, cefnogi cynnydd i brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton i'r dysgwyr mwyaf disglair; a gweithgareddau Erasmus i gefnogi symudedd rhyngwladol i staff a myfyrwyr. Mae'r cam gweithredu hwn hefyd yn cefnogi costau yn ymwneud â diwygio PCET sy'n cynnwys sefydlu'r corff newydd.
- Yn y Gyllideb hon, mae cynnydd mewn cyllid o Gronfeydd wrth Gefn ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb Darpariaeth Ôl-16 o gyfanswm o £54.3m yn 2021-22, gyda chynnydd pellach o £7.8m yn 2022-23 a £5.3m yn 2024-25, sy'n cynnwys y canlynol:
 - Cyfrifon Dysgu Personol (CDPau) - £0.5m yn 2022-23, gyda chynnydd pellach o £0.5m yn 2024-25, gan ddarparu cyllid ychwanegol o £1m erbyn 2024-25 (gweler adran 2.2 o'r papur tystiolaeth);
 - Iechyd meddwl – dyraniadau o £2.3m yn 2022-23, £3.1m yn 2023-24 a £2.9m yn 2024-25 i gefnogi iechyd meddwl ôl-16 fel rhan o'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio (fel rhan o'r cynnydd cyffredinol o £10.5m erbyn 2024-25 o fewn Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg i gefnogi iechyd meddwl);
 - Darpariaeth ôl-16 - £51.5m yn 2022-23, yn codi i £63.5m ar gyfer ôl-16 yn cynnwys cyllid i gydnabod tueddiadau demograffig yn y chweched dosbarth ac mewn colegau, addysg oedolion, a chyllid Adnewyddu a Diwygio.
- Mae'r gyllideb Darpariaeth Ôl-16 hefyd yn cynnwys cyllid trosglwyddo o £6m i'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn, yn dilyn trosglwyddo cyllid o'r Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16. Mae'r cyllid hwn yn cefnogi dysgwyr AB sy'n profi caledi ariannol ac na fyddent fel arall efallai yn gallu mynychu'r coleg.

- Mae £6.5m y flwyddyn hefyd wedi cael ei ddyrannu fel rhan o'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i roi rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol gwerth £65m ar waith.
- Mae cyllideb o £1.5m yn 2022-23, £7m yn 2023-24 a £6m yn 2024-25 wedi'i darparu i gefnogi'r diwygiadau i Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol, yn cynnwys y costau trosiannol a rheolaidd o sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER). Nodwyd hyn drwy drosglwyddo cyllid drwy Linell Wariant yn y Gyllideb Darpariaeth Ôl-16 a Llinell Wariant yn y Gyllideb CCAUC (£3.5m ar gyfer 2023-24 yn unig).

Cam Gweithredu Addysg Uwch

- Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyllid Cymorth Grant ar gyfer CCAUC er mwyn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn y llythyr Cylch Gwaith Blynyddol. Mae'r blaenoriaethau presennol yn parhau i ganolbwyntio ar y canlynol: ehangu mynediad; ehangu a gwella darpariaeth rhan-amser ac ymchwil o ansawdd; hyrwyddo mwy o gydweithio ar draws AU ac AB ac ymrwymiad i gynllunio cyflwyno AU ar sail ranbarthol; cyflwyno prentisiaethau gradd yng Nghymru; cyfrannu at addysg a datblygiad proffesiynol athrawon drwy ymgysylltu agos rhwng prifysgolion ac ysgolion; tyfu cenhadaeth ddinesig AU yng Nghymru; mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyflogau a helpu i gyflwyno arferion gwaith teg ehangach Llywodraeth Cymru; Rheoleiddio AU, gan wella profiad a deilliannau myfyrwyr; llesiant, yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid ar fynd i'r afael â ffactorau andwyol sy'n effeithio ar iechyd meddwl; a chyfrannu at ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio ein heconomi. Bydd CCAUC hefyd yn gwneud gwaith i gefnogi'r broses o weithredu Diamond ac i helpu hynt ein cynigion i sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru drwy, er enghraifft, ddatblygu cysylltiadau cryfach â'r sector PCET ehangach. Mae hefyd yn cynnwys dyraniad heb fod yn arian parod CCAUC.
- Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys dyraniad adnoddau o £203.513m ar gyfer y Cam Gweithredu Addysg Uwch. Mae hyn yn cynnwys cynnydd nad yw'n gynnydd arian parod o £0.1 oherwydd gofynion ychwanegol heb fod yn arian parod CCAUC. Yn 2023-24 a 2024-25 mae lleihad o £3.5m yn y gyllideb oherwydd trosglwyddiad i'r Cam Gweithredu Addysg Ôl-16 ar gyfer Diwygio PCET yn 2023-24, a Chymorth i Ddysgwyr Ôl-16 yn 2024-25. Rhoddir rhagor o fanylion yn adran 2.18 o'r papur tystiolaeth.

Cam Gweithredu Safonau Addysg

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer y Grant Gwella Addysg (GGA) a chyllid grant ar gyfer dysgwyr ethnig leiafrifol a rhai o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr ynghyd â systemau a chasglu data sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer gweithgareddau polisi ac sy'n weladwy ac yn broffil uchel.
- Bu dyraniad o Gronfeydd Wrth Gefn i'r Cam Gweithredu hwn o £39.1m o Gronfeydd Wrth Gefn yn 2022-23, o ganlyniad i'r dyraniadau canlynol:
 - cyllid ychwanegol i Estyn (Llinell Wariant yn y Gyllideb Safonau Ysgolion), er mwyn adlewyrchu ei ofynion cyllido craidd i ddatblygu'r meysydd gwaith blaenoriaethol allweddol i gefnogi'r system addysg a diwygiadau. Mae hyn yn cynnwys £1.6m

ychwanegol yn 2022-23, gyda chynnydd dangosol pellach o £1.3m yn 2023-24 ac £1.1m yn 2024-25;

- £37.5m yn 2022-23, £32m yn 2023-24 a £23m yn 2024-25 i gefnogi parhad ein cyllid Rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau hyd at 1,800 o staff ychwanegol mewn ysgolion.
- Bu lleihad o £26.3m y flwyddyn i'r Cam Gweithredu Safonau Addysg yn 2022-23, gan godi £2.5m arall o 2023-24, yn sgil ailddyrrannu cyllid o fewn y Prif Grŵp Gwariant fel a ganlyn:
 - £0.5m i'r Cam Gweithredu Ymgysylltu â Disgyblion ar gyfer cymorth presenoldeb (cyllid a ddyrannwyd yn flaenorol o Linell Wariant yn y Gyllideb Gwella Ysgolion ar gyfer meintiau dosbarthiadau);
 - £0.3m i'r Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg ar gyfer e-sgol (o Linell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Safonau Ysgolion);
 - £25.5m allan i Gamau Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth (£14.74m), Llesiant Plant a Phobl Ifanc (£4.4m), Llythrennedd a Rhifedd (£800k); Cwricwlwm (£60k); Cymraeg mewn Addysg (£2.5m) ac Ymgysylltu â Disgyblion (£3m) yn dilyn rhesymoli strwythur Llinell Wariant yn y Gyllideb Codi Safonau Ysgolion (gweler adran 1.5 o'r papur tystiolaeth).

Cam Gweithredu Grant Datblygu Disgyblion (Papur Tystiolaeth – Adran 2.3)

- Nodir y dyraniad o £20m ar gyfer GDD o 2022-23 yn y papur tystiolaeth yn adran 2.3. Hefyd bu trosglwyddiad o fewn y Prif Grŵp Gwariant o £0.02m i'r Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid ar gyfer cyllid ar gyfer Gŵyl y Gelli gan greu cyfanswm cyllideb flynyddol ar gyfer Cam Gweithredu Grant Datblygu Disgyblion o £133.48m.

Cam Gweithredu TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cwricwlwm drwy ddarparu mynediad i amrywiaeth o adnoddau addysgu digidol o ansawdd uchel, yn cynnwys: Hwb; cymorth gwneud cais EPS; systemau rheoli data mewnol. Caiff y gyllideb hon ei chynnal ar gyfer 2022-23 ar lefelau 2021-22 gyda chyfanswm dyraniad o £4.429m y flwyddyn.

Cam Gweithredu Llesiant Plant a Phobl Ifanc

- Mae'r cam gweithredu hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen drawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru), darparu lleoliadau arbenigol ar gyfer dysgwyr hyd at 25 oed sydd angen darpariaeth arbenigol er mwyn mynychu AB sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion, bwyd a maeth mewn ysgolion ynghyd â'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl.
- Llinell Wariant yn y Gyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol - rhoddir rhagor o fanylion am newidiadau yn adrannau 1.5 a 2.8 o'r papur tystiolaeth.
- Llinell Wariant yn y Gyllideb Bwyd a Maeth mewn Ysgolion - darperir £40m ar gyfer cyflawni prydau ysgol am ddim yn 2022-23, darperir £70m yn 2023-24, a darperir £90m yn 2024-25.

- Mae cyllid Llinell Wariant yn y Gyllideb Lleoliadau Arbenigol Ôl-16 a Llinell Wariant yn y Gyllideb Grwpiau Agored i Niwed yn dal i fod yn £13.881m ac £1.15m y flwyddyn yn y drefn honno.
- Llinell Wariant yn y Gyllideb Dull ysgol gyfan - rydym hefyd yn cynyddu cyllid i gefnogi'r dull ysgol gyfan £3.2m yn 2022-23, gyda chynnydd pellach yn 2023-24 (£5.4m) a 2024-25 (£7.65m). Erbyn 2024-25, bydd cyfanswm y cyllid i gefnogi'r dull ysgol gyfan ym Mhrif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn codi i £9.6m (gweler adran 2.6 o'r papur tystiolaeth).
- Mae trosglwyddiadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant o Gam Gweithredu Safonau Addysg yn dilyn rhesymoli strwythur y Llinell Wariant yn y Gyllideb wedi cynyddu Cam Gweithredu Llesiant Plant a Phobl Ifanc £4.4m.

Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer y rhaglen cymorth i fyfyrwyr statudol a arweinir gan alw sy'n cyfrif am Addysg Uwch (AU) ac Addysg Bellach (AB). Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan-amser, Grantiau wedi'u Targedu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (CBM), Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr, Grant Ffioedd Dysgu a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Mae hefyd yn darparu'r ffi weinyddol a delir i'r cwmni benthyciadau myfyrwyr, ffi weinyddol CThEM, proses Y Brifysgol Agored o weinyddu cymorth i fyfyrwyr statudol ar gyfer carfannau myfyrwyr hanesyddol a pholisi a gweithredu ynghyd â darpariaeth heb fod yn arian parod ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr.
- Mae Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16 wedi cynyddu £348.713m yn 2022-23, £377.298m yn 2023-24 a £403.629m yn 2024-25 yn dilyn dyrannu o gronfeydd wrth gefn heb fod yn arian parod ar gyfer Benthyciadau i Fyfyrwyr.
- Trosglwyddwyd £6m i Gam Gweithredu Darpariaeth Ôl-16 ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

Cam Gweithredu Ymgysylltu â Disgyblion

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi gweithgareddau sy'n anelu at wella deilliannau dysgwyr agored i niwed/difreintiedig drwy wneud y canlynol: Gwellu gwrth-fwlio a phresenoldeb mewn ysgolion; Addysg heblaw yn yr Ysgol, Cwnsela; Addysg yn y cartref; presenoldeb; gwrth-fwlio; diwygio'r diwrnod ysgol ac ysgolion cymunedol.
- Mae £0.110m wedi'i drosglwyddo o fewn y Prif Grŵp Gwariant i Gam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid ar gyfer y cyllid ar gyfer Gŵyl y Gelli ynghyd â £3.5m yn 2022-23 a £6m yn 2023-24 a 2024-25 o Gam Gweithredu Safonau Addysg ar gyfer cymorth presenoldeb (ailwrpasu cyllid a ddyrannwyd yn flaenorol ar gyfer meintiau dosbarthiadau).
- Dyrannwyd £3m o gronfeydd wrth gefn i Gam Gweithredu Ymgysylltu â Disgyblion yn 2022-23, gyda chyllid yn cynyddu i £5.1m yn 2023-24 a £15.92m yn 2024-25 i gefnogi'r gwaith o ddiwygio'r diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol, ynghyd ag ysgolion cymunedol.

Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid

- Yn y Gyllideb hon, rydym yn cynyddu cyllid o fewn Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid £2m yn 2022-23, gan gynyddu i £4.9m erbyn 2024-25, sy'n cefnogi ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu a bwrw ymlaen ag argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuencid Interim.
- Ynghyd â throsglwyddiadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant i gefnogi Gŵyl y Gelli (£0.13m), bydd hyn yn cynyddu cyllid ar gyfer Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid i £9.5m yn 2022-23, gan gynyddu i £12.4m erbyn 2024-25. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, disgwylir trosglwyddiad pellach o £3.7m i gefnogi Digartrefedd Ieuencid o Brif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd fel rhan o Gyllideb yn y dyfodol.
- Amlinellir newidiadau i Linell Wariant yn y Gyllideb Dysgu Troseddwyr yn adran 2.16 o'r papur tystiolaeth.

Cam Gweithredu Cymorth Cyflawni

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cyllido marchnata a chyfathrebu, ymchwil a'r Rhaglen Addysg Ryngwladol. Caiff y gyllideb ei chynnal ar lefelau 2021-22 gyda chyfanswm dyraniad o £1.056m y flwyddyn.

Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg

- Fel rhan o'r gyllideb hon, rydym yn cynyddu cyllid y Coleg £1.5m, gyda chynnydd pellach i gefnogi'r Coleg a'r Ganolfan Genedlaethol o £3m yn 2023-24 a £3.5m yn 2024-25.
- Hefyd, mae cynnydd yn y Cam Gweithredu o £2.8m y flwyddyn yn dilyn trosglwyddiadau o Gam Gweithredu Safonau Addysg o ganlyniad i ailbwrpasu cyllid ar gyfer e-sgol (£0.6m) a throchi (£2.2m).

Cam Gweithredu'r Gymraeg

- Mae Cam Gweithredu'r Gymraeg wedi cynyddu £1.504m y flwyddyn oherwydd cyllid ychwanegol ar gyfer yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol (£1.5m) a chynnydd bach yn y swm heb fod yn arian parod sydd ei angen ar Gomisiynydd y Gymraeg (£4k).

Cam Gweithredu yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG

- Bydd y cam gweithredu hwn yn darparu cyllid refeniw i gefnogi Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yng Ngham Gweithredu yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG wedi cael cyllideb refeniw am y tro cyntaf fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2022-23 gyda £0.5m yn 2022-23, £7m yn 2023-24 a £12m yn 2024-25.

Cyfalaf

Cam Gweithredu yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG

- Mae'r gyllideb hon yn cefnogi Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif sy'n cynrychioli buddsoddiad strategol yn ein seilwaith addysg yng Nghymru. Bydd y gyllideb hefyd yn cael ei defnyddio i gefnogi unrhyw ofynion cyllid cyfalaf i gyflawni ein blaenoriaethau addysg, ac mae hefyd yn cynnwys cyllid cyfalaf i greu ysgolion carbon sero net, y cynnig Gofal Plant, Dechrau'n Deg, y Rhaglen Gyfalaf Cyfrwng Cymraeg a chyllid i Resymoli'r Ystad AU.
- Mae cyllideb y Cam Gweithredu yn £352.4m ar gyfer 2022-23, sef cynnydd o £82.65m o gymharu â llinell sylfaen 2021-22. Gwnaed y buddsoddiadau canlynol:
 - £900m ychwanegol o gyllid cyfalaf dros y tair blynedd nesaf (£300m y flwyddyn) i gefnogi ein Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif (Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu o 1 Ionawr 2022).
 - £70m, dros y tair blynedd nesaf, i gefnogi parhad rhaglenni Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant;
 - £45m dros y tair blynedd nesaf (£15m y flwyddyn) i ddarparu cefnogaeth barhaus i'n rhaglen gyfalaf cyfrwng Cymraeg;
 - £13.92m y flwyddyn i resymoli'r Ystad AU ynghyd â dyraniad blynyddol ar gyfer HERC o £3.48m.

Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16

- Mae £2.5m wedi'i ddyrannu i Gam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16 ar gyfer gofynion cyfalaf y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

Addysg Uwch

- Mae £0.1m wedi'i ddyrannu bob blwyddyn ar gyfer gofynion cyfalaf CCAUC.

Cymwysterau

- Mae Cymwysterau Cymru wedi cael cyllideb gyfalaf o £0.25m y flwyddyn am y tro cyntaf fel rhan o'r broses gyllidebol.

Y Gymraeg

- Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cael cyllideb gyfalaf o £0.05m y flwyddyn.

ATODIAD C - Dyraniadau COVID-19 o Gronfeydd wrth Gefn i Brif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg 2021-22

Disgrifiad o'r Trosglwyddiad	£000
Trosglwyddiadau Adnoddau Ariannol Refeniw o Gronfa wrth Gefn COVID-19	
Cydnorthedd athrawon, ysgolion a Llesiant a Chynnydd Dysgwyr (Llinell Wariant yn y Gyllideb Adolygu'r Cwricwlwm)	6,000
Gwaith peilot ar newid dyddiadau tymhorau (Llinell Wariant yn y Gyllideb Adolygu'r Cwricwlwm)	250
Estyniad i Raglen Addysg Gychwynnol i Athrawon (Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon)	6,000
Adfer dysgu a chynnydd ar draws y system addysg (Llinell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon)	650
Adfer dysgu a chynnydd ar draws y system addysg (Darpariaeth Addysg Bellach)	8,500
Costau trosiannol ac adfer ôl-16 (Darpariaeth Addysg Bellach)	33,000
Parhad RRRS (Llinell Wariant yn y Gyllideb Grant Gwella Ysgolion)	24,000
Cymorth i ddysgwyr blynyddoedd cynnar drwy EIG (Llinell Wariant yn y Gyllideb Grant Gwella Ysgolion)	10,000
Blynyddoedd cynnar mewn lleoliadau nas cynhelir ac nas ariennir (Llinell Wariant yn y Gyllideb Grant Gwella Ysgolion)	3,000
Cyllid ychwanegol i helpu i adfer dysgu, gwerthuso RRRS, a chyflwyno cymwysterau yn 2021 a pharatoi ar gyfer 2022	3,594
Y Gymraeg (£0.2m Eisteddfod Genedlaethol a £2.2m darpariaeth Drochi)	2,400
Estyniad i raglen Addysg Gychwynnol i Athrawon	1,700
Cymorth iechyd meddwl gwaith ieuentid	2,500
Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholi Addysgol (NSERE) i gefnogi'r Rhaglen Adnewyddu a Diwygio	1,744
Cyllideb a chyllid ymateb i COVID-19 Addysg Bellach yn cynnwys prydau ysgol am ddim	4,205
Cyllid adfer ar ôl COVID-19 ar gyfer mentrau i gefnogi gwasanaethau a darpariaeth blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae.	11,450
Cyllid ychwanegol i adfer ar ôl COVID-19 ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY	10,000
AB - Cynyddu cyfleoedd PLA	10,000
Cymwysterau	6,000
Ehangu rhaglen lleoliadau athrawon newydd gymhwysu	3,680
Ysgolion Cymunedol	350
Cymorth i fusnesau	2,862
Cyfanswm Cronfa wrth Gefn COVID-19 - Adnodd	151,885
Trosglwyddiadau Cyfalaf o Gronfa wrth Gefn COVID-19	
CSynwryddion O2 a systemau awyru	5,890
Cynnig Gofal Plant	6,836
Dechrau'n Deg	4,802
Cyfanswm Cronfa wrth Gefn COVID-19 - Cyfalaf	17,528
CYFANSWM TROSGLWYDDIADAU	169,413

ATODIAD D – Trosglwyddiadau a ragwelir ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn Ail Gyllideb Atodol 2021-22

Trosglwyddiadau Adnoddau Ariannol Refeniw o Gronfa wrth Gefn COVID-19	LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB	£000
Cerddoriaeth	Cwricwlwm ac Asesu	503
Cefnogi dysgwyr mewn blynyddoedd cymwysterau a chyflwyno cymwysterau.	Cwricwlwm ac Asesu	9,000
Diwygio'r Diwrnod Ysgol	Diwygio'r Cwricwlwm	2,000
Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholi Addysgol	Datblygu a Chefnogi Athrawon	1,744
Adnoddau i ddysgwyr mewn blynyddoedd cymwysterau	Datblygu a Chefnogi Athrawon	500
Gwerthuso recriwtio, adfer a chodi safonau (RRRS)	Datblygu a Chefnogi Athrawon	72
Estyniad i raglen Addysg Gychwynnol i Athrawon	Datblygu a Chefnogi Athrawon	1,700
Ehangu rhaglen lleoliadau athrawon newydd gymhwys	Datblygu a Chefnogi Athrawon	3,680
Cyllideb a chyllid ymateb i COVID-19 Addysg Bellach yn cynnwys prydau ysgol am ddim.	Darpariaeth Addysg Bellach.	4,205
Anghenion Dysgu Ychwanegol	Darpariaeth Addysg Bellach	1,000
AB	Darpariaeth Addysg Bellach	1,000
I ddarparu cymorth i fusnesau	Darpariaeth Addysg Bellach	2,862
PLA	Darpariaeth Addysg Bellach	10,000
AU	CCAUC - Gwariant Rhaglen	1,300
Cyllid i alluogi meithrinfeydd sy'n darparu'r cyfnod sylfaen i recriwtio staff ychwanegol i helpu dysgwyr i adfer (RRRS)	Grant Gwella Ysgolion	22
Ysgolion	Grant Gwella Ysgolion	6,580
Anghenion Dysgu Ychwanegol	Anghenion Dysgu Ychwanegol	9,000
Ysgolion Cymunedol	Ysgolion Cymunedol	350
Cymorth iechyd meddwl gwaith ieuencid	Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid	2,500
Darpariaeth Drochi ar gyfer y Gymraeg	Cymraeg mewn Addysg	2,200
Urdd	Y Gymraeg	67
Eisteddfod Genedlaethol	Y Gymraeg	200
Cyfanswm		60,485
Trosglwyddiadau Adnoddau Ariannol Refeniw o'r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol		
Ehangu rhaglenni llythrennedd	Llythrennedd a Rhifedd	5,090
Cerddoriaeth i gefnogi'r cwricwlwm newydd	Cwricwlwm ac Asesu	1,320
Hanes Cymru i gefnogi'r cwricwlwm newydd	Cwricwlwm ac Asesu	50
Cyflog Athrawon	Datblygu a Chefnogi Athrawon	6,400
Cyflog Athrawon - AB	Darpariaeth Addysg Bellach	1,500
Cost y diwrnod ysgol	Grant Datblygu Disgyblion	4,000
Blaenoriaethau gweinidogol a'r Rhaglen Lywodraethu o fewn cylch gwaith yr Is-adran EiE	Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant	226
Blaenoriaethau gweinidogol a'r Rhaglen Lywodraethu o fewn cylch gwaith yr Is-adran EiE	Trechu Dadrithiad	6,846
Ehangu Cymhwysedd Prydau Ysgol am Ddim - Paratoi	Bwyd a Maeth mewn Ysgolion	4,290
Seilwaith i hwyluso mynediad am ddim i Eisteddfod yr Urdd	Y Gymraeg	527
Cyfanswm		30,249

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cyllideb Ddrafft 2022-23
Papur Tystiolaeth - Atodiadau

Trosglwyddiadau Prif Grŵp Gwariant i Brif Grŵp Gwariant		
Trosglwyddiad o Brif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd – Digartrefedd Ieuenctid		3,700
Cyfanswm		3,700
CYFANSWM TROSGLWYDDIADAU ADNODDAU – AIL GYLLIDEB ATODOL		94,434
Trosglwyddiadau Cyfalaf o Gronfa wrth Gefn COVID-19		
Cerddoriaeth	Cwricwlwm ac Asesu	5,500
Dyfeisiau monitro Co2 a gwelliannau i systemau awyru	Seilwaith Addysg	5,890
Cynnig Gofal Plant	Seilwaith Addysg	6,836
Dechrau'n Deg	Seilwaith Addysg	4,802
Gwaith cynnal a chadw cyfalaf ar gyfer ysgolion	Seilwaith Addysg	50,000
Cyllid cynnal a chadw a chyfarpar i golegau AB	Darpariaeth Addysg Bellach	3,000
CYFANSWM TROSGLWYDDIADAU CYFALAF – AIL GYLLIDEB ATODOL		76,028

ATODIAD E - Dyraniadau Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol 2019-20 i 2021-21

Nod	Cyf	Disgrifiad o Gyllid	2019-20 £	2020-21 £	2021-22 £
Cwricwlwm ac Asesu - Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol sydd â thegwch a rhagoriaeth wrth ei wraidd sy'n pennu safonau uchel i bob dysgwr	A	Diwygio'r Cwricwlwm ac Asesu	-	-	9,765,000
	A	Profion Safonau Gofynnol Cenedlaethol	-	-	45,000
	A	Ysgolion Arloesi Digidol a'r Cwricwlwm	3,150,000	3,000,000	-
	B	Cymorth Consortia Craidd ar gyfer Cynllunio a Datblygu'r Cwricwlwm newydd	2,225,000	1,771,000	1,200,000
	A	Asesu ar gyfer Dysgu	400,000	400,000	-
		Fframwaith Defnyddio'r Gymraeg yn cynnwys Siarter y Gymraeg (Ysgolion Cyfrwng Gymraeg)	500,000	496,000	-
Datblygu proffesiwn addysg o'r radd flaenaf - gwella'r addysgu a dysgu yn ein hysgolion	K	Grant Gwella Addysg i Ysgolion (GGA)	118,137,000	120,637,000	120,159,000
	B	Dysgu Proffesiynol i wireddu'r Cwricwlwm			1,500,000
	O	Dysgu proffesiynol i wireddu'r cwricwlwm - a arweinir gan ysgolion			3,000,000
	C	Cymorth rhanbarthol ar gyfer ieithoedd modern	432,000	432,000	432,000
		Cymorth Prawf Rhifedd Cenedlaethol	20,000	20,000	-
	C	Grant Llythrennedd a Rhifedd	500,000	500,000	500,000
	O	Dysgu Proffesiynol - Ysgolion Arloesi	1,860,000	2,040,000	680,000
		Dysgu mewn Cymru Ddigidol - DPP Cam II	500,000	500,000	-
	C	Sgiliau Codio a Digidol	300,000	300,000	300,000
		Cynllun Llafaredd Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cynradd i Gymru	400,000	400,000	-
	D	Cynorthwyyr Addysgu Lefel Uwch	990,000	800,000	950,000
		Safonau Addysgu Proffesiynol	100,000	80,000	-
		Rhwydwaith Cenedlaethol er Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg (NNEST)	900,000	900,000	-
		Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen (FPEN)	200,000	200,000	-
	E	Y Gymraeg - Datblygiad Proffesiynol - Cyllid Consortia (rhai llinellau wedi'u cyfuno)	2,700,000	2,700,000	2,700,000
